# Cynnwys

Cynnwys
Rhaglen 2
Eitem 2 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6
Eitem 9 - Strategaeth Ariannol 2014-15 - 2017-18 18
Eitem 10 - Cynllun Strategol Diwygiedig 23
    Atodiad A 28
Eitem 11 - Treth Cyngor - Hawl Disgresiwn i Ganiatau Disgowntiau 90
Eitem 12 - Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2014-15 93
Eitem 13 - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Amserlen ddiwygiedig yn y Cytundeb Cyflawni 98
Eitem 14 - Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd 102
    Atodiad A 103
    Atodiad B 106
    Atodiad C 116
Eitem 15 - Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor 119
Eitem 16(A) Ymateb Tim Busnes y Llywodraeth i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Eryl Jones-Williams 122

**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR

# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 5 RHAGFYR, 2013**

**1.00pm, THURSDAY, 5 DECEMBER, 2013**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 29/11/13)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

29 Tachwedd / November 2013

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 5 RHAGFYR 2013**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **5 RHAGFYR 2013 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 5 DECEMBER 2013**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **5 DECEMBER 2013 in SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,

Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Llyfni
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 6. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 15.

## 8. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Derbyn cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd.

## 9. STRATEGAETH ARIANNOL 2014/15 – 2017/18

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (copi ynghlwm).

## 10. CYNLLUN STRATEGOL DIWYGIEDIG

Ystyried adroddiad yr Arweinydd (copi ynghlwm).

## 11. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (copi ynghlwm).

**12. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2014/15**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi ynghlwm).

**13. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – AMSERLEN DDIWYGIEDIG YN Y CYTUNDEB CYFLAWNI**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio (copi ynghlwm).

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL GWYNEDD**

Ystyried adroddiad Dirprwy Arweinydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Ystyried adroddiad Arweinydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwyno ymateb gan Dîm Busnes y Llywodraeth mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Eryl Jones-Williams i'r cyfarfod diwethaf yn galw am Brifysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru (copi ynghlwm).

(B) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Reol Gweithdrefn 17, bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Gwrthwyneba Cyngor Gwynedd y dreth llofftydd a weithredir gan Lywodraeth San Steffan. Nodwn yr effaith mae'r polisi niweidiol hwn yn cael ar nifer o drigolion Gwynedd gan daro'r rhai mwyaf anghenus yn ein cymunedau. Nodwn y gwaith da sydd yn digwydd o fewn y sir i gynorthwyo tenantiaid sydd yn wynebu anawsterau yn sgil y dreth llofftydd. Gofynnwn i'r Cyngor annog ein partneriaid y landlordiaid cymdeithasol i wneud pob ymdrech i gynorthwyo a chefnogi tenantiaid fel na fydd neb yn colli cartref fel canlyniad i oblygiadau'r dreth llofftydd. Pwyswn am ddatganoli'r maes lles i Gymru er mwyn sicrhau gweithredu polisïau yn unol â dyheadau a gofynion pobl Cymru."**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

# Y CYNGOR, 19.09.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Huw Edwards (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dewi Owen (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pugh Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams a Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol / Cyfarwyddwr Statudol / Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden), Dilys Phillips (Swyddog Monitro / Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Nia Elis-Williams (Uwch Reolwr Busnes / Cefnogaeth Weithredol), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Trevor Edwards, John Brynmor Hughes, Llywarch Bowen Jones, Mike Stevens, Gruffydd Williams a Robert J.Wright.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mai, 2013 fel rhai cywir, yn amodol ar gynnwys yr ychwanegiadau a ganlyn o dan eitem 9 – Cefnogaeth i Aelodau:-

- Nodi bod aelod wedi gofyn am sicrwydd na fydd yr aelodau hynny sydd ddim yn arddel cyfeiriad e-bost y Cyngor yn cael eu hamddifadu o wybodaeth.
- Nodi bod aelod wedi datgan, er yn cydnabod mai unwaith y gall aelod siarad ar gynnig, y dylai bod ganddo ef / hi yr hawl i ofyn cwestiwn yn ychwanegol i hynny.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

i) Datganodd y Cynghorydd Dyfrig Jones fuddiant personol yn eitem 14 ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig yn galw am Brifysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru – oherwydd ei fod yn cael ei gyflogi gan y Brifysgol ym Mangor.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

ii) Datganodd y Cynghorydd Mair Rowlands fuddiant personol yn eitem 14 ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig yn galw am Brifysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru – oherwydd ei bod yn gweithio i Brifysgol Bangor.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

ii) Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn eitem 14 ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig yn galw am Brifysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru – oherwydd ei bod yn cael ei chyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a hefyd gan Brifysgol Bangor.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

Y Cynghorydd Gwen Griffith ar farwolaeth ei mam, oedd hefyd yn fam-yng-nghyfraith i'r Cynghorydd Brian Jones.

Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones ar farwolaeth ei mam-yng-nghyfraith.

Y Cynghorydd Trevor Edwards ar farwolaeth ei fam-yng-nghyfraith.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

ii) Croeso'n ôl

Croesawyd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn ôl yn dilyn ei anhwylder diweddar.

iii) Llongyfarchiadau

I bawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddar, yn enwedig Ifor ap Glyn, enillydd y Goron yn Eisteddfod Dinbych a Bet Jones, enillydd y Fedal Lenyddiaeth.

iv) Cyffredinol

Diolchwyd i'r bobl hynny sy'n gwneud gwaith gwirfoddol ac yn codi arian at amrywiol achosion da o fewn y sir.

Nodwyd bod dyfodiad y ras beics enwog '*Tour of Britain'* i Lanberis y diwrnod cynt wedi bod yn binacl i weithgareddau Gwynedd ac edrychid ymlaen at weld y ras yn dychwelyd i Wynedd yn y dyfodol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, nododd y Cynghorydd Paul Thomas, Aelod Cabinet Gwynedd Iach fod pob aelod wedi derbyn bathodyn pin bychan gyda'r logo '*Byw'n Iach'* arno. Eglurodd y dyluniwyd y logo hwn er mwyn hyrwyddo gweledigaeth y Cyngor i annog pobl i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach ac y byddai'n cael ei gynnig i fudiadau neu fusnesau yn y sir sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd at y weledigaeth honno.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd y Cynghorydd Sian Gwenllian, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg adroddiad byr ar ganlyniadau arolwg diweddar Estyn o wasanaethau addysg y Cyngor. Nododd:-

- Yn dilyn yr Arolygiad ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol Gwynedd i blant a phobl ifanc yn ystod Mawrth 2013, dyfarnwyd bod perfformiad cyfredol yr Awdurdod a'r rhagolygon gwella yn '*ddigonol'*.
- Bod y Cabinet wedi derbyn a chadarnhau'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg oedd yn ymateb i 6 argymhelliad yn ymwneud â diogelu, ansawdd, rheoli perfformiad ac ad-drefnu.
- Bod y cynllun yn rhan o waith ehangach y Cyngor i godi safonau ac yn flaenoriaeth oedd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Strategol.
- Bod y gwaith caled yn dechrau dwyn ffrwyth. 'Roedd dadansoddiad cychwynnol o ganlyniadau TGAU eleni yn dangos cynnydd o 3% yn y mesurydd allweddol a ddefnyddir gan Estyn, sef y TL2+, a hynny ar draws Gwynedd. Hefyd, 'roedd ysgol uwchradd yn y sir wedi dod allan o fesurau arbennig ac 'roedd lefelau absenoldeb wedi gostwng 1.3%, gan roi Gwynedd yn ail orau drwy Gymru o ran y ganran o blant sy'n mynychu ysgol.
- Er hynny, 'roedd yna lawer iawn o waith i'w wneud o hyd a rôl y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau oedd parhau i fynnu bod y Cyngor yn symud ymlaen ac yn cynyddu cyflymder y newid yma ac yn codi ei uchelgais er budd pob plentyn a pherson ifanc yn y sir. 'Roedd gan aelodau lleol rôl allweddol yn hyn hefyd fel llywodraethwyr ysgolion ac 'roedd yn nod ganddi gryfhau'r gefnogaeth a roddir i aelodau, fel llywodraethwyr, er mwyn gwella eu sgiliau yn y maes.
- Er bod llawer o gynnwys Adroddiad Hill ar Sicrhau Gwell Gwasanaethau Addysg yng Nghymru i'w groesawu'n fawr, 'roedd perygl ynddo o fynd i gors y ddadl ynglŷn â newid strwythurol unwaith eto, ac 'roedd hynny'n siomedig iawn.

I gloi, nododd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg y byddai'n croesawu sylwadau'r aelodau dros yr wythnosau nesaf.

Mynegwyd anfodlonrwydd gan rai aelodau bod raid iddynt ymateb yn breifat i ddatganiad cyhoeddus.

Eglurodd y Cadeirydd mai cyflwyniad er gwybodaeth oedd hwn o dan Gyhoeddiadau'r Cadeirydd a bod croeso i'r aelodau siarad gyda'r Aelod Cabinet ar ôl y Cyngor.

## 4. CWESTIYNAU

### Cwestiwn gan y Cynghorydd Louise Hughes

"Mae'r tywydd hyfryd yr haf hwn wedi golygu bod degau o filoedd o bobl wedi ymweld yn ystod y gwyliau (cynnydd o 20% ar ffigurau'r llynedd) a rhoddodd hyn hwb yr oedd ei wir angen i'r economi. Fodd bynnag, wedi derbyn e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn cwyno ynglŷn â wardeiniaid parcio gor-eiddgar, hoffwn gael eglurhad pam bod dros 50 o docynnau parcio wedi'u rhoi yn ymyl yr Wyddfa yn ystod penwythnos y Gŵyl Banc? Os ydym yn dymuno i bobl ddychwelyd i'r ardal, ai dyma'r ffordd iawn i fynd ynghylch hynny?"

**Ateb gan y Cynghorydd W.Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd**

"Mae ffyrdd prifwythiennol (A498 ac A4086) yn gysylltiadau trafnidiaeth pwysig drwy ran Ogleddol Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn hanesyddol, yn ystod misoedd yr haf ac yn benodol ar benwythnosau Gŵyl y Banc, mae traffig trwm ar y ffyrdd dan sylw. Ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyn yw cerbydau sydd wedi'u parcio sy'n arwain at amrywiol broblemau traffig a diogelwch ar y ffyrdd sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ffyrdd bregus, traffig trwodd a'r gwasanaethau brys. O ganlyniad i'r problemau sylweddol a achosir ac fel rhan o'r gwaith partneriaeth rhwng Cynghorau Gwynedd a Chonwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mabwysiadwyd Gorchymyn Clirffordd a Thraffig mewn ymgais i oresgyn y pryderon diogelwch a llif traffig y sonnir amdanynt. Er nad yw'n boblogaidd efo pawb, mae'r Gorchymyn wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni'r amcanion.

Mae'r problemau sydd wedi'u hamlinellu yn bennaf yn ganlyniad uniongyrchol i gerbydau yn parcio ar y ffordd ac ar ymyl y ffordd yn groes i'r Gorchymyn Clirffordd a/neu gyfyngiadau parcio sydd wedi'u hysbysu'n glir yn unol â'r Gorchmynion penodol.

Gallaf gadarnhau fod un Swyddog Gorfodaeth Parcio Sifil wedi patrolio'r ardal ar wahanol gyfnodau ar y tri diwrnod dros benwythnos Gŵyl y Banc. Dyma'r drefn arferol yng nghyswllt y problemau parcio a thraffig a wynebir yn y lleoliad hwn yn ystod y cyfnod gwyliau.

O ystyried y materion a godwyd gan yr achwynwr a'i farn ynghylch gorfodaeth yn yr ardal dan sylw, awgrymaf fod camau gorfodi'r Cyngor o dan y Canllawiau Gorfodaeth Parcio yn deg ac yn gymesur o ystyried y risgiau a achosir gan barcio diofal.

Mae Gŵyl y Banc yn amser prysur iawn, ond meddyliwch mewn difri' am y safle yma a llawer i safle arall. 50 o geir wedi parcio yma. Lôn gul, waliau cerrig bob ochr. Bysus o Feddgelert a Betws y Coed yn ôl a blaen i Lanberis. Ceir wedi parcio un ochr, dim lle i ddau gar basio'i gilydd. Dau yn dod wyneb yn wyneb. Tagfa. Damwain ar Yr Wyddfa. Ambiwlans yn trio cyrraedd yno. Hogiau'r Tîm Achub yn trio cyrraedd yno tra bo'r bobl yma'n anhapus eu bod wedi cael tocyn. Mae yna arwyddion hollol glir yma. Maent yno am reswm, a phan mae'n brysur fel hyn ar Ŵyl Banc, mae'r rheswm yn fwy fyth. 'Rwy'n cefnogi'r hyn sy'n digwydd yma. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei gytuno rhwng y Cyngor yma, Conwy a'r Parc Cenedlaethol o ran anghenion y safle yma oherwydd y problemau sydd wedi'u hachosi yn y blynyddoedd a fu. Os yw'r 50 yma'n anhapus, meddyliwch beth petai yna giw o filltir bob ffordd yn methu mynd trwodd oherwydd bod y lle wedi cau. Meddyliwch anhapus fyddai'r rheini yn eu tro. Ni chredaf fod yna ennill yn hwn. Credaf fod y lle ei hun yn dweud ei bod yn afresymol i chi barcio ar ochr y lôn."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Louise Hughes**

"O ystyried bod ein heconomi'n dibynnu'n helaeth ar ymwelwyr, a chan nad yw'r trefniadau parcio presennol yn gallu ymdopi gyda nifer uchel o ymwelwyr mewn cerbydau i'n prif gyrchfannau ymwelwyr, a fydd yr Adran Briffyrdd yn edrych ar ffyrdd o wella diogelwch y ffordd heb amharu ar y profiad i'r ymwelydd?"

**Ateb gan y Cynghorydd W.Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd**

"Mae hyn yn rhywbeth y gallaf fynd i'r grŵp sy'n ymwneud â'r ardal yma i'w ystyried ar bob cyfri'."

## 5(A) CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET ADNODDAU

Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau, ar y swyddogaethau penodol y mae'n gyfrifol amdanynt. Eglurodd fod yna 4 elfen i'r gwaith, sef strategol, cyllidol, trawsffurfio'r Cyngor ac adnoddau dynol, ac ymhelaethodd ar bob un ohonynt yn eu tro.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Atebodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yn briodol i fwyafrif y cwestiynau, ond cytunodd i ddod yn ôl at yr aelodau yng nghyswllt y cwestiynau isod, gan nad oedd yr wybodaeth benodol wrth law ganddo:-

- A fydd y cyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch yn orfodol i athrawon ac yn benodol y staff hynny sy'n goruchwylio plant yn ystod amser cinio ac amser egwyl?
- Faint o swyddogion iechyd a diogelwch sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor?

Gofynnwyd hefyd pwy yw pennaeth swyddfeydd Penarlâg yn Nolgellau a pham nad yw'r cloeon diogelwch ar y drysau wedi eu newid ers rhai misoedd. Nodwyd mai cwestiwn i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer oedd hwn.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet Adnoddau am ei gyflwyniad.

## 5(B) SICRHAU GWASANAETHAU CYNALIADWY MEWN CYFNOD ANODD

Cyflwynodd y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau ei adroddiad i Gabinet 16 Gorffennaf, 2013 yn argymell, yn wyneb y newid sylweddol yn yr hinsawdd ariannol, y dylid ail ymweld â'r Cynllun Asedau i weld a oes cyfleoedd yn y fan honno i leihau galwadau ariannol ar y Cyngor gan hefyd ail ymweld â'r Cynllun Strategol er mwyn adnabod pa gynlluniau sydd yn hollol angenrheidiol eu cyflawni a pha rai y gellir eu hail ystyried. Eglurodd fod y Cabinet yn argymell rhoi'r mater gerbron y Cyngor llawn gan mai'r Cyngor sy'n berchen ar y cynlluniau hyn. Yna diolchodd i staff ymroddgar yr adrannau am eu cefnogaeth gan bwysleisio eu bod yn cyflawni gwaith clodwiw ar ran trigolion Gwynedd.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mynegwyd gobaith y byddai'r holl aelodau'n cyfarfod yn ddigon aml i fynd drwy'r cynlluniau hyn mewn manylder a gofynnwyd am wybodaeth ar bapur yn nodi faint o bobl sy'n gweithio yn y gwahanol adrannau a beth yw eu swyddogaethau a'u graddfeydd cyflog. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y byddai yna ymgynghori eang gyda'r holl aelodau ac erfyniodd ar bob un ohonynt i ddod i'r seminarau fyddai'n cael eu trefnu gan fod eu cyfraniad yn hollol angenrheidiol a phwysig. O safbwynt cyflogau, nododd fod y cyfansymiau yn cael eu cyhoeddi yn y Llawlyfr Ariannol Blynyddol ac nad oedd am ail-gychwyn trefn o gyhoeddi cyflog pob un o'r 7,000 o staff y Cyngor.
- Awgrymwyd, er na ddymunid gweld unrhyw doriadau mewn gwasanaethau, bod lle i roi gwarchodaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Dylid sicrhau hefyd nad yw unrhyw doriadau yn effeithio ar bobl a bod y mwyaf bregus o fewn cymdeithas yn cael eu hamddiffyn. 'Roedd hefyd yn bwysig bod unrhyw doriadau yn cael eu gwneud mewn ffordd gytbwys sy'n diogelu cymaint â phosib' ar y gwasanaeth. Rhaid ystyried a yw'r gwasanaeth yn ychwanegu gwerth i'r trigolion,

ai dyma'r gwasanaeth mae'r trigolion yn dymuno ei gael ac a yw'r Cyngor yn darparu'r gwasanaeth hwnnw am resymau hanesyddol yn unig?

- Mewn ymateb i ymholiad am ddefnyddio reserfau'r Cyngor i leihau'r baich ar y Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf, atebodd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod reserfau'r Cyngor wedi eu clustnodi at ddibenion penodol a bod y sefyllfa'n cael ei adolygu'n gyson. Pwysleisiodd hefyd mai unwaith yn unig y gellid defnyddio'r balansau ac nad oedd strategaeth o'r fath yn cyfarch y broblem yn y blynyddoedd olynol. Gan hynny, 'roedd yn rhaid cynllunio yn ofalus dros gyfnod o amser a dyna oedd strategaeth ariannol y Cyngor hwn.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â goblygiadau setliad gwael i gefn gwlad Gwynedd a galwyd am ddwyn rhagor o bwysau ar Lywodraeth Cymru gan esbonio i'r gwleidyddion yng Nghaerdydd beth mae toriad mor enfawr yn y grant yn ei olygu i sir wledig a gwasgaredig fel Gwynedd. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod yr Arweinydd, y Cabinet, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn lobïo gweinidogion y Llywodraeth yn rheolaidd ar y pwnc yma a hefyd y broblem wledig lle mae cyflawni gwasanaethau yn llawer drutach ymhob maes. Nododd ymhellach ei fod yn trefnu cyfarfod gyda'r aelodau cynulliad sy'n dod o Wynedd i'w haddysgu ynglŷn â phroblemau cyllidol y Cyngor hwn a gobeithid gallu dylanwadu ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.
- Gofynnwyd am sicrwydd bod cynlluniau yn eu lle ar gyfer cyfarfod â'r senario ariannol gwaethaf bosib' yn 2013/14. Mewn ymateb, atgoffodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yr aelodau o gynllun gwreiddiol y Cyngor gan egluro sut y byddai hynny'n cael ei daflu o ganlyniad i'r hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Nododd fod y swyddogion yn edrych oedd yna ffordd y gallai'r Cyngor ymlynu at ei gynlluniau yn 2014/15, fyddai'n cynnwys, efallai, elfen o ddefnyddio balansau i bontio'r cyfnod tan 2015/16 a chymryd y cyfnod tan hynny i ddarganfod cynlluniau rhesymegol sy'n ceisio cael mwy o effeithlonrwydd, cael mwy allan o reoli'r galw ynghyd ag isafu cymaint ag y gellir ar doriadau gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Pwysleisiodd na allai wneud unrhyw addewidion ar hyn o bryd, ond dyma'r cynllun fyddai'n dod gerbron y Cyngor ym mis Rhagfyr.
- Awgrymwyd ei bod yn bwysig gwarchod y staff rheng flaen gan mai hwy sy'n darparu'r gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- Awgrymwyd bod y Cabinet yn gwthio penderfyniadau anodd ac annifyr ar y Cyngor llawn, a heb yr wybodaeth lawn i alluogi'r Cyngor i wneud y gwaith hwnnw. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau nad oedd yn derbyn bod yna ddiffyg gwybodaeth ac anogodd yr aelod a gododd y mater i ddod i'r seminarau.
- Pwysleisiwyd na ddylid ar unrhyw gyfrif godi'r Dreth Gyngor uwchlaw lefel chwyddiant a mynegwyd pryder ynglŷn â sefyllfa'r bobl hynny sydd ar gyflogau isel, ond ddim yn gymwys i dderbyn gostyngiadau.
- Awgrymodd aelod, er nad oedd yn mynychu'r seminarau, ei bod yn gweithio'n galed allan yn y maes, ond er iddi ffonio'r swyddogion, nad oedd yn cael gwrandawiad ganddynt yn aml iawn. Awgrymwyd bod yr aelod yn codi'r pwynt gyda'r Aelod Cabinet perthnasol.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, ac yn wyneb y newidiadau sylfaenol a amlinellwyd, ail ymweld â'r Cynllun Asedau i weld a oes cyfleoedd yn y fan honno i leihau galwadau ariannol ar y Cyngor gan hefyd ail ymweld â'r Cynllun Strategol ei hun er mwyn adnabod pa gynlluniau sy'n hollol angenrheidiol eu cyflawni a pha rai y gellir eu hail ystyried.**

## 6. YMATEB I YMGYNGHORIAD Y COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ei adroddiad yn amgáu'r ymateb a anfonwyd ganddo i'r ymgynghoriad uchod ynghyd ag adroddiad cynnydd a ryddhawyd gan y Comisiwn ddiwedd Awst yn egluro beth yw'r prif bwyntiau a gyflwynwyd iddo fel tystiolaeth hyd yma. Eglurodd, gan y gofynnwyd i sefydliadau ymateb i'r alwad am dystiolaeth erbyn 31 Awst, ac er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael y dylanwad mwyaf ar waith y Comisiwn, y daeth i'r casgliad mai'r peth gorau i'w wneud oedd llunio ymateb cryno yn seiliedig ar yr egwyddorion y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth ddod i benderfyniad a chyhoeddi'r ymateb hwn ar ffurf Taflen Benderfyniad gan ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor. Fodd bynnag, gan ei fod o'r farn bod hwn yn fater oedd yn haeddu sylw gan yr holl aelodau mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn, a bod y Comisiwn wedi datgan y byddent yn fodlon derbyn tystiolaeth hyd at ddiwedd Medi, 'roedd yn cyflwyno'r ymateb i sylw'r Cyngor er mwyn cael trafodaeth ehangach ar ei gynnwys ac i ganiatáu iddo ddod i gasgliad a oes angen anfon unrhyw dystiolaeth ychwanegol i'r Comisiwn ar ran y Cyngor.

Gwahoddwyd sylwadau'r aelodau ar yr ymateb. Nodwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau unigol:-

- Y gwrthdaro cyson rhwng barn y Cyngor sydd er lles y sir a'r cyfarwyddo a'r canoli sydd yn dod o Gaerdydd.
- Gwrthwynebiad i farn unigol Arweinydd y Cyngor o blaid uno cynghorau, gan na fyddai o les i'r sir gyda gwasanaethau yn pellhau o drigolion.
- Y dylid cryfhau paragraff 3.3 o'r ymateb i gyfeirio'n benodol at y ffaith na ddylai unrhyw newidiadau effeithio ar yr iaith Gymraeg.
- Pryder mai cynllun y Llywodraeth yw cael gwared â chynghorau tref a chymuned a chreu cynghorau dosbarth yn eu lle a chael gwared â'r cynghorau sir presennol a chael cynghorau mwy yn eu lle. Mae hyn yn fater sy'n dangos diffyg dealltwriaeth y Llywodraeth o beth yw cymunedau a diffyg gwerthfawrogiad o beth yw llywodraeth leol.
- Mai siom o'r mwyaf oedd gweld nad oes yr un o aelodau'r Comisiwn yn byw a gweithio uwchlaw coridor yr M4.
- Bod y model llywodraethu sy'n bodoli yng Nghymru eisoes yn gweithio'n dda ar y cyfan er bod iddo rai ffaeleddau sydd angen eu cyfarch er mwyn darparu gwasanaethau sy'n addas ac yn briodol, ar y gost gywir a heb fod ymhell oddi wrth yr etholwyr.
- Y dylid anfon neges glir i'r Comisiwn, gan gopïo'r Llywodraeth i mewn, yn gresynu bod yr amserlen ar gyfer ymateb i ymgynghoriad mor allweddol bwysig wedi bod mor dynn ac yn nodi y dylid bod wedi caniatáu mwy o amser er mwyn rhoi cyfle i bawb ymateb.
- Bod angen diwylliant mwy heriol yng ngwleidyddiaeth Cymru. Mewn ymateb, nododd Arweinydd y Cyngor fod ei ddull ef o gydweithio yn golygu sefydlu perthynas dda gyda gweinidogion, Y Prif Weinidog, swyddogion y llywodraeth a phawb, wrth geisio cyflwyno achos Gwynedd, a'i fod yn pledio'n euog pe golygai hynny ei fod yn rhy gyfeillgar.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid anfon tystiolaeth ychwanegol i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail sylwadau'r aelodau mewn perthynas â:-

- phwysigrwydd cael democratiaeth ac atebolrwydd lleol a chadw'r atebolrwydd hynny yn agos at y bobl yn lleol;
- peidio â chanoli materion yng Nghaerdydd;
- pwysigrwydd gwaith cynghorau tref a chymuned;
- os oes raid newid o gwbl, cyfuno 3 chyngor yn hytrach na 6 ar draws y Gogledd;
- aelodaeth y Comisiwn a'r ffaith nad oes yna neb yr ochr yma i goridor yr M4 arno;
- rhoi mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg;
- gyrru neges glir i'r Comisiwn ynglŷn ag amseriad yr ymgynghoriad.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i hepgor y cyfeiriad at gyfuno cynghorau oherwydd y gallai hynny gael ei weld fel cefnogaeth dawel i'r syniad o uno gydag eraill.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant pellach i ysgrifennu at y Comisiwn i ddatgan nad yw ymateb yr Arweinydd yn adlewyrchu barn y Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant pellach ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD anfon tystiolaeth ychwanegol i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail sylwadau'r aelodau mewn perthynas â:-**

- **phwysigrwydd cael democratiaeth ac atebolrwydd lleol a chadw'r atebolrwydd hynny yn agos at y bobl yn lleol;**
- **peidio â chanoli materion yng Nghaerdydd;**
- **pwysigrwydd gwaith cynghorau tref a chymuned;**
- **aelodaeth y Comisiwn a'r ffaith nad oes yna neb yr ochr yma i goridor yr M4 arno;**
- **rhoi mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg;**
- **gyrru neges glir i'r Comisiwn ynglŷn ag amseriad yr ymgynghoriad.**

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2012/13

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ei adroddiad yn amgáu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2012/13 gan ofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2012/13, a'i fabwysiadu. Nododd mai Gwynedd oedd yn perfformio orau yng Nghymru a gofynnodd i'r Prif Weithredwr gyfleu ei ddiolchiadau i'r holl staff am eu gwaith clodwiw yn ystod y flwyddyn. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i gynnwys profiad y dinesydd yn adroddiad 2013/14 ynghyd â'r perfformiad yn erbyn y gorau, ym mha bynnag wlad y bo'r gorau.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai rôl y Cyngor oedd asesu a oedd yr adroddiad yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o'r perfformiad, ac nid craffu'r perfformiad. O safbwynt gwybodaeth gymharol, nododd y Prif Weithredwr mai Gwynedd oedd wedi perfformio orau drwy Gymru yng nghyswllt chwarter y dangosyddion cenedlaethol (11 allan o 44) a bod hanner y dangosyddion yn y chwartel uchaf (22 yn y 6-7 gorau).

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Nodwyd bod yna nifer o wendidau i'w gwella yn yr adroddiad, megis:-

  <u>Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyf. SCA/002a – Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd): a) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd (tud 92)</u>
  Mae'n gamarweiniol nodi'r perfformiad yn erbyn Cymru mewn coch oherwydd mae'r ffaith bod y ganran wedi disgyn o 60.47% yn 2010/11 i 46.53% yn 2012/13, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 77.53% yn 2012/13, yn dangos bod y Cyngor yn gwneud ei waith.

Economi – Cyf. Twr4 – Budd i'r economi lleol o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol (tud 95)
Nid yw'n amlwg i'r cyhoedd sut y cyrhaeddwyd at y ffigur o £4,994,155.40.

Y Cyngor - Cyf. Eff5 - Canran y cynlluniau arbedion sydd ag asesiad effaith cydraddoldeb cadarnhaol
Mae angen tystiolaeth i gadarnhau'r perfformiad o 100%.

Y Cyngor – Cyf. Eff6 – Nifer cynlluniau arbedion effeithlonrwydd newydd arfaethedig sydd wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb
Mae angen esbonio'r perfformiad o 104%.

Nododd y Prif Weithredwr fod angen gwneud rhai mân newidiadau golygyddol i'r adroddiad a gofynnodd i'r aelodau gyfeirio unrhyw sylwadau o'r fath i sylw'r Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd

Nododd yr Arweinydd ei fod yn derbyn y cyfrifoldeb yn bersonol am unrhyw wendidau yn yr adroddiad ac y byddai'n sicrhau eu bod yn cael eu cywiro.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2012/13, a'i fabwysiadu.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Gofal y cyd-destun gan longyfarch y Cyfarwyddwr ar ei phenodiad diweddar yn Gyfarwyddwr Corfforaethol. Diolchodd i holl staff yr adran am eu gwaith gan nodi bod eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd wedi bod yn glir iawn, ynghyd â'r cydweithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill i sicrhau bod plant a phobl ifanc, oedolion bregus a theuluoedd yn derbyn y gwasanaeth gorau bosib'.

Yna gwahoddodd y Cyfarwyddwr i roi blas o'r blaenoriaethau a'r weledigaeth ar gyfer dyfodol yr adran.

Diolchodd y Cyfarwyddwr i'r Aelod Cabinet am ei gefnogaeth ac i staff yr adran a'r partneriaid oedd wedi bod yn gwbl ymroddedig i'r gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Wrth gyflwyno ei hadroddiad, manylodd y Cyfarwyddwr ar yr angen i newid cyfeiriad sylweddol o fewn y gwasanaethau gofal yng Ngwynedd. Pwysleisiodd fod cyfrifoldeb ar y Cyngor fel corff, ac fel unigolion o fewn y cymunedau, i ddiogelu ac amddiffyn y mwyaf bregus mewn cymdeithas a phwysleisiodd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y Cyngor yn cydweithio'n agos iawn gyda'i bartneriaid allweddol. Wrth edrych i'r dyfodol, 'roedd yn rhaid ystyried cyd-destun o bwysau ariannol heriol tu hwnt, newidiadau demograffig a disgwyliadau cynyddol. 'Roedd angen i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a rhoddid sylw i hyn yn y Bil Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru. Gwelid o fewn y Bil yr angen i sicrhau rhoi lles pobl mewn angen yn ganolog, drwy roi llais a rheolaeth i bobl sydd angen gwasanaethau, yn ogystal â diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. I sicrhau dyfodol cynaliadwy, 'roedd yn rhaid meddwl yn wahanol ac 'roedd gan Wynedd sylfaen wych o ran cymunedau hyfyw ac unigolion ymrwymedig. Dyma'r sylfaen allweddol ar gyfer cynllunio a darparu i'r dyfodol. Ni fyddai'r newid yn hawdd, ond drwy gyd-greu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau gan adeiladu ar

gryfderau unigolion a chymunedau, ‘roedd yn ffyddiog bod gwir botensial i greu dyfodol positif a chynaliadwy i bobl Gwynedd.

Yna rhoddwyd cyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Nodwyd y croesawid sylwadau’r Cyfarwyddwr ynglŷn â gwrando ar y cymunedau. Dyma lle’r oedd y gwasanaeth wedi methu yn y gorffennol. Mae pobl yn gwybod beth yw eu hanghenion a sut i ddiwallu’r anghenion hynny, ond mae cyfundrefnau a gweithdrefnau o fewn y Cyngor wedi rhwystro’r anghenion hynny rhag cael eu diwallu.
- Canmolwyd y cyfathrebu da rhwng yr adran a phobl hŷn yng Ngwynedd a nodwyd hefyd bod y cydweithio rhwng y 3ydd sector a’r adran wedi datblygu’n dda ac wedi arwain at gyfleoedd gwell i bobl hŷn.

Diolchwyd i’r Cyfarwyddwr am ei chyflwyniad a dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd newydd. Diolchwyd hefyd i staff yr adran sy’n cyflawni gwaith gwych am gyflogau bychain.

**9. SIARTER DATBLYGU AELODAU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei hadroddiad yn argymell i’r Cyngor ddatgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen Cynorthwyo Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel ‘Siarter Aelodau’, yn ystod 2013/14.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cytuno i ddatgan ei ymrwymiad corfforaethol i ymgeisio am y Siarter Aelodau yn ystod 2013/14.**

**10. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Gan fod yr Arweinydd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ymrwymiad arall, cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd ei adroddiad yn argymell dyraniad seddau ar bwyllgorau’r Cyngor a chyrff allanol yn sgil penderfyniad aelod i adael Grŵp Llais Gwynedd a chael ei drin fel aelod unigol a phenderfyniad aelod arall i symud o’r Grŵp Annibynnol i Grŵp Llais Gwynedd

**PENDERFYNWYD**
**(a) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau’r Cyngor yn unol â’r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 4 | 1 | | |
| Archwilio | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid | Annibynnol | Llais | Llafur | Democratiaid | Aelod |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | Cymru | | Gwynedd | | Rhyddfrydol | Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | 0 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y seddau | 76 | 37 | 28 | 8 | 4 | 1 | 154 |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 1 | 1 | 1 | | 1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Seddau | 96 | 47 | 36 | 10 | 5 | 194 |

**(b)** **Y dylai'r gynrychiolaeth ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru barhau ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r tabl isod ac y dylid gwahodd y Grŵp Annibynnol i enwebu aelod yn lle'r aelod sydd wedi gadael y grŵp ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gwahodd Grŵp Llais Gwynedd i enwebu aelod yn lle'r aelod sydd wedi gadael y grŵp ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod | 4 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Cenedlaethol Eryri** | | | | | | |
| **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | **3** | **1** | **1** | **0** | **0** | **0** |

## 11. RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 17, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12), oddi wrth y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"A wnaiff Cyngor Gwynedd gefnogi'r angen am Brifysgol Feddygol ar gyfer Meddygon yng Ngogledd Cymru er mwyn datrys y prinder Meddygon yng Ngwynedd ac ardaloedd eraill o Ogledd Cymru?**

**Gofynnaf i Gyngor Gwynedd ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru, y Gweinidog Iechyd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gefnogi'r Brifysgol Feddygol oherwydd y byddai yna fanteision ychwanegol o gadw ein pobl ifanc broffesiynol yn yr ardal a byddai o gymorth i greu swyddi a hefyd o gymorth i ddarparu Meddygon Cymraeg eu hiaith mewn ardaloedd fel Gwynedd."**

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan sawl aelod.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.50pm.

**ADRODDIAD I'R CYNGOR**
5 Rhagfyr 2013

**Aelod Cabinet:** **Cyng Peredur Jenkins**

**Pwnc:** **Strategaeth Ariannol 2014/15 – 2017/18**

**Swyddog cyswllt:** **Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol**

---

**Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad**

Nodi'r sefyllfa o ran y gostyngiad grant sylweddol fydd yn taro'r Cyngor yn 2014/15 achymeradwyo strategaeth lefel uchel ar gyfer dygymod a'r darlun ariannol newydd sy'n ein hwynebu.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol

---

**Cyflwyniad**

1. Ym mis Gorffennaf, adroddais i'r Cabinet fod Gweinidogion o fewn Llywodraeth Cymru wedi awgrymu eu bod am newid cyfeiriad wrth ystyried blaenoriaethau gwariant o fewn Llywodraeth Cymru gan nodi y dylai llywodraeth Leol gynllunio ar sail "gostyngiadau cyllidol fel y bu i awdurdodau Lloegr dderbyn" am y cyfnod i ddod.

2. Bellach fe gyhoeddwyd y setliad drafft ar gyfer awdurdodau lleol ac mae modd nawr i ni gynllunio ar sail gwybodaeth gadarnach.

3. Yn ôl ym mis Chwefror, ar sail y wybodaeth ynglŷn â'r setliad a roddwyd i ni bryd hynny gan Lywodraeth Cymru fe luniodd y Cyngor y strategaeth ariannol pedair blynedd fel a ganlyn -

| £m | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer | 1.9 | 4.7 | 9.8 | 8.4 | 24.8 |
| Arbedion yn cael eu darganfod eisoes | 3.6 | 4.6 | 0.5 | - | 8.7 |
| Arbedion pellach angenrheidiol | (1.7) | 0.1 | 9.3 | 8.4 | 16.1 |

4. Fe welir o'r uchod ein bod yn darogan fod y cynlluniau arbedion a oedd gennym ar gyfer 2013/14 a 2014/15 am fod yn fwy na digonol i gwrdd â'r

diffyg am y blynyddoedd hynny ond y byddai angen sefydlu cyfres o arbedion pellach ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

5. ‘Roedd hyn yn seiliedig ar ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror eleni y byddai grant llywodraeth leol yn cynyddu 0.8% yn 2014/15. Ar sail hyn tybiwyd y byddai hyn wedi golygu cynnydd o tua £500,000 yng ngrant Cyngor Gwynedd.

6. Bellach, mae'r setliad drafft yn honni y bydd grant llywodraeth leol yn gostwng 3.5% ar gyfartaledd ar draws Cymru yn 2014/15. Fodd bynnag, mae'r gwir ostyngiad yn uwch oherwydd y ffordd y mae'r Llywodraeth wedi ymdrin â'r Grant Cynllun Lleihad Treth Gyngor a'r arian a roddwyd o'r newydd i ariannu'r cynllun benthyciadau ar gyfer gwella lonydd. O gymryd y ddau fater yma i ystyriaeth mae'r gwir ostyngiad ar draws Cymru yn agosach at 4% a gostyngiad Gwynedd yn tynnu at - 4.7% Mae hyn gyfystyr a gostyngiad grant o £8.3m i Gyngor Gwynedd.

7. Mae hyn yn ddigalon i gyngor fel ni sydd wedi bod yn creu cynllun pwyllog a chyfrifol ar sail y wybodaeth a roddwyd iddo, ac mae'n creu llanastr llwyr o unrhyw gynllunio ariannol tymor canolig cyfrifol sy'n cael ei annog gan yr Archwiliwr Dosbarth.

8. Wedi dweud hynny, rhaid i ni nawr geisio dygymod a'r sefyllfa, ac oherwydd y cynllunio ariannol a wnaed gan y Cyngor eisoes, mae'n debyg y byddwn mewn gwell sefyllfa i ymdrin â'r newid sylweddol yma na rhai cynghorau eraill.

9. Ymddengys mai dau brif opsiwn sydd yn agored i ni i ddygymod a'r sefyllfa , sef -

   - Cymryd camau argyfwng i edrych am arbedion sydyn (sy'n debygol o olygu toriadau gwasanaeth : gan mai toriadau yw'r arbedion cyflymaf y gellir eu gwireddu); neu

   - Ystyried a oes yna fodd i fanteisio ar y cynllunio a wnaed gan y Cyngor eisoes gan sefydlu cyllideb gytbwys yn 2014/15 heb newidiadau sylweddol er mwyn prynu amser i fod yn bwyllog wrth sefydlu rhaglen newydd o arbedion.

10. Fel yr adroddais yn fy nghyflwyniad i'r Cyngor ym mis Medi, ‘rwyf wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda swyddogion er mwyn gweld a yw'r ail opsiwn yn ymarferol bosibl.

11. Yn sgil edrych ar y ffigyrau, mae'n edrych yn debyg y byddai modd gwneud hynny, ac ar y sail yma felly awgrymaf y strategaeth ganlynol.

**Y Strategaeth Hir dymor**

12. Mae'r gwaith o sefydlu'r bwlch tebygol ar gyfer y pedair blynedd i ddod yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ac erbyn Rhagfyr fe fydd gennym ffigwr y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer paratoi am y pedair blynedd i ddod.

13. Mae yna waith yn mynd ymlaen hefyd i geisio sefydlu pa gyfleoedd sydd ar gael i 'r gwahanol wasanaethau i ddarganfod arbedion gan gadw'r effaith ar ganlyniadau i bobl Gwynedd i'r isafswm posibl (drwy arbedion effeithlonrwydd; mesurau rheoli galw a thoriadau gydag ardrawiad isel).

14. Ar sail y cyfleoedd yma, bydd modd wedyn sefydlu targedau arbedion gwahaniaethol ar gyfer pob gwasanaeth i'w gyflwyno i gyfres o seminarau gyda'r holl aelodau ym mis Ionawr/ Chwefror ac yna i'r cabinet ac i'r Cyngor ym mis Mawrth.

15. Byddai gwasanaethau wedyn yn cynhyrchu eu cynlluniau i wireddu'r swm a osodwyd iddynt gan gyflwyno'r cynlluniau manwl i gyfres o seminarau a'r gyfundrefn craffu dros yr haf yn yr un modd a wnaed yn llwyddiannus gyda'r Cyngor diwethaf er mwyn sefydlu'r rhaglen arbedion presennol.

16. Byddai'r arbedion yma wedyn yn dechrau cael eu gwireddu tua diwedd 2014/15 ymlaen.

17. Byddai cyfundrefn o'r fath yn caniatáu i ni fod yn bwyllog er mwyn rhoi amser i ni bwyso a mesur a herio'r cynigion fyddai'n dod ger bron er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir o ran yr ardrawiad ar bobl Gwynedd. Byddai hefyd yn caniatau i ni fod lawer mwy cynhwysol gan gynnwys yr holl aelodau yn y broses.

**Cyllideb 2014/15**

18. Er mwyn prynu'r amser i fedru gwneud hynny wrth gwrs mae'n rhaid darganfod ffordd o ddygymod gyda gostyngiad grant sylweddol yn 2014/15.

19. Argymhellir y strategaeth lefel uchel ganlynol felly.

20. Dengys ein dadansoddiad cychwynnol y bydd y pwysau ar wariant y Cyngor yn 2014/15 oherwydd chwyddiant, cynnydd yn y nifer henoed, pwysau ar gyllidebau a.y.b. oddeutu £5.0m.

21. O ddileu'r ddarpariaeth sydd gennym ar gyfer chwyddiant cyflogau uwchben 1% ynghyd a'r ddarpariaeth cyllideb barhaol sydd gennym ar gyfer y Cynllun Strategol, ynghyd a dileu rhai cyllidebau eraill, gellir dod a'r swm yma i lawr i tua £2.0m.

22. Fe welir felly pe byddai Llywodraeth Cymru wedi cadw at ei gynllunio gwario gwreiddiol, fe fyddem wedi medru dygymod yn hawdd gyda'r sefyllfa gan mai dyma fyddai maint y bwlch arnom yn 2014/15 a byddai'r cynllun yr oeddem wedi ei sefydlu yn fwy na digon i gwrdd â'r sefyllfa.

23. Fodd bynnag, gan fod ein colled grant yn gyfystyr a £8.3m mae hyn yn mynd a'r bwlch i fyny i £10.3m.

24. Mae yna waith yn mynd ymlaen i sefydlu'r gyllideb fanwl fydd yn cael ei hadrodd ym mis Ionawr ond 'rydym ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd gennym arbedion o £5.9m y gellir eu gwireddu yn 2014/15.

25. Drwy godi'r gyfradd gasglu ar gyfer y Dreth Gyngor yn ôl i 99% a thrwy ddefnyddio elfen o falansau (dyweder tua £1.5m), rwyf yn eithaf hyderus y gallwn greu cyllideb gytbwys yn 2014/15.

26. Er fod yna gryn drafodaeth ar draws Cymru ar hyn o bryd ynglyn a sut i gyfrifo'r addewid cyllido ysgolion o 0.9% a wnaed gan Lywodraeth Cymru, mae'r strategaeth a nodir yma yn cydymffurfio gyda'n dealltwriaeth ni o'r hyn y mae'r addewid yn ei olygu.

27. Trafodwyd y mater yma gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd ac maent yn cymell y strategaeth lefel uchel yma i'r Cyngor ar gyfer dygymod a'r sefyllfa yr ydym yn ei wynebu, sef –

   - llunio rhaglen newydd o arbedion ar gyfer y cyfnod 4 blynedd i ddod sydd yn seiliedig ar gael yr ardrawiad lleiaf posibl ar ganlyniadau i bobl Gwynedd i'w gweithredu o ddiwedd 2014/15 ymlaen; ac
   - er mwyn prynu'r amser angenrheidiol i ni lunio rhaglen o arbedion ystyrlon a synhwyrol, ein bod yn defnyddio gweddill y rhaglen arbedion presennol ynghyd a chyfres o gamau eraill gan gynnwys defnyddio elfen o falansau (dyweder tua £1.5m) i greu cyllideb gytbwys yn 2014/15.

**Camau nesaf**

28. Wrth ddilyn y strategaeth yma byddwn wedi prynu ychydig o amser i ni ein hunain ac 'rydym mewn sefyllfa ffodus dros ben o fedru gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid defnyddio'r amser yma yn ddoeth ac rhaid i niwylio

rhag meddwl fod y strategaeth yma yn golygu y gallwn eistedd yn ôl a'i chymryd yn araf deg. Bydd y broses o lunio rhaglen mewn ffordd resymegol a chynhwysol yn heriol ac yn golygu cymryd penderfyniadau anodd, ac fe fydd ceisio cyfyngu'r ardrawiad ar bobl Gwynedd i'r lleiafswm posibl yn heriol a dweud y lleiaf.

29. Os bydd y Cyngor yn cytuno i'r strategaeth yma, bydd y manylion ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ddiwedd Ionawr er mwyn iddynt gyhoeddi eu cynigion drafft i'r Pwyllgor Archwilio ei graffu cyn cyflwyno cynigion terfynol i'r Cyngor ym mis Mawrth.

30. Fel y nodais uchod, byddaf hefyd yn trefnu cyfres o seminarau i aelodau ar draws y sir yn Ionawr/Chwefror i egluro a thrafod manylion y strategaeth ariannol cyn i'r cabinet ystyried ei gynigion terfynol tua diwedd Chwefror.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r dasg o sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol (tra'n cynnal gwasanaethau o ansawdd) gyda'r dasg anoddaf y mae'r Cyngor hwn erioed wedi ei wynebu.Felly mae'n rhaid gwneud penderfyniadau heddiw gyda golwg ar eu goblygiadau tymor hwy. I raddau, llwyddiant y Cyngor o wneud hynny yn y gorffennol sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa sydd o leiaf yn gymharol ffafriol gan fod gennym gynlluniau arbed eisoes yn eu lle; mae hyn yn ein galluogi i wynebu'r her i ryw raddau. Fodd bynnag, mae'r her o'n blaen yn anferth a bydd yn rhai gwneud penderfyniadau anodd iawn dros y blynyddoedd nesaf.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Wrth i Swyddog Cyllid Statudol ddarparu barn, ac wrth i aelodau gyrraedd penderfyniad ar ddefnydd o falansau yn y cylch gosod cyllideb, mae'n hanfodol i ystyried ac asesu'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Rwy'n darparu'r farn yma wedi ystyried ein sefyllfa ariannol, ymrwymiadau, a rhagdybiaethau creiddiol i'r gyllideb (sail y ffigyrau sy'n rhan 18-25 o'r adroddiad, fel cyfraddau chwyddiant a llog, newid tebygol mewn galw am wasanaethau, amcangyfrifon o werth cynlluniau arbedion, ayb).

Yn dilyn setliad grant digynsail o heriol gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref ac mewn hinsawdd ariannol cyffredinol anodd, does dim amheuaeth bydd y Cyngor angen lefel ddarbodus o falansau erbyn 2015/16 a thu hwnt (ar gyfer costau diswyddo anochel ac unrhyw gostau pontio pellach mewn blynyddoedd dilynol cyn gwireddu rhai cynlluniau arbedion mawr).

Fodd bynnag, gan fod lefel cyfredol ein balansau (tua £8m) yn ddarbodus, a gan fod gan Wynedd strategaeth ariannol gadarn ar gyfer y blynyddoedd dilynol, gydag addewid gan aelodau'r Cabinet y bydd ymlyniad at gynlluniau i sicrhau arbedion newydd yn 2014, rwy'n cefnogi'r camau a argymhellir, gan gynnwys defnyddio cyfran resymol o'r balansau (tua £1.5m) er mwyn pontio yn 2014/15 a chaniatáu'r amser i'r Cyngor lunio rhaglen arbedion priodol.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y CYNGOR** |
| **Dyddiad** | **5 Rhagfyr 2013** |
| **Pwnc** | **Cynllun Strategol Diwygiedig** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **Cyflwyno awgrymiadau penodol ynglŷn â diwygio cynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer 2013 - 14 yng ngoleuni'r heriau newydd sy'n wynebu'r Cyngor.** |
| **Awdur** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Ar 19 Medi 2013, derbyniodd y Cyngor Llawn adroddiad gan y Cynghorydd Peredur Jenkins ar yr her ariannol newydd sydd yn wynebu'r Cyngor. Yn amlwg, mae'r darlun ar union setliad y Cyngor yn dod yn fwy eglur ac yn y cyfarfod llawn o'r Cyngor ar 5 Rhagfyr 2013, bydd rhyw gymaint o wybodaeth fwy pendant ar gael. Ymysg pethau eraill, cytunodd y Cyngor y dylid ail-ymweld â'r Cynllun Strategol i adnabod pa gynlluniau sydd yn hollol angenrheidiol eu cyflawni a pha rai y gellir eu hail ystyried.

1.2 Mae hyn yn bwysig am sawl rheswm. Yn gyntaf, gyda'r her enfawr sydd yn ein hwynebu o ran canfod arbedion dros y blynyddoedd nesaf, bydd llawer o amser Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn gorfod cael ei roi i ganfod yr arbedion hynny. Felly, mae'n rhaid pwyso a mesur yr amser sydd ei angen i wneud hynny yn erbyn yr amser i weithio ar faterion mwy datblygol. Mae hyn oll hefyd ar adeg o ansicrwydd yn sgil disgwyl adroddiad Comisiwn Syr Paul Williams ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn amlwg, os daw neges glir am ad-drefnu o hwnnw, mae hynny'n dod ag elfen arall i'r darlun, ac un a fydd yn mynd â chryn sylw ac amser dros y blynyddoedd nesaf. Felly, rhaid oedd edrych o'r newydd ar gapasiti'r Cyngor i fynd i'r afael â rhai o'r ymrwymiadau yn y Cynllun.

1.3 Yn ail, roedd adnoddau ariannol ynghlwm â rhai cynlluniau. Yn amlwg, bydd pwysau enfawr ar adnoddau dros y blynyddoedd nesaf a bydd yn rhaid pwyso a mesur gallu'r Cyngor i fuddsoddi mewn rhai meysydd tra'n ceisio canfod arbedion. Mae'n bwysig cofio y bydd rhaid buddsoddi mewn rhai achosion er mwyn canfod arbedion a rhaid sicrhau bod gan y Cyngor adnoddau digonol i fedru buddsoddi er mwyn arbed.

1.4 Mae'r Cabinet wedi bod yn trafod y ddwy elfen hyn ac mae'r trafodaethau wedi ystyried y prosiectau ddylai symud ymlaen, doed a ddel, a'r prosiectau na ellir rhoi unrhyw adnoddau pellach (yn gapasiti nag arian) tuag atynt ar hyn o bryd. Mae'r Fforwm Craffu hefyd wedi trafod y mater ac wedi mynegi pryder y gallai hyn arwain at fethiant i fynd i'r afael â materion allweddol, fel ymateb i Newid Hinsawdd, Tlodi Tanwydd ac Ymgysylltu. Adroddwyd sylwadau'r Fforwm i'r Cabinet.

1.5 Yn ogystal â'r ffaith bod y Cyngor yn adolygu ei Gynllun Strategol, fel sydd wedi ei adrodd o'r blaen, bydd angen i'r Cyngor edrych, gyda'i bartneriaid, ar ffyrdd gwahanol o gynnal a darparu gwasanaethau a hefyd dulliau ataliol newydd i leihau neu reoli'r galw am wasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen cynnal 'trafodaeth' gyda dinasyddion Gwynedd am gyfeiriad gwasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r awgrymiadau penodol ynglŷn â diwygio addewidion y Cynllun am yr hyn sy'n weddill o 2013 - 14. O fod wedi cyflawni gwaith asesu a dadansoddi pellach, mae'n bwysig nodi bod y mwyafrif llethol o'r cynigion o'r cynllun gwreiddiol yn parhau yn eu lle. Yn ogystal, llwyddodd y Cabinet i ryddhau adnoddau ariannol er mwyn gwireddu rhai o'r cynigion hynny, hyd yn oed ar adeg pan fo'r Cyngor yn wynebu argyfwng ariannol. Er enghraifft, yn ddiweddar, rhyddhawyd swm o £1.983m o adnoddau unwaith ac am byth i gefnogi gwaith ym maes yr Economi a £400,000 ar gyfer gwaith ar yr agenda Diwygio Lles. Mae'r gwaith o baratoi cynigion ar gyfer 2014 - 15 ymlaen yn mynd rhagddo. Un ffocws pendant yn yr adolygiad hynny yw blaenoriaethu ymhellach a hefyd bod llawer yn fwy disgybledig am wireddu canlyniadau clir a phendant i drigolion allan o'n gwaith.

## 2. Diwygio'r Cynllun Strategol - Awgrymiadau Penodol:

2.1 Cyflwynir isod awgrymiadau penodol ynglŷn â diwygio cynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer 2013 - 14 mewn ymateb i'r heriau a nodwyd uchod. Mae'r awgrymiadau hyn yn canolbwyntio ar wneud newidiadau arwyddocaol i gynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer 2013 - 14 o safbwynt dileu neu addasu'n sylweddol rhai o'r blaenoriaethau, canlyniadau a chynigion cyflawni.

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | GOF3 - AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION |
| **Newid** | Dileu'r cynnig cyflawni: *Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn sefydlu natur sefyllfa Amddiffyn Oedolion yng Ngwynedd trwy gynnal adolygiad*. |
| **Rheswm Dros y Newid** | Oherwydd y sefyllfa gyllidol heriol ni ddaeth y prosiect yma i'r categori uchel yn rhestr yr ail-flaenoriaethu nodwyd gan y Cabinet. Bydd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn cymryd trosolwg o waith amddiffyn oedolion o fewn y Sir. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | ECON1 - CRYFHAU GWYTNWCH BUSNESAU A CHADW'R BUDD YN LLEOL |
| **Newid** | Dileu y 'Prosiect Tyfu Busnesau Cynhenid' a'r Mesuryddion cysylltiedig. |
| **Rheswm Dros y Newid** | Oherwydd y sefyllfa gyllidol heriol ni ddaeth y prosiect yma i'r categori uchel yn rhestr yr ail-flaenoriaethu nodwyd gan y Cabinet. Mae gwaith 2013/14 yn agos at ei gwblhau ac at gyflawni'r addewidion nodir yn y Cynllun Strategol ar gyfer y flwyddyn, ond nid oes adnoddau na chapasiti digonol i'r prosiect barhau yn 2014-17. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | ECON1 - CRYFHAU GWYTNWCH BUSNESAU A CHADW'R BUDD YN LLEOL |
| **Newid** | Dileu'r gwaith datblygu cynigion ar gyfer canol trefi a'r maes olyniaeth busnes. |
| **Rheswm Dros y Newid** | Nid yw'r sefyllfa gyllidol yn caniatáu ymestyn adnoddau i ddatblygu'r gweithgareddau yma. Bydd gwaith i ddatblygu cynigion ar gyfer cefnogi busnesau traddodiadol y sir trwy gyfnod anodd yn parhau i ddigwydd trwy sylw i e.fusnes ac e.fasnachu, Cerdyn Prynu Lleol Gwynedd a Phrosiect Yma Mae Pethau yn Digwydd. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | AMG1 - HYBU CYFLENWAD ADDAS O DAI AR GYFER POBL LEOL |
| **Newid** | Newid uchelgais y 'Prosiect Tai Gwag Nôl i Ddefnydd' o safbwynt y nifer o unedau tai gwag a ddaw nôl i ddefnydd yn ystod 2013-14 o 95 i 54. Yn ogystal, mae cymal wedi ei ychwanegu i nodi y bydd arian wedi ei neilltuo i ddod â 10 o unedau tai gwag ychwanegol yn ôl i ddefnydd yn ystod y Chwarter 1af o 2014-15. |

| | |
|---|---|
| **Rheswm Dros y Newid** | Mae'r uchelgais wedi ei addasu i adlewyrchu lefel yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo i'r prosiect. Mae'r cymal ychwanegol wedi ei gynnwys gan y bydd gwaith paratoadol yn digwydd yn y misoedd nesaf ond na fydd modd dod a'r unedau hyn yn ôl i ddefnydd yn ystod 13/14 oherwydd bod amodau'r grant yn caniatáu hyd at 6 mis i berchnogion y tai wneud gwelliannau a thelir y grant ar gwblhau'r gwaith. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | AMG3 - YMATEB I FYGYTHIADAU NEWID HINSAWDD |
| **Newid** | Dileu'r flaenoriaeth a'r 3 prosiect cysylltiedig. |
| **Rheswm Dros y Newid** | Mae'r Panel Cyflawni wedi penderfynu nad yw'n flaenoriaeth yn dilyn y broses o ail flaenoriaethu'r Cynllun Strategol.<br><br>*Prosiect Ymatebion i fygythiadau newid hinsawdd yn y tymor hir wedi eu hadnabod* - Bydd elfennau o'r gwaith yn derbyn sylw fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol beth bynnag ond ar gyfer tymor byrrach. Gellir pigo'r elfennau mwy hir dymor i fyny mewn Cynllun Strategol yn y dyfodol.<br><br>*Prosiect Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd (Cynnydd yn y nifer o drigolion sy'n byw mewn ardaloedd a risg uchel o lifogydd hefo 'cynllun' i ymateb i achlysuron o lifogydd)* - Prosiect i ddigwydd y tu allan i'r Cynllun Strategol gan ofyn i'r gwasanaeth wneud beth y gall o fewn yr adnodd sydd ganddo. Fodd bynnag, nodir y dylai'r Arweinydd Prosiect amlygu unrhyw risgiau a gyfyd neu os ydym yn debygol o fod yn gweithredu yn groes i'r gyfraith i'r Panel Cyflawni ar gyfer sylw os bydd angen.<br><br>*Prosiect Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd (Gwella gallu'r Cyngor i ymateb er mwyn cynorthwyo trigolion i ddelio gyda sgil effeithiau achlysuron o lifogydd)* - Gollwng y prosiect hwn gan adael i'r gwasanaeth wneud yr hyn y gall fel rhan o waith cynllunio argyfwng y Cyngor. |

| Blaenoriaeth | CC2 - LLEIHAU EFFAITH TLODI AC AMDDIFADEDD |
|---|---|
| **Newid** | Dileu Canlyniad: *Mwy o unigolion a chymunedau bregus yn derbyn cefnogaeth briodol i symud ymlaen.*<br><br>Dileu Gweithgaredd: *Gosod y sail ar gyfer sefydlu trefn gydlynus i ddarparu cefnogaeth i unigolion a chymunedau bregus, ynghyd â chynlluniau cymdeithasol priodol i gynorthwyo pobl i gael dau ben llinyn ynghyd.* |
| **Rheswm Dros y Newid** | Mae lleihau effaith tlodi ac amddifadedd yn parhau'n flaenoriaeth. Ond, mae angen rhoi mwy o bwyslais eleni ar ymateb i'r agenda diwygio lles oherwydd effaith uniongyrchol y newidiadau hyn ar rai o drigolion y Sir. |

| Blaenoriaeth | CC4 - HYBU BALCHDER A CHYFRIFOLDEB CYMUNEDOL |
|---|---|
| **Newid** | Dileu'r cynnig cyflawni: *Cynnal peilot balchder cymunedol mewn ardaloedd er mwyn dysgu beth sydd yn gweithio*. |
| **Rheswm Dros y Newid** | Mae'r Panel Cyflawni wedi penderfynu y dylid dileu'r prosiect gan fod pwyslais y prosiect bellach ar ganfod dulliau o leihau galw a dibyniaeth y cyhoedd ar wasanaethau'r Cyngor drwy hyrwyddo gweithgareddau cymunedol yn hytrach na'r elfen amgylcheddol o'r peilot balchder cymunedol. |

2.2 Cyflwynir copi o'r Cynllun Strategol diwygiedig fel atodiad i'r adroddiad hwn, er gwybodaeth yn unig. Fe wêl Aelodau fod y Cynllun Strategol yn cynnwys mân newidiadau ac addasiadau eraill. Nid ydynt wedi eu rhestru uchod gan nad ydynt yn cael effaith sylweddol neu arwyddocaol ar yr addewidion a'r cynnwys ar gyfer 2013 - 14.

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gytuno i'r awgrymiadau a gyflwynwyd uchod ynglŷn â diwygio cynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer 2013 - 14 a mabwysiadu'r fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Strategol.

# CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD
# 2013 - 2017

*Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd*

www.gwynedd.gov.uk

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR | 03 |
| 2. PROFFIL O WYNEDD A'R CYNGOR | 06 |
| 3. PARATOI'R CYNLLUN | 08 |
| 4. NATUR Y CYNLLUN | 10 |
| 5. CYFLAWNI'R CYNLLUN | 12 |
| 6. BLAENORIAETHAU AR GYFER Y MAES PLANT A PHOBL IFANC | 13 |
| 7. BLAENORIAETHAU AR GYFER Y MAES GOFAL, IECHYD A LLES | 20 |
| 8. BLAENORIAETHAU AR GYFER MAES YR ECONOMI | 26 |
| 9. BLAENORIAETHAU AR GYFER MAES YR AMGYLCHEDD | 32 |
| 10. BLAENORIAETHAU AR GYFER Y MAES CYMUNEDAU CRYF | 38 |
| 11. BLAENORIAETHAU AR GYFER MAES DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR | 44 |
| ATODIAD 1 - MESURYDDION ALLWEDDOL Y CYNGOR | 52 |
| ATODIAD 2 - CYD-DESTUN ARIANNOL AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL 2013/14 – 2016/17 | 58 |
| ATODIAD 3 - DANGOSYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL | 60 |

## 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Pwrpas y cynllun hwn yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2013 - 17 a disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni.

Nod y Cyngor yw sicrhau ***Y Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory***. Hwn yw'r nod parhaus sy'n llywio gwaith y Cyngor ar bob lefel a byddwn yn parhau i fesur i ba raddau rydym yn cyflawni hyn o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun hwn yn ceisio gwneud hynny, ond yn cydnabod hefyd amgylchiadau arbennig y cyfnod dan sylw.

Ar gyfer y cyfnod 2013 - 2017, y bygythiad mwyaf i gynaliadwyedd a gwelliant gwasanaethau yw'r cyfuniad o alw cynyddol am wasanaethau a'r gostyngiad sylweddol yn adnoddau'r Cyngor. Mae'r cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy newid model busnes y Cyngor yn sylfaenol. Un nodwedd allweddol, drwy gydol y cynllun, yw'r angen i weithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid, unigolion a chymunedau i atal a lleihau'r galw am wasanaethau drwy ymyrryd yn gynnar, fel bo problem yn amlygu ei hun, a chefnogi mwy o bobl i helpu eu hunain. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni newid y ffordd rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau a dod yn Gyngor sy'n rhoi'r dinesydd yng nghanol popeth rydym yn ei wneud. Yn ogystal, bydd angen i ni fod yn fwy arloesol yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau er mwyn cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd mwy sylweddol a lleihau toriadau gwasanaeth. Rydym yn hyderus y gallwn ni yng Ngwynedd, adeiladu ar rinweddau ein dinasyddion, cymunedau a gweithlu er mwyn goresgyn yr heriau hyn a manteisio ar y cyfleoedd cywir. Felly, y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y cyfnod hwn yw:

***Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd***

Mae'r cynllun hwn hefyd yn nodi cyfres o weledigaethau maes sy'n cyfrannu at y brif weledigaeth. Mae'r gweledigaethau yn disgrifio uchelgais y Cyngor ar gyfer pob maes dros y pedair blynedd nesaf, fel a ganlyn:

| Maes | Gweledigaeth |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc** | • Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn |
| **Gofal, Iechyd a Lles** | • Ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach<br><br>• Cefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn |
| **Yr Economi** | • Gwella’r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo’n lleol |
| **Yr Amgylchedd** | • Hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd<br><br>• Hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy, gyda chysylltiadau hwylus |
| **Cymunedau Cryf** | • Cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg<br><br>• Lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd |
| **Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor** | • Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud |

Er mwyn ceisio gwireddu’r gweledigaethau hyn, mae’r Cyngor wedi mabwysiadu 24 o flaenoriaethau sy’n crynhoi barn y Cyngor am y materion y dylai roi sylw iddynt dros y pedair blynedd nesaf. Y blaenoriaethau hyn fydd amcanion gwella’r Cyngor. Mae’r cynllun hefyd yn adrodd ar y canlyniadau y mae’r Cyngor yn ceisio eu gwireddu o dan bob blaenoriaeth dros oes y cynllun ac yn manylu’n fwy penodol ar yr hyn yr ydym am geisio ei wireddu yn ystod 2013 / 14.

Mae meysydd y cynllun hwn wedi eu seilio ar Strategaeth Gymunedol Gwynedd. Mae’r Strategaeth Gymunedol yn gosod cyfeiriad aml-asiantaethol bwysig sy’n pennu canlyniadau lefel uchel ar gyfer Gwynedd, fel a ganlyn:

- Ardal ble mae’r economi yn ffynnu
- Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy
- Ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo
- Ardal byrlymus i fyw gyda chymunedau diogel
- Ardal gydag iechyd da a’r gofal gorau yn y gymuned

Mae Cynllun Strategol y Cyngor, felly, yn disgrifio ein cyfraniad at wireddu'r canlyniadau lefel uchel yma, yn ogystal â disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud yn ychwanegol er mwyn cyflawni ei weledigaeth am y cyfnod.

Er bod y Cynllun Strategol yn gosod y cyfeiriad strategol i waith y Cyngor am bedair blynedd, rydym yn ymwybodol iawn bod y byd o'n cwmpas yn newid yn gyson. O ganlyniad, bydd y cynllun hwn yn ddogfen 'fyw' a byddwn yn rheoli'r gwaith yn ofalus iawn er mwyn medru ymateb i unrhyw newidiadau pellach ddaw i'n rhan a hefyd i geisio addasu, gwella a bod yn fwy pendant ar y canlyniadau yr ydym am eu gwireddu i drigolion Gwynedd.



Dyfed Edwards
**Arweinydd y Cyngor**



Harry Thomas
**Prif Weithredwr**

## 2. PROFFIL O WYNEDD A'R CYNGOR




Cyflwynir isod ychydig o ffeithiau am Sir Gwynedd a'r Cyngor:

- Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 121,900 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.

- Ers 2001, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 4.3% (5,031 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 5.5% yng Nghymru.

- Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail Sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

- Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

- Yn 2012/13, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £361.5 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu bron i 16,000 o breswylwyr, cynnal 2,882 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

- Mae 102 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 3 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

- Mae’r Cyngor yn gyfrifol am redeg 14 Canolfan Hamdden o fewn y Sir ac 17 o Lyfrgelloedd.

- Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2011, daeth oddeutu 7.2 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £916 miliwn mewn refeniw.

- Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

- Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.

- Yn 2012, roedd cyfartaledd incwm cartref yng Ngwynedd (£22,369) yn 10% yn is na’r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,848) ac 21% yn is na’r ffigwr ar gyfer Prydain (£28,413).

- Yn 2011, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £132,000 sydd yn ostyngiad o 2.9% o’i gymharu â 2010.

- Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 16.2% erbyn 2033. Mae hyn yn llai na’r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 25.0%.

- Yn ôl Arolwg Panel Trigolion Gwynedd (2012):

  Roedd 92.7% o bobl yn fodlon neu’n fodlon iawn gyda Gwynedd fel lle i fyw.
  Roedd 56.7% yn fodlon neu’n fodlon iawn gyda’r ffordd mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau.
  Roedd 48.9% yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian. Roedd 21.4% yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian.
  Roedd 39.0% yn anghytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, ond roedd 31.1% yn cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a’i wasanaethau drwy ymweld â’r wefan - www.gwynedd.gov.uk

## 3. PARATOI'R CYNLLUN STRATEGOL

Cafodd y cynllun hwn ei baratoi mewn sawl cam, fel a ganlyn:

- Cam Un - Asesu Anghenion a Sganio'r Gorwel:

Cychwyn y gwaith o baratoi'r cynllun oedd adnabod y prif yrwyr cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu'r Cyngor a'r Sir nawr ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Aethpwyd ati i gasglu a dadansoddi data a gwybodaeth allweddol er mwyn creu darlun ystadegol o'r cyfleoedd a heriau sydd yn wynebu'r Cyngor a'r Sir.

Yn ogystal, cynhaliwyd arolygon gyda thrigolion y Sir yn ogystal â staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor ym mis Tachwedd 2012 er mwyn casglu gwybodaeth am eu profiadau o fyw a gweithio yng Ngwynedd a rhoi cyfle iddynt leisio'u barn ar y materion y dylid eu blaenoriaethu yn y Cynllun Strategol. Cafwyd ymateb arbennig o dda i'r arolygon - gyda 692 o aelodau Panel Trigolion Gwynedd, 495 aelod o staff a 44 Aelod Etholedig yn cymryd rhan.

Arweiniodd hyn at gasgliad o ddata a gwybodaeth allweddol a oedd yn gosod sail tystiolaeth gadarn ar gyfer y cynllun.

- Cam Dau - Adnabod Blaenoriaethau Drafft:

Yr ail gam yn y broses oedd defnyddio'r data a gwybodaeth allweddol fel sail i adnabod blaenoriaethau drafft ar gyfer y cynllun. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r prif gyfleoedd a heriau sy'n wynebu'r Sir ar draws nifer o feysydd, eu heffaith posibl ar drigolion Gwynedd a gallu'r Cyngor i wneud gwahaniaeth arwyddocaol yn y meysydd hynny.

Cyhoeddwyd y blaenoriaethau drafft ym mis Mawrth 2013. Yn dilyn hynny, aeth y Cyngor ati i ymgynghori gyda'r cyhoedd a'i bartneriaid ar y blaenoriaethau drafft. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar draws y Sir a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook er mwyn rhoi cyfle i bobl leisio'u barn. Yn anffodus, ni fu ymdrechion y Cyngor yn llwyddiannus y tro hwn a siomedig o ran niferoedd oedd yr ymateb i'r elfen hon o'r ymgynghoriad. Serch hyn, gwerthfawrogwyd y sylwadau a ddaeth i law a dysgwyd gwersi pwysig o ran gwella trefniadau ymgysylltu i'r dyfodol.

- <u>Cam Tri - Cadarnhau'r Blaenoriaethau a Datblygu Cynigion Cyflawni:</u>

Y cam nesaf oedd cadarnhau'r blaenoriaethau ar gyfer y cynllun a datblygu cyfres o gynigion ar gyfer eu cyflawni. Fel rhan o'r gwaith hwn, aethpwyd ati i gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio er mwyn sicrhau fod cynigion y Cyngor yn arwain at newidiadau arwyddocaol. Datblygwyd cynigion ar gyfer rhai meysydd penodol ac adnabuwyd yr angen i gwblhau gwaith pellach yn ystod 2013 / 14 er mwyn datblygu cynigion pendant ar gyfer meysydd eraill. Nodir yn glir yn y cynllun pa gynigion fydd yn cael eu gweithredu yn ystod 2013 / 14 a pha rai fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn arwydd pellach fod y cynllun hwn yn ddogfen 'fyw'.

Rhoddwyd ystyriaeth gofalus i faterion cydraddoldeb, iaith a chynaliadwyedd drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith cadarnhaol ar grwpiau penodol o fewn y boblogaeth, yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg.

**4. NATUR Y CYNLLUN**

Nod y Cyngor yw sicrhau *Y Gorau ar gyfer Pobl Gwynedd Heddiw ac Yfory* ac mae'n gwneud hynny yn bennaf trwy ei fusnes arferol, sef y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn ddyddiol, ac mae gan y Cyngor fesuryddion allweddol i fonitro ansawdd y gwasanaethau hynny (gweler Atodiad 1). Mae'r cynllun hwn, fodd bynnag, yn rhoi sylw penodol i flaenoriaethau'r Cyngor a'r prif newidiadau mae'n ymrwymo iddynt dros y pedair blynedd nesaf.

Mae'r ddogfen hon wedi ei strwythuro o gwmpas y meysydd canlynol:

- Plant a Phobl Ifanc
- Gofal, Iechyd a Lles
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd
- Cymunedau Cryf
- Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor

Ar gyfer pob maes, cyflwynir:

- ***Gweledigaeth Maes*** - Mae'r weledigaeth maes yn cyfrannu at brif weledigaeth y cynllun ac yn disgrifio uchelgais y Cyngor ar gyfer y maes dros y pedair blynedd nesaf.

- ***Blaenoriaethau*** - Mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio ar y materion bydd y Cyngor yn rhoi sylw pennaf iddynt dros y pedair blynedd nesaf er mwyn ymateb i'r prif gyfleoedd a bygythiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a'r Sir. Y blaenoriaethau yw amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer y cyfnod dan sylw.

- ***Tystiolaeth*** - Mae'r dystiolaeth yn crynhoi'r data a gwybodaeth allweddol sy'n sail i'r blaenoriaethau.

- ***Canlyniadau*** - Mae'r canlyniadau yn disgrifio'r prif wahaniaeth mae'r Cyngor eisiau ei wneud erbyn 2017.

- ***Cynigion Cyflawni*** - Mae'r cynigion yn disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn gwireddu ei flaenoriaethau. Rhoddir sylw yn benodol i'r hyn fydd y Cyngor yn anelu i'w gyflawni yn ystod 2013 / 14. Yn ogystal, ceir cyfeiriad at y gwaith datblygol bydd y Cyngor yn ei gwblhau yn ystod 2013 / 14 er mwyn llunio cynigion cyflawni o fewn rhai meysydd penodol.

- ***Mesuryddion*** - Dyma'r prif fesuryddion bydd y Cyngor yn eu defnyddio i fesur ei gynnydd o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a blaenoriaethau y mae'n anelu tuag atynt.

Yn olaf, mae tri atodiad:

- Atodiad 1: Mesuryddion Allweddol y Cyngor - Mae'r mesuryddion hyn yn cynrychioli canlyniadau allweddol i unigolion ynghyd ag ansawdd gwasanaeth ar gyfer busnes arferol y Cyngor.

- Atodiad 2: Strategaeth Ariannol y Cyngor - Mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth ariannol sy'n plethu gyda chyfnod y Cynllun Strategol gan sicrhau fod yr adnoddau priodol mewn lle i wireddu'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y cynllun.

- Atodiad 3: Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol - Pennir y dangosyddion hyn oll yn genedlaethol ac fe'u cynhwysir yma er mwyn cael rhestr gyflawn o'r hyn y disgwylir i'r Cyngor adrodd arnynt yn flynyddol.

## 5. CYFLAWNI'R CYNLLUN

Mae cyflawni'r cynllun yn flaenoriaeth bwysig yn ei hun.  Bydd y Cyngor yn rhoi trefniadau priodol mewn lle ar bob lefel er mwyn cyflawni'r cynllun a bydd gan bawb rhan bwysig i'w chwarae yn y gwaith o wireddu'r weledigaeth o gefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd.

Y Cyngor Llawn sydd yn gyfrifol am fabwysiadu'r Cynllun Strategol a gosod y cyfeiriad i waith y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf.

Bydd Aelodau Cabinet y Cyngor, drwy'r Paneli Cyflawni, yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Strategol o fewn eu meysydd ac yn sicrhau fod trefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad cadarn mewn lle i gyflawni'r blaenoriaethau a chanlyniadau.

Bydd y Pwyllgorau Craffu yn dal yr Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad o safbwynt cyflawni'r blaenoriaethau ac yn craffu effaith y Cynllun Strategol ar bobl Gwynedd.

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid ar draws pob sector i wireddu blaenoriaethau sydd angen mewnbwn gan fwy nag un partner i'w cyflawni.

Fel rhan o'i ymrwymiad i roi pobl Gwynedd yng nghanol popeth mae'n wneud, bydd y Cyngor yn rhoi trefniadau mewn lle er mwyn ymgysylltu'n barhaus gyda phobl a chymunedau'r Sir er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar waith y Cyngor a'u grymuso i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb o'r dyfodol.

| MAES - PLANT A PHOBL IFANC |
|---|

| **Gweledigaeth Maes** | • Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn |
|---|---|

| **Blaenoriaeth** | | **P1 - CODI SAFONAU ADDYSGOL PLANT A PHOBL IFANC** |
|---|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | | • Mae Adroddiad Gwella Ysgolion y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn nodi uchelgais genedlaethol o gyrraedd 65% yn y safon L2+ (5 gradd TGAU (A*- C) yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg) erbyn 2015 - % Gwynedd ar hyn o bryd ydi 55% (safle 6 drwy Gymru).<br>• Mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn disgyn o'i gymharu â'r cyfnodau allweddol eraill (Cyfnod Sylfaen = 83%, Cyfnod Allweddol 2 = 86%, Cyfnod Allweddol 3 = 83%, Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2+ = 55%).<br>• Mae canlyniadau Mathemateg Gwynedd yn is o'u cymharu â chanlyniadau yn y pynciau craidd eraill – Mathemateg = 58.3%, Cymraeg = 76.8%, Saesneg = 64.1%, Gwyddoniaeth = 71.7%.<br>• Mae diffyg system gyffredin i "dracio" cyrhaeddiad disgyblion yn ein hysgolion.<br>• Mae Arolygiadau Estyn diweddar yn dangos amrywiaeth yn safonau perfformiad a rhagolygon gwella ein hysgolion uwchradd. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | | **Bydd safonau addysg plant a phobl ifanc wedi codi:**<br>• 65% neu fwy o ddisgyblion yn cyrraedd y safon Trothwy Lefel 2+ (5 gradd TGAU (A*- C) yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg) yng Nghyfnod Allweddol 4.<br>• 65% neu fwy o ddisgyblion yn cyrraedd safon Lefel 2 (gradd A*- C) mewn Mathemateg.<br>• Llai o Ysgolion Uwchradd yng nghategori 'mewn dilyniant' Estyn. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | | Byddwn yn datblygu cynigion er mwyn sicrhau y bydd safonau addysg plant a phobl ifanc yn codi. Wrth ddatblygu'r cynigion byddwn yn ystyried argymhellion Adroddiad Estyn a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn dilyn iddynt gwblhau'r Ymchwiliad Craffu ar Ansawdd Addysg. |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | GY02 | % o ddisgyblion 15 oed yn cyrraedd y safon Trothwy Lefel 2+ (5 gradd TGAU (A*- C) yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg) yng Nghyfnod Allweddol 4. |
| | GY26 | % o ddisgyblion yn cyrraedd safon Lefel 2 (gradd A*- C) mewn Mathemateg. |
| | Yn ogystal, byddwn yn ystyried datblygu mesuryddion pellach wrth ddatblygu cynigion yn 2013 / 14. | |

| Blaenoriaeth | P2 - UNIONI CYFLEOEDD I GRWPIAU BREGUS O BLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Prosiect Torri'r Cylch yn nodi bod diffyg ffocws ar ddarparu gwaith ataliol a bod diffyg cefnogaeth i deuluoedd nad ydynt yn cyrraedd y trothwy statudol ar gyfer cymorth, ond sydd angen help serch hynny.<br>• Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dangos ei bod yn anodd profi fod y buddsoddiad o £14.5m blynyddol yn cynnig y gwerth gorau am arian ar hyn o bryd.<br>• Diffyg tracio cyrhaeddiad plant yn golygu ei bod yn anodd profi cynnydd a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol / grwpiau bregus.<br>• Y bwlch rhwng disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a gweddill y disgyblion yng Ngwynedd o gyrraedd lefel Trothwy Lefel 2+ (5 gradd TGAU (A*-C) yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg) ydi : 36.04% tra yng Nghymru mae ychydig yn is: 33.22%.<br>• Mae plant o gartrefi incwm isel yn fwy tebygol o ddechrau ysgol gyda diffygion yn eu gallu i ddysgu ac ymddygiad cymdeithasol sydd yn arwain at ganlyniadau gwael i blant, yn wir mae tystiolaeth yn dangos bod plant o'r cartrefi sydd yn yr 20% tlotaf ar gyfartaledd 19 mis tu ôl i blant o'r 20% uchaf erbyn oed 4 / 5.<br>• Lefel absenoldebau yn cael effaith ar gyrhaeddiad plant (cyrraedd lefel Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn amrywio o 65.7% i 2.2% dibynnol ar lefel presenoldeb) - o'r data am Gymru awgrymir bod ysgolion sydd gyda'r canran uchaf o blant gyda hawl i Brydau Ysgol am Ddim fwy o achosion absenoldebau.<br>• Gwaharddiadau yn parhau yn broblem yn enwedig mewn un Ysgol Uwchradd. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Cyrhaeddiad disgyblion bregus wedi gwella.**<br>**Mwy o deuluoedd yn hyderus, meithringar a gwydn.**<br>**Gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion wedi eu dileu a chynnydd ym mhresenoldeb disgyblion.**<br>**Gwell profiadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol:**<br>• Cynnydd yn nifer llefydd ysgol ar gyfer plant gydag anghenion addysg arbennig yn Meirion Dwyfor.<br>• Cynnydd yn y plant gydag anghenion addysg arbennig fydd yn mynychu'r ysgol newydd.<br>• Cynnydd yn y gwelyau preswyl / ysbaid fydd ar gael yng Ngwynedd ar gyfer defnydd plant y Sir ac, o bosib, Siroedd eraill.<br>• Lleihad yn yr angen i ddanfon plant gydag anghenion addysg arbennig i Siroedd eraill am eu haddysg ac felly lleihad mewn costau. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol: |

| | |
|---|---|
| | **Prosiect Gyda'n Gilydd - Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd:**<br>• Cefnogi 120 o deuluoedd yn ystod 2013 / 14.<br>• Sefydlu cynlluniau ataliol i deuluoedd ar gyfer y meysydd canlynol - hyrwyddo rhiantu, llythrennedd ariannol, chwarae a chyfleoedd hamdden egniol a gwaith blynyddoedd cynnar.<br>• Sefydlu trefn ar gyfer mesur ac asesu effaith y tîm ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y ddarpariaeth i ddelio gyda mwy o achosion.<br>• Sicrhau cyswllt rhwng prosiect Gyda'n Gilydd gyda'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.<br>• Sefydlu cynlluniau ataliol i deuluoedd sy'n derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar gyfer y meysydd canlynol - hyrwyddo rhiantu, llythrennedd ariannol, chwarae a chyfleoedd hamdden egniol a gwaith blynyddoedd cynnar.<br>• Ymestyn darpariaeth Dechrau'n Deg i ddwy ardal newydd.<br><br>**Prosiect Cynhwysiad ac Ymddygiad:**<br>• Parhau i wella a darparu cefnogaeth i ddisgyblion bregus ymhob ysgol uwchradd drwy'r strategaeth gynhwysiad.<br>• Paratoi Cynllun Busnes ar gyfer y ganolfan Llwybrau Ni ar gyfer disgyblion a phroblemau ymddygiadol dwys a chymhleth yng nghanol y Sir fydd yn fwy hygyrch i bawb.<br>• Sicrhau bydd rhaglen waith penodol yn cael ei gweithredu bydd yn delio gyda chyfraddau gwaharddiadau Ysgol Friars.<br><br>**Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol:**<br>• Cytuno ar fodel newydd o ddarparu profiadau a chyfleoedd addysgol i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>• Penderfynu ar safleoedd posibl ar gyfer sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yn ardal Dwyfor-Meirionnydd.<br><br>Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn:<br><br>• Gwella cyrhaeddiad disgyblion bregus.<br>• Cryfhau llais plant a phobl ifanc yn y gwasanaeth drwy lunio strategaeth ymgysylltu, cryfhau'r broses eiriolaeth ac adolygu a diwygio rôl a strwythur y Gwasanaeth Plant. |

| | | |
|---|---|---|
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | DCh26 | Nifer o deuluoedd sydd wedi derbyn cefnogaeth drwy gynllun Gyda'n Gilydd. |
| | EDU/016b | % presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd. |
| | EDU/010aN | Nifer y diwrnodau ysgol wedi'u colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd, mewn Ysgolion Cynradd |
| | EDU/010bN | Nifer y diwrnodau ysgol wedi'u colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd, mewn Ysgolion Uwchradd. |
| | EDU/008bN | Nifer gwaharddiadau parhaol yn yr ysgolion uwchradd. |
| | Ar gyfer y gwaith datblygol, byddwn yn mesur hyn wedi datblygu'r cynigion yn ystod 2013 / 14. | |

| **Blaenoriaeth** | **P3 - GWELLA ADDASRWYDD Y GYFUNDREFN YSGOLION** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Cyngor eisoes wedi datgan pryder am gynaliadwyedd ysgolion uwchradd Meirionnydd<br>• Amrediad maint dosbarthiadau yn amrywio yn sylweddol drwy'r Sir.<br>• Cyflwr rhai o adeiladau ein hysgolion yn peri pryder – ddim yn gynaliadwy.<br>• Gwynedd gyda'r % uchaf o lefydd gweigion yng Nghymru = 28%.<br>• Anawsterau wrth geisio penodi Penaethiaid newydd – cael effaith ar arweinyddiaeth ysgolion.<br>• Cymhareb disgybl fesul ysgol (holl ysgolion) yn is yn rhanbarth etholaeth Dwyfor Meirionnydd nac yn Arfon (DM = 101 disgybl, Arfon = 195 disgybl, Cymru = 261 disgybl).<br>• Yr angen i Awdurdodau Lleol a'r sefydliadau dysgu, boed yn ysgolion neu golegau, ddod at ei gilydd ar sail Ardal Ddysgu i gydweithio er mwyn sefydlu a chyd-gyflwyno Cwricwlwm Lleol. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Addasrwydd y gyfundrefn ysgolion wedi gwella:**<br>• Lleihad yn y nifer o lefydd gweigion o dan 20%.<br>• Llai o amrediad yng nghost y pen – mwy o gysondeb yng ngwariant fesul disgybl ar draws holl ysgolion y Sir.<br>• Adnoddau i wella ansawdd addysg wedi eu hail ddyrannu yn sgil cynlluniau ad-drefnu.<br>• Mwy o adnoddau yn cael eu gwario ar addysg plant yn hytrach nac ar adeiladau.<br>• Gwelliant yng nghyflwr adeiladau ysgolion sydd yn caniatáu dylanwad positif ar amodau dysgu plant.<br>• Gwynedd ac Ynys Môn wedi ei sefydlu fel ardal o ragoriaeth ar gyfer dysgu ôl-16. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol:<br><br>**Prosiect Trefniadaeth Ysgolion:**<br>• Agor a sefydlu Ysgol Ardal Craig y Deryn ym Mro Dysynni i gymryd lle pedair ysgol lai.<br>• Cau Ysgol Aberdyfi a gwneud gwelliannau i Ysgol Penybryn, Tywyn. |

<table>
<tr><td rowspan="1"></td><td colspan="2">

- Cau Ysgol Y Parc a gwneud gwelliannau i Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn.
- Ymgynghori ar gynnig i gau ysgolion Groeslon, Carmel a Bronyfoel a sefydlu Ysgol Ardal newydd yng Ngroeslon a chael penderfyniad terfynol ar y cynnig.
- Ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Llidiardau a sefydlogi darpariaeth Ysgol Crud y Werin a chael penderfyniad terfynol ar y cynnig.
- Adolygu’r ddarpariaeth ym Meirionnydd gan asesu a oes angen achos dros newid yn yr ardal gan roi sylw penodol i’r sector uwchradd.
- Symud ymlaen a datblygu’r drafodaeth ar adolygiad o’r ddarpariaeth yn nalgylch Y Gader.
- Symud ymlaen â thrafodaethau a gwaith cefndirol sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes yn nhref y Bala.
- Datblygu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yn ardal Dwyfor-Meirionnydd (mwy o fanylion am hwn o dan flaenoriaeth P2).

**Prosiect Darpariaeth Addysg ôl-16:**

- Sicrhau cefnogaeth pob sefydliad ôl 16 yng Ngwynedd a Môn.
- Sefydlu system reoli a gweithredu effeithiol.
- Sefydlu systemau cywain data a gwybodaeth gan gynnwys llais cyflogwyr a llais y dysgwyr
- Adnabod cwricwlwm ardal addas ar gyfer Medi 2014.
- Adnabod a mynd i’r afael â rhwystrau i newid.
- Datblygu gwaith partneriaethol Berwyn/Grŵp Llandrillo.

</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Sut fyddwn ni yn mesur hyn?<br>(Mesuryddion)</td><td>DA04</td><td>% lleoedd sydd heb eu llenwi mewn ysgolion cynradd Gwynedd.</td></tr>
<tr><td>Adn23</td><td>Amrediad yng nghost y pen fesul disgybl ar draws ysgolion y Sir.</td></tr>
<tr><td>Adn24</td><td>% yr arbedion a ddaw yn sgil ad-drefnu sydd yn cael ei ail gyfeirio nôl i’r ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ar gyfer y prosiect Darpariaeth Addysg ôl-16, mae’r Bartneriaeth Ddysgu ôl-16 wedi adnabod set o fesuryddion i’w trafod ymhellach a’u cytuno, ynghyd â thargedau, gan y Consortiwm pan yn weithredol.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth | P4 - PARATOI POBL IFANC YN WELL AR GYFER BYWYD A GWAITH |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Arolwg Busnes Gwynedd - 87.9% o'r busnesu sy'n datgan eu bod yn wynebu anawsterau recriwtio yn nodi fod hynny oherwydd diffyg sgiliau a chymwysterau gan ymgeiswyr. (cyfathrebu, gofal cwsmer a rhifedd a llythrennedd).<br>• Allfudo o'r Sir yn yr oed 20-34 wedi cynyddu i 14.7% yn 2010/11, a sgiliau/cymwysterau yn gadael yn sgil yr allfudo.<br>• Pobl ifanc Gwynedd yn adrodd eu bod yn ei chael yn anodd cael swyddi yn lleol, gan gynnwys graddedigion ifanc.<br>• Diffyg pwyslais yn yr ysgolion ar ddysgu sgiliau bywyd megis rheoli arian, coginio, sgiliau magu plant, sgiliau cyfweld ayyb.<br>• Wylfa B yn debygol o ddod gyda chyfleoedd swyddi ar draws sawl maes; Parth Menter Eryri yn creu cyfleoedd gwaith pellach e.e. yn y sector digidol a data; Canolfan Pontio cyfleoedd newydd yn cael eu creu ym maes y diwydiannau creadigol trwy Pontio ac o bosib adleoli un o ganolfannau S4C - angen sicrhau fod pobl leol yn cael eu darparu i fanteisio ar y cyfleoedd gwaith.<br>• Y Cynllun Llwyddo'n Lleol, ddechreuodd yn 2011, wedi rhoi cymorth i 1,979 o bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed i ddatblygu syniad a pharatoi cynllun busnes syml, ac yna i ddefnyddio'r cynllun busnes i geisio am fwrsariaeth Llwyddo'n Lleol. Mae 143 bwrsariaeth o £1,000 wedi eu cyflwyno i helpu unigolion neu grwpiau o unigolion ddechrau eu menter eu hunain<br>• Roedd 620 o hawlwyr Lwfans Ceiswyr Gwaith o dan 25 oed (Gorffennaf 2012). |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Pobl ifanc wedi eu harfogi gyda sgiliau gwaith a bywyd priodol:**<br>• Pobl ifanc yn datgan gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaol a gwell parodrwydd i fynd i fyd gwaith.<br>• Busnesau yn datgan bod anawsterau recriwtio wedi gostwng ac yn dangos parodrwydd i gyflogi person ifanc.<br>• Lleihad yn y niferoedd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).<br>• Lleihad yn y nifer o hawlwyr Lwfans Ceiswyr Gwaith o dan 25 oed. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn datblygu cynigion er mwyn:<br><br>• Sicrhau bod cyrsiau priodol, boed yn academaidd neu yn alwedigaethol, yn cael eu darparu ar gyfer y cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn yr ardal.<br>• Diwallu'r diffyg sgiliau sy'n bodoli ymysg pobl ifanc yn ôl cyflogwyr.<br>• Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer bywyd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?** *(Mesuryddion)* | DGD17 | % y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. |
| | P4a | % Hawlwyr Lwfans Ceiswyr Gwaith o dan 25 oed. |
| | Yn ogystal, byddwn yn ystyried datblygu mesuryddion pellach wrth ddatblygu cynigion yn 2013 / 14. | |

| MAES - GOFAL, IECHYD A LLES |
|---|

| **Gweledigaethau Maes** | • Cefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn<br>• Ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach |
|---|---|

| **Blaenoriaeth** | **GOF1 - YMATEB YN WELL I ANGHENION POBL FREGUS I SICRHAU GWASANAETHAU GOFAL CYNALIADWY** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Cynnydd yn y boblogaeth hŷn gyda chynnydd sylweddol o 87% yn niferoedd y bobl oed 85+ dros yr ugain mlynedd nesaf - effeithio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Allfudiad pobl ifanc Gwynedd i rannau eraill o’r DU rhwng 2002 a 2009 tra bu mewnlifiad o’r boblogaeth pobl hŷn (50-64) i Wynedd o rannau eraill o’r DU. Rhagweld problem o sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol addas, i gwrdd ag anghenion dros yr ugain mlynedd nesaf. Tystiolaeth o hyn eisoes yn Ne Meirionnydd.<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaethau Plant, gyda chynnydd yn y plant mewn gofal a phlant mewn angen.<br>o Niferoedd Plant mewn Gofal: Niferoedd Plant mewn Angen:<br>o 2009-10 = 175 2009-10 = 605<br>o 2010-11 = 175 2010-11 = 650<br>o 2011-12 = 195 2011-12 = 663<br>• Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth - 2011/12 Gwynedd 24.9, Teulu 20.75, Cymru 21.35. Gwynedd hyd at Ch3 2012/13 - 24.0.<br>• Mae Bil Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu fframwaith statudol bydd yn trawsnewid y modd caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu. Yn bennaf trwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Plant Gwynedd yn derbyn gwasanaeth effeithiol sy’n cynnig gwerth am arian.**<br>**Llais cryfach i ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd.**<br>**Darpariaeth addas o ofal yn y lleoliad cywir.**<br>**Pobl a phlant Gwynedd yn derbyn gwasanaeth gan weithlu hyderus a chymwys sy’n gallu ymateb i’w anghenion.**<br>**Pobl a phlant Gwynedd yn byw mewn cymunedau cryf sy’n gefnogol ac yn adeiladu ar gryfderau pobl.** |

| | |
|---|---|
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol:<br><br>~~**Prosiect Ymgysylltu:**~~ **HWN WEDI SYMUD I GOF2**<br>• ~~Llunio strategaeth ymgysylltu fydd yn sicrhau cynnwys defnyddwyr / darpar ddefnyddwyr / gofalwyr wrth gynllunio, datblygu , gweithredu a gwerthuso ymyraethau.~~<br>• ~~Sefydlu a chryfhau fforymau defnyddwyr.~~<br>• ~~Cryfhau'r broses eiriolaeth gan ddarparu canllawiau clir a theg.~~<br><br>**Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn:**<br>(Gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd)<br><br><u>Gofal Preswyl</u><br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog.<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog.<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen.<br>• Cytuno ffordd ymlaen gyda chartrefi preswyl y Cyngor.<br>• Agor Uned Ysbaid benodol ar sail peilot.<br><br><u>Gofal Dydd</u><br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys.<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon.<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia.<br><br><u>Teleofal</u><br>• Cwblhau adolygiad o achos fusnes teleofal.<br>• Cytuno ar y ffordd ymlaen. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu:**<br>• Gweithredu'r rhaglen ymgysylltu gyda rhanddeiliaid cartref Fron Deg Caernarfon.<br>• Adnabod modelau llety a gofal dydd ar gyfer pobl ac Anableddau Dysgu.<br>• Ystyried gwybodaeth ymgysylltu, penderfynu’r opsiynau a chreu achos fusnes ar gyfer cartref Fron Deg.<br>• ~~Y Cabinet i ystyried yr achos fusnes safle Fron Deg~~. **HWN YN DEBYGOL O DDIGWYDD YN 2014 - 15**<br><br>**Prosiect Strwythur Arweinyddiaeth:**<br>• Adolygu a diwygio’r strwythur arweinyddiaeth ynghyd â rôl statudol a’r strwythur adrannol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i’w bwrpas.<br>• Penderfynu ar y strwythur wedi ei adolygu.<br><br>Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn:<br><br>• Canfod ffurf o gynnig gwell gwerth am arian wrth gynnig gwasanaeth effeithiol drwy Adolygiad Dechrau i Ddiwedd ‘End to End’ y Gwasanaeth Plant.<br>• Darparu ystod o wlâu sydd yn diwallu’r galw drwy Adolygiad Dechrau i Ddiwedd ‘End to End’ y Gwasanaeth Oedolion.<br>• ~~Canfod cryfderau cymunedau unigol ac adnabod bylchau trwy wneud Adolygiad o’r Gefnogaeth Gymunedol~~. **HWN WEDI SYMUD I GOF2** | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | SCA/002b | Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. |
| | OED09 | % o ddefnyddwyr sy'n adrodd fod Teleofal yn eu galluogi i fyw adref yn annibynnol. |
| | SCA/007 | % y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. |

| **Blaenoriaeth** | **GOF2 - CYNYDDU GWAITH ATALIOL YM MAES GOFAL OEDOLION A PHOBL HŶN** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Yr agenda ataliol yn cynyddu’r ffocws ar ymyraethau ataliol cynnar er mwyn gwella ansawdd bywyd a lleihau’r pwysau ar wasanaethau. Ymchwil yn dangos bod ymyraethau cynnar anffurfiol (ee gan y sector wirfoddol / 3ydd sector) yn hyrwyddo annibyniaeth ond bod ymyrraeth gynnar ffurfiol yn dwysau’r broblem a chreu dibyniaeth gynyddol.<br>• Rhagwelir cynnydd o 12% yn y nifer gofalwyr di-dâl oed 65+ yn ystod cyfnod y 5 mlynedd nesaf. |

| | |
|---|---|
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Rhwydwaith o gefnogaeth ragweithiol ar gael i gynorthwyo oedolion a phobl hŷn fyw yn annibynnol heb ymyrraeth ffurfiol Gwasanaethau Cymdeithasol.** |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:<br><br>**Prosiect Cydgynhyrchu a Chyfranogi:**<br>• Rhagbaratoi i lunio strategaeth ymgysylltu fydd yn sicrhau cynnwys defnyddwyr / darpar ddefnyddwyr / gofalwyr wrth gynllunio, datblygu , gweithredu a gwerthuso ymyraethau. **ADDASIAD**<br>• ~~Sefydlu a chryfhau fforymau defnyddwyr.~~ **I'W GYNNWYS YNG NGHYNLLUN 2014 - 15**<br>• ~~Cryfhau'r broses eiriolaeth gan ddarparu canllawiau clir a theg.~~ **I'W GYNNWYS YNG NGHYNLLUN 2014 - 15**<br>• Canfod cryfderau cymunedau unigol ac adnabod bylchau trwy wneud Adolygiad o'r Gefnogaeth Gymunedol<br>• Sefydlu peilot Pwynt Mynediad Sengl ym Meirionydd. **ADDASIAD**<br>• Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn canfod y cyfleoedd ataliol ym maes Gofal Oedolion a Phobl Hŷn trwy gynnal adolygiad gan sicrhau plethiad gweithredu gyda'r Strategaeth Pobl Hŷn |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | Byddwn yn mesur hyn wedi datblygu'r cynigion yn ystod 2013/14 |

| **Blaenoriaeth** | **GOF3 - AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Diogelu pobl sy'n agored i niwed yn fater sylfaenol i asiantaethau statudol a phartneriaid mewn gofal.<br>• Diogelu plant yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Angen sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant o ran eu hamddiffyn a diogelu'u lles. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Gwynedd yn Fwy Diogel:**<br>• Pob plentyn yn mynychu ysgol lle mae'r bobl sydd angen gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt) wedi'i dderbyn.<br>• Cynnydd yng nghanran yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynhadledd Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniad.<br>• Pob aelod staff newydd yn derbyn hyfforddiant diogelu wrth eu hanwytho.<br>• Cynnal perfformiad yn y nifer o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau lle mae'r perygl wedi ei reoli. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiect Diogelu Plant ac Oedolion:**<br>• Mabwysiadu a gweithredu Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd.<br>• Penodi Rheolwyr Dynodedig ar gyfer pob Gwasanaeth.<br>• Sicrhau fod gan bob gwasanaeth Gynllun Diogelu yn unol â'r canllawiau corfforaethol.<br>• Cyflwyno hyfforddiant / rhaglen Diogelu Plant ac Oedolion.<br>• Datblygu modiwl e-ddysgu corfforaethol.<br>• Cyflwyno Hyfforddiant Diogelu ar gyfer Aelodau Etholedig.<br><br>~~Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn sefydlu natur sefyllfa Amddiffyn Oedolion yng Ngwynedd trwy gynnal adolygiad.~~ **DILEU** | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>(Mesuryddion) | Adn25 | % o'r ~~pobl~~ Llywodraethwyr ddylai fod wedi derbyn gwiriad sydd wedi derbyn gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt) mewn ysgolion Gwynedd. **ADDASIAD** |
| | Adn09 | % Staff ysgol efo gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt) mewn ysgolion Gwynedd. **YCHWANEGIAD** |
| | Diogelu2 | % yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynhadledd Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniad. |
| | SCA/019 | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y % lle mae'r perygl wedi ei reoli. |
| | ~~AdranDiogelu2~~ | ~~Canran yr aelodau staff newydd a dderbyniodd hyfforddiant diogelu wrth eu hanwytho~~ **DILEU: YN CAEL EI DDISODLI GAN Y CANLYNOL:** |
| | AdranDiogelu2a | Nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant drwy'r Uned Datblygu Gweithlu Gwynedd. |
| | AdranDiogelu2b | Nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn oedolion drwy'r Uned Datblygu Gweithlu Gwynedd. |

| **Blaenoriaeth** | **GOF4 - CYNYDDU GWAITH ATALIOL A THARGEDU ANGHYDRADDOLDEBAU YM MAES IECHYD** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Yr agenda ataliol yn cynyddu'r ffocws ar ymyraethau ataliol cynnar er mwyn gwella ansawdd bywyd a lleihau'r pwysau ar wasanaethau. Ymchwil yn dangos bod ymyraethau cynnar anffurfiol (ee gan y sector wirfoddol / 3ydd sector) yn hyrwyddo annibyniaeth ond bod ymyrraeth gynnar ffurfiol yn dwysau'r broblem a chreu dibyniaeth gynyddol.<br>• Rhagwelir cynnydd o 12% yn y nifer gofalwyr di-dâl oed 65+ yn ystod cyfnod y 5 mlynedd nesaf. |

| | |
|---|---|
| | • Ymyraethau byr o fewn gofal cynradd yn rhoi gwerth gorau am arian - sef rhwng £20 a £440 QALY.<br>• Disgwyliad oes yng Ngwynedd yn cynyddu, ond nid yw'r gwelliant yn gyfartal ar draws pob ardal. Mae bylchau anghydraddoldeb sylweddol yn genedlaethol ac yn lleol rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifad o ran disgwyliad oes a marwolaethau yn sgil gwahanol achosion.<br>• Anghydraddoldebau mewn ansawdd bywyd o ran disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Ystod o wasanaethau integredig gyda phartneriaid i wella cyfleon byw'n iach a phrofiad i unigolion.**<br>**Anghydraddoldebau Iechyd yn lleihau yng Ngwynedd.**<br>**Gwella Iechyd wedi'i brif-ffrydio drwy'r Cyngor.** |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn datblygu cynigion er mwyn:<br>• Creu darpariaeth addas ar gyfer y teulu o'r cychwyn trwy ystyriaeth y ffordd gall y gwasanaeth iechyd gydweithio hefo'r Cyngor yn ystod cyfnod Blynyddoedd Cynnar plant a'u rhieni.<br><br>• Cynnig gwasanaeth gwell i unigolion trwy ystyried cyfleon o gyd-weithio, chyd-leoli a darpariaeth ar y cyd ar gyfer triniaethau, gwasanaethau a rhaglenni adfer.<br>• Cael darlun diweddar o anghydraddoldebau iechyd o fewn y Sir trwy gynnal Asesiad Anghenion Iechyd yng Ngwynedd.<br>• Cytuno ar y mathau o ymyraethau penodol a dwys y gellir eu targedu yn yr ardaloedd neu garfanau pobl adnabyddir trwy ddatblygu strategaeth tymor hir.<br>• Codi ymwybyddiaeth a chyfraniad gwasanaethau'r Cyngor i Wella Iechyd.<br>• Canfod sefyllfa gweithredu Asesiad Effaith Iechyd ar bolisïau a threfniadau gwasanaethau adrannau'r Cyngor.<br>• Sicrhau perchnogaeth gorfforaethol i'r brand byw'n iach gan sefydlu cyfundrefn, safonau a chanllawiau i'w cyrraedd. |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | Byddwn yn mesur hyn wedi datblygu'r cynigion yn ystod 2013 / 14. |

| MAES - YR ECONOMI |
|---|

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth Maes** | • Gwella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol |

| **Blaenoriaeth** | **ECON1 - CRYFHAU GWYTNWCH BUSNESAU A CHADW'R BUDD YN LLEOL** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Sefyllfa ymylol y Sir mewn perthynas â'r prif farchnadoedd<br>• Mae ychydig dros chwarter busnesau Gogledd Cymru yng Ngwynedd (25.6%) – 12,840 o fusnesau, yn cyflogi 43,000 (ffigyrau LlC).<br>• Tua'r hanner (6,305) wedi eu cofrestru ar gyfer TAW a/neu PAYE – angen cefnogi busnesau cynhenid i dyfu.<br>• Gostyngiad o 37% yng ngoroesiad busnesau'r Sir rhwng 2008-2010, yn ôl rŵan i lefel debyg i 2008 ond y busnesau a'r cyfleon swyddi a gollwyd bryd hynny wedi mynd.<br>• Busnesau yn nodi fod gwaith a chyfle yn mynd i fusnesau tu allan i'r Sir, gan gynnwys cytundebau bychain yn ogystal â rhai mawr.<br>• Cyfleon enfawr buddsoddiad Wylfa B, a chynlluniau cyfalaf o fewn Gwynedd gwerth £75m yn y cyfnod i ddod.<br>• Caffael yn faes mae gan y Cyngor ddylanwad drosto – ar hyn o bryd oddeutu 38.55% o gaffael y Cyngor sydd o fewn y Sir.<br>• Prosesau Caffael yn adnabod *Voids,* sef gwasanaethau sydd ddim yn cael eu cynnig gan fusnesau o fewn y Sir, ac o'r herwydd cyfleon pwysig i fusnesau lleol ennill buddsoddiad gan y sector gyhoeddus yn gadael y Sir.<br>• Gwynedd yn y wedd gyntaf i gael isadeiledd band eang tra nerthol y genhedlaeth nesaf ar draws y Sir - y nerth arfaethedig (fyny at 80Mbps) yn dod â'r Sir o fewn yr un categori â rhai o brif economïau'r byd.<br>• Dim ond 46.7% o drigolion Gwynedd sy'n cymryd mantais o fand eang ar hyn o bryd (65.5% yng Nghymru a 71.4% yn y DG). |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Mwy o fuddion i bobl y Sir o gaffael y Cyngor.**<br>**Mwy o fusnesau'r Sir yn tyfu ac efo'r potensial i gyflogi.**<br>**Cynnal lefel goroesiad busnesau'r Sir.** |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol:<br><br>**Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol:**<br>• Sefydlu Rhaglen Gaffael flynyddol.<br>• Cynnal adolygiad o drefniadau caffael y Cyngor a phenderfynu ar gyfeiriad.<br>• Sefydlu cymalau cymdeithasol o fewn cytundebau'r maes adeiladwaith dros £500k, ac adnabod sectorau eraill. |

- Targedu a chodi ymwybyddiaeth busnesau'r Sir o gytundebau caffael y Cyngor, gan sicrhau'r gefnogaeth briodol i'w galluogi i gyflwyno ceisiadau tendr.
- Adnabod y *Bylchau Cyflenwi* sydd o fewn y Sir.

**Prosiect Rhaglen Cyflenwyr Gwynedd:**

- Comisiynu sesiynau Cwrdd â'r Prynwr o gwmpas cytundebau penodol ar draws sawl sector.
- Sicrhau sesiynau achrediadau arbenigol ar gyfer cwmnïau lleol.
- Codi ymwybyddiaeth busnesau'r Sir o gyfleon cytundebau Ynys Ynni a chynlluniau rhanbarthol.

~~**Prosiect Tyfu Busnesau Cynhenid:**~~ **DILEU**

- ~~Cydweithio efo 43 busnes sydd eisoes wedi mynegi awydd i dyfu a'u cefnogi i ddilyn eu rhaglenni twf unigol.~~
- ~~Dathlu llwyddiant 10 o gwmnïau fydd wedi gwireddu eu huchelgais i dyfu.~~

Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn:

- Cefnogi busnesau traddodiadol y Sir trwy gyfnod anodd gan greu ystod o gyfleon iddynt gynyddu eu marchnadoedd a goroesi - gan gynnwys rhoi sylw i e.fasnachu, Cerdyn Prynu'n Lleol Gwynedd, a ~~canol trefi~~ **DILEU** chefnogi digwyddiadau strategol. ~~ac i'r maes olyniaeth busnes.~~ **DILEU**
- Datblygu economïau lleol mwy hunangynhaliol fydd yn manteisio ar gyfleon y sector werdd ac amgylcheddol, ac yn ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol er mwyn cyfrannu at gryfhau gwytnwch busnesau a'u goroesiad.

| | | |
|---|---|---|
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?** *(Mesuryddion)* | Econ1.3a | Ffigwr cymharol busnesau Gwynedd sy'n goroesi yn flynyddol. |
| | Econ1.2a | Ffigwr cymharol busnesau wedi eu cofrestru ar gyfer TAW / PAYE. |
| | Econ1.1a | % cytundebau'r Cyngor sy'n mynd i fusnesau lleol. |
| | Econ1.1b | Nifer busnesau'r Sir sy'n ennill cytundebau gan y Cyngor. |
| | Econ1.1c | % busnesau a dargedwyd sy'n mynd ymlaen i dendro am waith y Cyngor. |
| | Econ1.1d | % cytundebau caffael y Cyngor dros £500k yn y maes adeiladwaith sydd yn cynnwys ac wedi gweithredu cymalau cymdeithasol perthnasol e.e. i sefydlu prentisiaethau etc. |
| | Econ1.2b | Nifer busnesau wedi eu cynghori trwy'r Rhaglen Cyflenwyr yn ennill cytundebau. |
| | Econ1.2/3a | Nifer swyddi wedi eu creu o ganlyniad i weithredu Prosiect Rhaglen Cyflenwyr Gwynedd. ~~a Phrosiect Tyfu Busnesau Cynhenid.~~ **ADDASIAD** |

| Blaenoriaeth | ECON2 - GWELLA ANSAWDD SWYDDI A LEFELAU CYFLOG |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Mae economi'r Sir yn parhau i gael ei nodweddu gan ddibyniaeth ar nifer gyfyng o sectorau, gyda'r sectorau hynny sy'n cael eu cyfrif gyda chyflogau uchel yn gymharol brin yn y Sir – dim ond 3.1% o weithwyr Gwynedd sydd yn y sectorau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnolegol.<br>• Dibyniaeth uchel ar sectorau sydd ar y cyfan gyda nifer uchel o swyddi rhan amser a chyflogau isel.<br>• Y Cyngor yn gweithredu yn rhagweithiol ar hyn o bryd gyda phartneriaid i sefydlu a gwreiddio sectorau gwerth uchel o fewn ac ar draws y Sir e.e. data a digidol, meddygol, a diwydiannau creadigol – sef sectorau sy'n cynnig lefelau cyflog uwch.<br>• Sefyllfa ymylol y Sir, a pheryg i dueddiadau "rhanbartholeiddio" arwain at symud y ffocws economaidd i'r dwyrain, a chyfleon swyddi da allan o'r Sir – felly heb ymyrraeth yr amrywiaeth sectorau a rhai gwerth uchel yn crebachu.<br>• Economi dymhorol gyda'r pegynnu rhwng swyddi ar gael yn Ionawr 2011/12 (gostyngiad 47%) a Gorffennaf 2011 / 12 (cynnydd 30.8%) yn dwysau.<br>• Rhwng Ionawr 2011 ac Ionawr 2012 bu gostyngiad o 47% yn y swyddi gweigion byw yng Nghanolfannau Gwaith y Sir, a'r sefyllfa yn gyson ar ei gwaethaf ym Meirionnydd<br>• Yn 2012 roedd lefelau cyflog llawn amser Gwynedd yn is nag ar gyfer Cymru na'r DG, ac fe welwyd cynnydd yn y bwlch.<br>• Cyflogau yn Nwyfor-Meirionnydd, yn gyson ymysg y gwaethaf ar draws holl etholaethau'r DG (y gwaethaf o bawb yn 2010).<br>• Oediad efo Wylfa B yn effeithio yn fuan ar dros 500 o weithwyr ar safle Atomfa Trawsfynydd, gyda pheryg o gynnydd mewn diweithdra ac allfudo, a cholled o £80m yn flynyddol o'r economi leol.<br>• Allfudo o'r Sir yn yr oed 20-34 wedi cynyddu i 14.7% yn 2010/11, a sgiliau/cymwysterau yn gadael yn sgil yr allfudo. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Mwy o swyddi gwerth uchel yn cael eu creu.**<br>**Mwy o amrywiaeth o waith, a swyddi ar draws y Sir.** |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol:<br><br>**Prosiect Swyddi Gwerth Uchel:**<br>• Cytuno efo'r Brifysgol ar raglen trosglwyddiad arloesedd o feysydd ymchwil penodol er mwyn uchafu'r potensial i fusnesau'r Sir. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Adnabod y cyfleon i fusnesau o arloesed mewn meysydd gwerth uchel a'u targedu.<br>• Sefydlu rhaglen ar gyfer cysylltu pobl Gwynedd efo cyfleon swyddi rhanbarthol yn deillio o fewnfuddsoddi.<br>• Parhau gyda'r gefnogaeth i sefydlu cwmnïau e.e. yn y sectorau Data, Digidol ac Uwchdechnoleg ar safleoedd Parth Menter Eryri.<br><br>**Prosiect Cynlluniau Cyflogaeth:**<br>• Gweithredu ymhellach ar brosiectau Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.<br>• Llunio dogfen Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd.<br><br>Byddwn hefyd yn datblygu cynigon er mwyn:<br><br>• Adeiladu ar gryfderau ac USP Gwynedd, gan roi sylw i ystod o sectorau er mwyn creu swyddi a sefydlu amrywiaeth o waith ar draws y Sir: yn 2013/14 sectorau Ynni Amgen, Diwydiannau Creadigol, a'r sector Treftadaeth.<br>• Darparu'r seiliau ar gyfer ennill statws Safle Treftadaeth y Byd i'r ardaloedd llechi, ynghyd â chynigion ar gyfer cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella amgylchedd y safle treftadaeth byd presennol (Glannau Menai).<br><br>Byddwn hefyd yn lobïo a dylanwadu yn wyneb datblygiad y Rhanbarth-drefi er mwyn sicrhau adnoddau cyllidol digonol i'r Sir ar gyfer sefydlu'r amodau priodol ar gyfer twf. | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | Econ2.1a | Canolrif cyflog y Sir. |
| | Econ2.1b | Nifer ~~a % y~~ rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau Proffesiynol, Gwyddonol, Technolegol, sy'n sectorau isel eu presenoldeb o fewn y Sir **ADDASIAD** |
| | Econ2.1bb | % rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau Proffesiynol, Gwyddonol, Technolegol, sy'n sectorau isel eu presenoldeb o fewn y Sir. **YCHWANEGIAD** |
| | Econ2.2a | Nifer swyddi newydd yn cael eu creu o fewn Ardaloedd Gwynedd. |

| Blaenoriaeth | ECON3 - GWELLA MYNEDIAD I WAITH AC YMATEB I RWYSTRAU |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Arolwg Busnes Gwynedd - 87.9% o'r busnesau sy'n datgan eu bod yn wynebu anawsterau recriwtio yn nodi fod hynny oherwydd diffyg sgiliau.<br>• Arolygon Busnes y Sir dros y 2 flynedd ddiwethaf yn nodi fod cyfartaledd o 19.6% gyda bylchau sgiliau o fewn eu gweithluoedd, gan gynnwys medrusrwydd yn y Gymraeg.<br>• Pobl ifanc Gwynedd yn adrodd eu bod yn ei chael yn anodd cael swyddi yn lleol, gan gynnwys graddedigion fyddai am weithio yn eu Sir enedigol.<br>• Wylfa B yn debygol o ddod gyda chyfleon swyddi ar draws sawl maes; Parth Menter Eryri yn creu cyfleon gwaith pellach e.e. yn y sector digidol a data; cyfleon newydd yn cael eu creu ym maes y diwydiannau creadigol trwy Ganolfan Pontio ac o bosib adleoli un o ganolfannau S4C - angen sicrhau fod pobl leol yn cael eu darparu i fanteisio ar y cyfleon gwaith.<br>• Ym Mehefin 2012 roedd 20,500 person oed gwaith yn economaidd anweithgar, cyfradd o 28% o'r boblogaeth oed gwaith, sy'n uwch na Chymru (26.8%) a'r DG (23.4%) - ond pwll gwirioneddol o oddeutu 2000 o bobl wedi cymryd allan y rhai na fyddent ar gael i weithio.<br>• Er bod cyfradd diweithdra Gwynedd yn gyson is na Chymru na'r DG, yn Ebrill 2012 roedd gwir ffigwr diweithdra yn 4,700.<br>• Amcangyfrifir fod arian Budd-daliadau yn cylchdroi oddeutu 5 gwaith yn yr economi leol, ac y byddai'r cyfyngiad cynnydd i 1% yn gyfwerth â cholled i economi Gwynedd o £5m-£6m yn flynyddol.<br>• Yng Ngorffennaf 2011 roedd 523 o swyddi gwag byw yn y Canolfannau Gwaith, o'i gymharu â 2,174 o'r ceiswyr gwaith sy'n hawlio JSA – y ffigwr uchaf ar gyfer unrhyw fis Gorffennaf ers 2002.<br>• Gyda'r diffyg swyddi sydd o fewn Canolfannau Gwaith y Sir, a'r pwyslais newydd ar symud rhai ar fudd-daliadau i waith, bydd cynnydd yn y nifer yn chwilio am y swyddi fydd ar gael, a pheryg i hynny arwain at gynnydd mewn allfudo (yn enwedig rhai efo sgiliau), a pheryg hefyd i'r rhai anweithgar o fewn y grwpiau mwyaf bregus fethu cystadlu am swyddi gan ddioddef toriadau i'w budd-daliadau. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Mwy o gyflogwyr y Sir yn gallu recriwtio pobl leol efo'r sgiliau cywir.**<br>**Mwy o bobl yn symud o fudd-daliadau i waith.** |

| | |
|---|---|
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn datblygu cynigion er mwyn:<br><br>• Sefydlu a gweithredu ystod o ymyraethau fydd yn datblygu'r sgiliau cywir ac yn cefnogi cyflogwyr y Sir i benodi gweithwyr lleol, gan roi sylw i feysydd prentisiaethau a hyfforddeion, broceriaeth swyddi a gyrfa, a hefyd bylchau cyflogaeth o fewn y Cyngor.<br>• Dod i gytundeb ar drefn o gomisiynu a darparu cynlluniau ar gyfer cael pobl o fudd-daliadau i waith yn y Sir a'r rhanbarth. |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | Byddwn yn mesur hyn wedi datblygu'r cynigion yn ystod 2013 / 14. |

| MAES - YR AMGYLCHEDD |
| --- |

| | |
| --- | --- |
| **Gweledigaethau Maes** | • Hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd<br>• Hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy gyda chysylltiadau hwylus |

| **Blaenoriaeth** | **AMG1 - HYBU CYFLENWAD ADDAS O DAI AR GYFER POBL LEOL** |
| --- | --- |
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Awgryma'r Cyfrifiad fod gan 1,396 (2.7%) o'r cartrefi yng Ngwynedd nifer annigonol o ystafelloedd gwely ar gyfer y math o deuluoedd sydd yn byw ynddynt.<br>• Mae 46% o'r ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestru Tai Cyffredin yn gymwys am gartref 1 stafell wely o'i gymharu gyda 20% sydd yn deuluoedd ac 21% o bobl sengl gyda phlant. (seiliedig ar wybodaeth mis Chwefror 2013).<br>• Mae 14.1% o gartrefi'r Sir heb breswylwyr, mae hyn yn cynnwys tai haf a thai gwag. Rhwng 2001 a 2011 bu cynnydd o 1,035 neu 13.9% yn y ffigyrau hyn.<br>• Mae bron i 65.4% yn berchen eu cartrefi, gyda 29.7% yn rhentu'n breifat neu'n gymdeithasol.<br>• Ceir 1,190 o unedau wedi derbyn caniatâd cynllunio ond heb ddechrau eu hadeiladu yn 2011/12. Efallai bod hyn yn arwydd o ddiffyg hyder yn yr economi.<br>• Pris canolrif ar gyfer tŷ yn 2011 oedd £132, 000 gyda chanolrif incwm yr aelwyd yn £23,278.<br>• Mae'r blaendal cyfartalog a roddir gan brynwyr am y tro cyntaf wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod rhwng 2000 a 2010 o tua £6,000 yn 2000 i tua £29,000 yn 2010.<br>• Dengys gwybodaeth o asesiad farchnad dai yn 2011 bod bwlch net blynyddol o 664 o dai. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Mwy o ddarpariaeth o unedau llai mewn llefydd ag angen.**<br>**Cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy:**<br>• Oddeutu 200 o unedau tai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd.<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth o unedau llai mewn llefydd ag angen.<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth o unedau tai fforddiadwy (53 yn ystod 2013/14).<br>• Cynnydd yn y nifer o unedau tai fforddiadwy sydd wedi eu sefydlu trwy'r drefn gynllunio.<br>• Cynnydd yn y ddarpariaeth tai ar gyfer pobl ag anghenion penodol. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiect Tai Gwag Nôl i Ddefnydd:**<br>• Dod â ~~95~~ **DILEU** 54 **ADDASIAD** o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd gan roddi pwyslais ar unedau llai. Yn ogystal bydd arian grant yn cael ei glustnodi i ddod a 10 o unedau tai gwag ychwanegol yn ôl i ddefnydd yn ystod Chwarter 1 2014/15. **YCHWANEGIAD**<br>**Prosiect Tai Fforddiadwy:**<br>• Sefydlu 53 o unedau tai fforddiadwy yn y Sir.<br>• Sefydlu os oes yna fodelau eraill y gellir eu gweithredu er mwyn darparu tai fforddiadwy yn y Sir ar gyfer y dyfodol (yn cynnwys Goresgyn rhwystrau Amodau 106, Model Cyllido gan y Cyngor, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ac Asiantaeth Gosod Cymdeithasol).<br><br>**Prosiect Cynllun Datblygu Unedol / Cynllun Datblygu Lleol:**<br>• Cynyddu'r nifer o unedau tai fforddiadwy sydd wedi eu sefydlu trwy'r drefn gynllunio o ganlyniad i bolisïau o fewn y Cynllun Datblygu Unedol.<br>• Cwblhau gwaith paratoadol i sicrhau bydd y Cynllun Datblygu Lleol, a fydd yn dod i rym yn 2016, yn gosod y fframwaith bolisi er mwyn gwireddu'r flaenoriaeth hwn.<br><br>**Prosiect Tai ar gyfer Anghenion Penodol:**<br>• Adnabod modelau amgen o ddefnydd tai gwarchod yn ardal Meirionydd.<br>• Adnabod opsiynau i leihau'r amser mae'n cymryd i gwblhau addasiadau anabl.<br>• Cynyddu'r gwaith adeiladu a chynllunio gofal Tai Gofal Ychwanegol Bangor.<br>• Rhoi Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yn ei le. | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | AMG1a | Nifer o unedau 1/2 lofft sydd wedi eu creu ar gyfer eu rhentu. |
| | DAT01 | Nifer eiddo gwag hir dymor yn y Sir (6 mis neu fwy) sy'n dod yn ôl i ddefnydd. |
| | CTC01 | % o'r ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestru Tai Cyffredin yn chwilio am uned lai i'w rhentu. |
| | Strat6 | Nifer o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd. |
| | PLA/006 | Nifer o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu darparu fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn. |
| | PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |

| Blaenoriaeth | AMG2 - LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON | |
|---|---|---|
| Pam fod hwn yn flaenoriaeth?<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Allyriadau carbon deuocsid wedi cynyddu o 9.2% yng Ngwynedd er 2006 a Gwynedd yw'r Sir sydd â'r ffigwr 9fed isaf o holl awdurdodau Cymru.<br>• Ymrwymiad o leihad o 3% y flwyddyn mewn allyriadau o nwyon tŷ gwydr o fewn Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru yn ogystal â tharged i sicrhau gostyngiad o leiaf 40% yn yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2020 yn erbyn gwaelodlin 1990.<br>• Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am 38.5% o allyriadau $CO_2$ yn deillio o'r defnydd o ynni mewn adeiladau sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y Sir. Gostyngiad o 17.23% wedi bod rhwng 2005/06 a 2011/12. | |
| Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?<br>*(Canlyniad)* | **Lleihad yn allyriadau carbon Cyngor Gwynedd a'r sector gyhoeddus yn y Sir:**<br>• Lleihad yn allyriadau carbon sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ffrydiau gwaith ynni mewn adeiladau annomestig a thrafnidiaeth.<br>• Gostyngiad o 30% yn allyriadau carbon y Cyngor erbyn diwedd 2014 / 15.<br>• Arbedion ariannol yn deillio o leihad yn y defnydd o danwydd.<br>• Gwelliant yn y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gwaith i leihau allyriadau carbon yn y sector gymunedol a phreifat yn y Sir. | |
| Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:<br><br>**Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor:**<br>• Gwireddu 10 cynllun pellach i ddod ag allyriadau carbon i lawr 5% pellach er mwyn cwrdd â tharged o leihad o 20% yn allyriadau carbon y Cyngor erbyn diwedd 2013/14. | |
| Sut fyddwn ni yn mesur hyn?<br>*(Mesuryddion)* | EEF/002 | % newid mewn allyriadau carbon yn y stoc adeiladau anomestig. |
| | CYNCA07 | % newid mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithiau busnes. |

| Blaenoriaeth | ~~**AMG3 - YMATEB I FYGYTHIADAU NEWID HINSAWDD**~~ **DILEU Y FLAENORIAETH GYFAN** |
|---|---|
| Pam fod hwn yn flaenoriaeth?<br>*(Y Dystiolaeth)* | • ~~Mae Gwynedd wedi ei hadnabod fel ardal lle mae oddeutu 12,000 o'i thrigolion (ynghyd ag isadeiledd hanfodol) yn byw mewn perygl o lifogydd.~~<br>• ~~Ar lefel Cymru 3ydd uchaf o safbwynt nifer o'r trigolion sydd mewn perygl o lifogydd ac o safbwynt eiddo yn 2il uchaf.~~<br>• ~~17 o orsafoedd neu is orsafoedd trydan, 9 canolfan ymateb brys, 23 o weithfeydd trin carthion / dŵr, 1 adeilad cyfnewidfa ffon a 66 cilomedr o briffyrdd yng Ngogledd Orllewin Cymru mewn perygl o lifogydd (1% siawns bob blwyddyn).~~ |

| | |
|---|---|
| | ~~• Fel rhan o'r Prosiect Rheoli Risg Llifogydd o fewn y Cynllun Strategol presennol (a'r Cynllun 3 Blynedd flaenorol) fe adnabuwyd 8 cymuned o fewn y Sir fel rhai gyda risg uchel o lifogydd. Mae gwaith cychwynnol wedi ei wneud o fewn y cymunedau hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth trigolion o lifogydd a'r camau y gallant eu cymryd er mwyn lleihau'r risg.~~<br>~~• Achosion o lifogydd wedi codi yn ystod y misoedd diwethaf mewn ardaloedd sydd heb eu hadnabod fel bod a risg uchel o lifogydd megis Llanberis.~~<br>~~• Fel awdurdod llifogydd arweiniol mae'n angenrheidiol i'r Cyngor baratoi adroddiad i ganfod y rheswm ym mhob achos sy'n codi ymhle y mae cartref wedi ei lifogi. Nid oes trefn bresennol yn bodoli ar gyfer cofnodi'r digwyddiadau hyn ond yn dilyn y llifogydd ym mis Tachwedd mae dros 200 o adroddiadau wedi eu cynhyrchu ac wedi eu rhannu i bartneriaid perthnasol fel eu bod yn gallu ystyried camau ar gyfer ymateb.~~ |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **~~Ymatebion i fygythiadau newid hinsawdd yn y tymor hir wedi eu hadnabod:~~**<br>~~• Trigolion a'r holl asiantaethau perthnasol yn gliriach ynglŷn â beth fydd dyfodol rhai o'r ardaloedd hynny sydd dan fygythiad go iawn yn yr hir dymor a bod hynny yn bwydo polisïau perthnasol.~~<br><br>**~~Cynnydd yn y nifer o drigolion sy'n byw mewn ardaloedd a risg uchel o lifogydd hefo 'cynllun' i ymateb i achlysuron o lifogydd:~~**<br>~~• Cynnydd yn y nifer o bobl yr ymgysylltwyd â hwy i godi ymwybyddiaeth o risg llifogydd ac sydd wedi derbyn cymorth i adnabod camau ymarferol er mwyn lleihau risg llifogydd.~~<br>~~• Cynnydd mewn lefelau ymwybyddiaeth o lifogydd ymysg trigolion.~~<br>~~• Cynnydd yn y nifer o unigolion hefo 'cynlluniau' mewn lle i ymateb i achlysuron o lifogydd yn dilyn y gwaith ymgysylltu.~~<br><br>**~~Gwelliant yng ngallu'r Cyngor i ymateb er mwyn cynorthwyo trigolion i ddelio gyda sgil effeithiau achlysuron o lifogydd:~~**<br>~~• Gwelliant ym mharodrwydd y Cyngor i allu ymateb i argyfwng llifogydd.~~ |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | ~~Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:~~<br><br>**~~Prosiect Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd:~~**<br>~~• Adnabod ymatebion i fygythiadau newid hinsawdd yn y tymor hir trwy sefydlu opsiynau datblygu ac anghenion isadeiledd ar gyfer y dyfodol yn ardal Pwllheli gan ddefnyddio gwaith sydd eisoes wedi ei gynnal i edrych ar oblygiadau tebygol newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol fel sail i'r gwaith hynny.~~ |

| | |
|---|---|
| | • ~~Gwella ymwybyddiaeth ymysg trigolion sy'n byw mewn ardaloedd â risg uchel o lifogydd trwy gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu.~~<br>• ~~Gwella gallu'r trigolion i ymateb i achlysuron o lifogydd trwy eu cynorthwyo i adnabod camau ymarferol a chynlluniau y gallant eu cymryd er mwyn atal neu liniaru effeithiau tebygol ar eiddo.~~<br><br>• ~~Gwella trefniadau mewnol y Cyngor er mwyn cynorthwyo trigolion i ddelio gyda sgil effeithiau achlysuron o lifogydd trwy adnabod bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd, adolygu trefniadau mewnol er mwyn ymateb i'r bylchau a sicrhau gwell trefn ar gyfer cofnodi achlysuron o lifogydd.~~<br>• ~~Ystyried cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol i leihau'r tebygolrwydd y byddai achosion o lifogydd yn cael effaith ar drigolion.~~ |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | • ~~% o unigolion hefo 'cynlluniau' mewn lle i ymateb i achlysuron o lifogydd yn dilyn y gwaith ymgysylltu.~~<br>• ~~% o swyddogion allweddol y Cyngor sy'n adrodd gwelliant ym mharodrwydd y Cyngor i ymateb i fygythiad llifogydd.~~ |

| **Blaenoriaeth** | **AMG3 - LLEIHAU FAINT O WASTRAFF SY'N MYND I'W DIRLENWI ADDASIAD** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • 48.1% o wastraff bwrdeistrefol y Sir wedi ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod 2011/12, sef y 14eg uchaf yng Nghymru. Mae'r ffigwr hwn yn cymharu â 50.0% ar gyfer Cymru. Mae'r 51.9% o'r gwastraff bwrdeistrefol sy'n weddill yng Ngwynedd wedi mynd i'w dirlenwi, sydd yr 20fed uchaf yng Nghymru.<br>• Targed i ailddefnyddio ac ailgylchu / compostio 58% o holl wastraff bwrdeistrefol erbyn Mawrth 2016 a 64% erbyn Mawrth 2020.<br>• Mae'r cyfanswm gwastraff y gellir ei dirlenwi wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd yn gostwng ymhellach erbyn 2020 pryd y bydd lefel cyfanswm gwastraff y gellir ei dirlenwi yn cael ei osod ar 10%.<br>• Angen cynyddu'r lefelau o wastraff bwyd a gesglir er mwyn darparu'r 7,500 tunnell o wastraff bwyd y mae'r Cyngor wedi cytuno i'w ddarparu i'r cwmni sy'n rhedeg y cyfleuster GwyriAD.<br>• Angen cynyddu lefelau cyfranogaeth ymysg trigolion y Sir o safbwynt ailgylchu a chompostio gwastraff bwyd – lefelau cyfranogaeth presennol compostio gwastraff bwyd rhwng 35 a 38%. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Cynyddu lefelau ailddefnyddio / ailgylchu / compostio.**<br>**Lleihau ein dibyniaeth ar dirlenwi:**<br>• Cynnydd yn y % o wastraff bwrdeistrefol a ailddefnyddir / ailgylchir / compostir i lefel o 58% erbyn diwedd 2015/16. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cynnydd yn y % o wastraff masnachol a ailddefnyddir/ailgylchir/compostir i lefel o 50% erbyn diwedd 2016/17.<br>• Lleihad yn y % gwastraff a yrrir i'w dirlenwi.<br>• Sicrhau y cedwir o fewn y lwfans tirlenwi blynyddol a ddynodir ar gyfer y Sir.<br>• Cynnydd yn % eiddo domestig sy'n defnyddio'r gwasanaeth casglu bwyd wythnosol<br>• Cynnydd mewn lefelau gwastraff bwyd a gompostir yn flynyddol i o leiaf 7,500 tunnell erbyn 2014/15. | |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:<br><br>**Prosiect Lleihau Gwastraff:**<br>• Cynyddu lefelau ailddefnyddio / ailgylchu / compostio yn unol â'r targedau a osodwyd ar gyfer gwastraff bwrdeistrefol a masnachol a lleihau'r gwastraff a yrrir i'w dirlenwi.<br>• Penderfynu ar drefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol yng Ngwynedd yn y tymor byr.<br>• Penderfynu ar ddull amgen o ymdrin â gwastraff gweddilliol yn hytrach na'i dirlenwi yn y tymor canolig a'r hir dymor trwy weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>**(Mesuryddion)** | WMT/009 | % gwastraff bwrdeistrefol a ailddefnyddir / ailgylchir / compostir. |
| | PB51 | % gwastraff masnachol a ailddefnyddir / ailgylchir / compostir. |
| | WMT/004 | Gwastraff a dirlenwir. |
| | PB60 | Lwfans Tirlenwi. **YCHWANEGIAD** |
| | PB53 | % eiddo domestig sy'n defnyddio'r gwasanaeth casglu bwyd wythnosol. |
| | PB55 | Cyfanswm gwastraff bwyd a gompostir. |

| MAES - CYMUNEDAU CRYF |
| --- |

| | |
| --- | --- |
| **Gweledigaethau Maes** | • Cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg<br>• Lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd |

| **Blaenoriaeth** | **CC1 - HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG** |
| --- | --- |
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Lleihad o 846, sef 3.6% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Yn 2001, roedd 69% (77,846) o bobl Gwynedd 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu â 65.4% (77,000) yn 2011<br>• Mae 70% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg mewn 40 o'r 71 ward etholiadol yng Ngwynedd. Mae hyn yn cymharu gyda 42 allan o 71 yn 2001, a chyda 61 allan o 77 ward etholiadol yn 1991.<br>• Llai o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol / cymdeithasol gyda data sampl mewn 15 ysgol gynradd yn 2009 yn dangos bod dim ond 38% o blant yn dweud eu bod yn defnyddio'r iaith ar fuarth yr ysgol o'i gymharu â 70% yn y dosbarth.<br>• Amrywiaeth o ran polisïau iaith cyrff ac asiantaethau cyhoeddus o fewn y Sir. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Atal y dirywiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd**:<br>• Cynnal y nifer o gymunedau'r Sir sydd â 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.<br>• Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol.<br>• Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br>• Cryfhau ymhellach y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion.<br>• Sicrhau sylw safonol i'r iaith Gymraeg mewn trafodaethau partneriaethol / cydweithio. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:<br><br>**Prosiect Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg:**<br>• Sefydlu dealltwriaeth ymchwil o'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y Gymraeg mewn cymunedau penodol yng Nghyfrifiad 2011.<br>• Cefnogi 3 chymuned i ddefnyddio'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg gyda chynlluniau gweithredu yn eu lle yn sgil hynny.<br>• Rhoi sylw amlycach i'r ôl-ofal a ddarperir i ddysgwyr y Gymraeg ar ôl iddynt ddychwelyd i'w Hysgolion Cynradd o'r canolfannau iaith.<br>• Cefnogi 102 o Ysgolion Cynradd y Sir i weithredu Gwobr Efydd, y Siarter Iaith i gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cydweithio gyda'r 14 Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd i sefydlu gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.<br>• Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ran cyfrwng dysgu plant 7 oed, sgiliau iaith wrth drosglwyddo o gynradd i uwchradd a dewis cyfrwng iaith yn 14-16 oed gan dargedu sylw yn ôl angen.<br>• Ceisio cytundeb drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i sefydlu gwaelodlin a datblygu rhagor o weithleoedd dwyieithog o fewn Unedau ac Adrannau cyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu yng Ngwynedd.<br>• Gwerthuso'r Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr.<br>• Lobïo Llywodraeth Cymru i gwblhau'r gwaith o ddiwygio canllaw Cynllunio TAN20, i osod y Gymraeg ar sail gadarnach fel ystyriaeth gynllunio.<br>• Gweithredu ar ofynion Blwyddyn 1 "Mwy na Geiriau" i wella profiadau a chanlyniadau i ddefnyddwyr drwy wella darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Sicrhau y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r iaith Gymraeg yn y polisïau ac yn y cynigion gofodol yn ymwneud a gwasgaru twf a datblygiadau tai. | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | CC1a | Y nifer o gymunedau sydd yn gweithredu o blaid y Gymraeg trwy ddefnyddio'r Fframwaith Gweithredu Lleol. |
| | CC1b | Y nifer o ysgolion cynradd Gwynedd sydd wedi derbyn gwobrau Efydd, Arian ac Aur o dan y Siarter Iaith. |
| | ~~CC1c~~ | ~~Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant Ysgolion Cynradd~~ **DILEU** |
| | GY06 | % o ddisgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch [lefel 3 ysgrifennu yn y Gymraeg] yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed). |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **CC2 - LLEIHAU EFFAITH TLODI AC AMDDIFADEDD** |
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Lefelau Incwm Isel o fewn y Sir gyda 2 o bob 5 aelwyd yng Ngwynedd yn byw mewn tlodi cymharol gyda chyflogau llawn-amser 20.9% yn is na'r Deyrnas Gyfunol a 13.6% yn is na Chymru, gyda Meirion a Dwyfor yn is eto. Mae incwm aelwydydd wedi gostwng 10.1% rhwng 2009 â 2012 (6.1% yng Nghymru).<br>• Tystiolaeth o gartrefi anaddas a thlodi tanwydd gyda (38.6%) o gartrefi Gwynedd mewn perygl o dlodi tanwydd.<br>• Deddfwriaeth i ddiwygio'r Gyfundrefn Les yn golygu colledion yn incwm rhai sydd yn derbyn budd-daliadau gwahanol: |

| | |
|---|---|
| | * 10 - dechrau newid i'r Taliadau Annibyniaeth Personol<br>* 40 - newid i'r "Cap" Budd-dal wythnosol<br>* 1,350 – cyflwyno rheolau tan-feddiannu<br>* 4,800 - newid pellach i'r Taliadau Annibyniaeth Personol<br>* 11,500 - trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol (Rhagdybiaeth Ddigidol)<br>* 11,500 - newid posib i'r Rheolau Treth Cygnor<br>(DS Mae dyddiadau pendant ar gyfer pob un o'r newidiadau hyn er bod ansicrwydd am yr olaf ohonynt).<br>• Er bod y duedd ar y cyfan ar i lawr led led Cymru, bu cyfradd aelwydydd digartref Gwynedd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod 5 o'r 11 mlynedd diwethaf – a hynny cyn dyfodiad y dreth ar lofftydd o dan y drefn Budd-daliadau newydd. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Mwy o bobl yn gallu ymdopi efo'r her ariannol yn annibynnol.**<br>**Llai o bobl yn cael eu derbyn yn ddigartref.**<br>**Llai o gartrefi yn profi tlodi tanwydd.**<br>~~**Mwy o unigolion a chymunedau bregus yn derbyn cefnogaeth briodol i symud ymlaen**~~. **DILEU** |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiectau canlynol:<br><br>**Prosiect Diwygio Lles:**<br>• Cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, a chynorthwyo hawlwyr y *Credyd Cynhwysol* a'r taliad anabledd newydd i ddelio yn annibynnol efo'r newid yn y Budd-daliadau Lles.<br>• Hyfforddi staff Siopau Un Stop y Cyngor ar sut i ddelio efo cwestiynau hawlwyr a'u cyfeirio ymlaen yn effeithiol.<br>• Sefydlu rhaglen i gynyddu cynhwysedd digidol a galluogi trigolion i gael mynediad at wasanaethau ar-lein.<br>• Rhoi mynediad i hawlwyr y Credyd Cynhwysol ar draws y Sir at ddarpariaeth ddigonol o gyfrifiaduron a chefnogaeth sgilio ar gyfer defnyddio systemau'r Adran Gwaith a Phensiynau.<br>• Cefnogi oddeutu 240 o gartrefi i dderbyn cefnogaeth ariannol i bontio'r diffyg yn y Budd-dal Tai o ganlyniad i'r Dreth Llofftydd.<br><br>**Prosiect Lesu Tai Preifat:**<br>• Targedu, lesu, gweinyddu a rheoli 70 o unedau sector breifat er mwyn lleihau'r nifer fyddai fel arall yn ddigartref. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Prosiect Atal Digartrefedd:**<br>• Arbed a chynnal 40 o denantiaethau bregus.<br>• Rhoi cymorth i oddeutu 50 o deuluoedd i atal digartrefedd.<br>• Darparu 7 uned newydd ar gyfer rhai fyddai fel arall yn cael eu lleoli mewn gwely a brecwast, a pharatoi preswylwyr yr unedau yn well ar gyfer llety mwy parhaol.<br>• Cwblhau astudiaeth opsiynau fel bo'r Cyngor yn glir ar ei ddewisiadau o ran buddsoddi i gynyddu cyflenwad eiddo maint addas.<br><br>Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn:<br><br>• Datblygu mesurau priodol i gynorthwyo pobl mewn angen trwy leihau'r nifer cartrefi sy'n profi tlodi tanwydd, gan gyfrannu at leihau effaith tlodi ac amddifadedd mewn lleoliadau ar draws y Sir.<br>• ~~Gosod y sail ar gyfer sefydlu trefn gydlynus i ddarparu cefnogaeth i unigolion a chymunedau bregus, ynghyd â chynlluniau cymdeithasol priodol i gynorthwyo pobl i gael dau ben llinyn ynghyd~~. **DILEU** | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | CC2.1a | Nifer ~~a %~~ rhai yn derbyn cyngor yn mynd i ddyled. **ADDASIAD** |
| | CC2.1aa | % rhai yn derbyn cyngor yn mynd i ddyled. **YCHWANEGIAD** |
| | CD12.05 | Nifer o deuluoedd sydd wedi derbyn Cymorth o'r gronfa Taliadau Tai Dewisol. |
| | HHA/013 | % Cartrefi digartref posib lle'r ataliwyd digartrefedd am o leiaf 6 mis. |
| | HHA/016 | Cyfartaledd nifer diwrnodau mae pob teulu digartref gyda phlant wedi ei dreulio mewn llety wely a brecwast. |
| | GTLLEOL6 | Nifer pobl wedi derbyn cymorth o'r Gronfa Atal Digartrefedd trwy flaendal rhent a/neu daliad rhent ymlaen llaw. |
| | Ar gyfer y gwaith datblygol, byddwn yn mesur hyn wedi datblygu'r cynigion yn ystod 2013 / 14. | |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **CC3 - HYBU CYMUNEDAU GWLEDIG CYNALIADWY** |
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Cylch anfad awdurdodau gwledig o ddirywiad cymharol economaidd, diboblogi, adnoddau cyhoeddus llai a mynediad i wasanaethau yn gwaethygu.<br>• 18 o gymunedau Sirol (LSOA) o fewn y 10% isaf yng Nghymru o ran mynediad i wasanaethau yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog (42 cymuned yn y 30% isaf).<br>• Patrwm o ganoli gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol a Sirol.<br>• Patrymau gwasanaeth cyhoeddus hanesyddol sydd ddim yn addas i'r cyfnod. |

| | |
|---|---|
| | • Tra bo poblogaeth gyffredinol y Sir wedi codi rhwng 2001 a 2011, roedd patrwm o ddirywiad cyffredinol yn y boblogaeth 0-15 (yn arbennig yn yr ardaloedd arfordirol o -14.6%) a 25-44 (yn arbennig yn yr ardaloedd arfordirol o -13.4% a gwledig o -10.2%). Roedd twf sylweddol, ar draws y Sir (heblaw Bangor) yn y boblogaeth 65+), gyda'r ffigwr Sirol yn +13.2% |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?** *(Canlyniad)* | **Lleihau'r dirywiad cymharol mewn adnoddau cyhoeddus i'r Cyngor oherwydd natur wledig y Sir.** **Gwella cynaliadwyedd gwasanaethau'r Cyngor mewn ardaloedd gwledig.** |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?** *(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn:<br>• Lobïo'r Gweinidogion a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cylch anfad.<br>• ~~Cynnal peilot i asesu cyfleon i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gwledig~~. **ADDASU I** Cefnogi adolygiad y pwyllgor craffu i gynaliadwyedd gwasanaethau gwledig.<br>• Amlygu amddifadedd gwledig yn well fel sail lobïo.<br>• Manteisio yn llawn ar gyfleon 'Cyflymu Cymru' (cysylltiadau digidol). |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?** *(Mesuryddion)* | Byddwn yn datblygu mesuryddion wrth ddatblygu'r cynigion yn ystod 2013 / 14. |

| **Blaenoriaeth** | **CC4 – HYBU BALCHDER A CHYFRIFOLDEB CYMUNEDOL** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?** *(Y Dystiolaeth)* | • Gyda galw cynyddol ar wasanaethau ac adnoddau'n lleihau, mae angen i'r Cyngor mynd i'r afael â defnyddio capasiti unigolion a chymunedau er mwyn sicrhau ceir gwasanaethau sy'n gynaliadwy. Mae ymchwil yn dangos fod modd cyflawni hyn trwy:<br>* Gefnogi mwy o unigolion i symud o fod yn dderbynnydd gwasanaeth goddefol i fod yn gyfranogwr gweithredol sydd yn gwneud mwy dros eu hunain.<br>* Gefnogi mwy o bobl i fod yn rhan o siapio eu cymunedau.<br>* Alluogi mwy o bobl i wirfoddoli eu hamser i gynorthwyo eraill a drwy wneud hynny cryfhau cyfalaf cymdeithasol o fewn eu cymunedau ynghyd â'r rhwydwaith cymdeithasol i unigolion.<br>* Wneud gwell defnydd o asedau yn y gymuned.<br>* Newid meddylfryd y Cyngor o fod yn fodel gwasanaeth sydd yn seiliedig ar ddiffyg, i fodel yn seiliedig ar asedau sydd yn golygu mwy o waith yn y gymuned. |

| | |
|---|---|
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Rhyddhau capasiti a hybu balchder lleol:**<br>• Mwy o wirfoddolwyr.<br>• Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau'r Cygnor.<br>• Mwy o weithgareddau cymunedol.<br>• Cyrhaeddiad a chyfranogiad gwell mewn gwasanaethau ataliol.<br>• Llai o unigrwydd, a mwy o rwydweithiau cymdeithasol i bobl fregus.<br>• Gwell defnydd o asedau cymdeithasol.<br>Ynghyd â'r uchod ceir effaith cyffredinol o leihau'r galw ar wasanaethau'r Cyngor a chryfhau gwytnwch unigolion a chymunedau. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn:<br><br>• Mapio gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd.<br>• Ymchwilio i'r meysydd rheoli galw sydd am elwa o'r dull.<br>• Asesu cyfleoedd i baratoi adnoddau, ar y cyd gyda phartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r cynllun ble mae gwir angen.<br>• ~~Cynnal peilot balchder cymunedol mewn ardaloedd er mwyn dysgu beth sydd yn gweithio~~. **DILEU**<br>• Datblygu a gweithredu rhaglen i newid meddylfryd rheolwyr i dderbyn y dull hwn o ganlyniadau gwasanaeth ble'n briodol. |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | • ~~Nifer o weithgareddau cymdeithasol wedi eu cynnal yn ardaloedd balchder cymunedol~~. **DILEU**<br>• ~~Nifer o wirfoddolwyr wedi cofrestru yn ardaloedd balchder cymunedol~~. **DILEU** |

| MAES – DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR |
|---|

| **Gweledigaeth Maes** | • Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud |
|---|---|

| **Blaenoriaeth** | **DT1 – HYBU DIWYLLIANT DRWY'R CYNGOR CYFAN O ROI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I'N HOLL WAITH A'N PENDERFYNIADAU** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Dim ond 43% o drigolion yn nodi eu bod yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg pethau (arolwg Mori, 2009).<br>• Dim ond 44% o aelodau panel trigolion yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg pethau (arolwg barn, 2012).<br>• 42% o drigolion Gwynedd yn rhoddi sgôr o 7 neu lai i'r Gofal Cwsmer a dderbyniwyd (arolwg maes gyda 590 o drigolion, 2012).<br>• Tystiolaeth o'r ymyrraethau systems a gynhaliwyd yn amlygu bod gennym staff ymroddgar sy'n dymuno gwneud y gorau ar gyfer y dinesydd ond mae nifer o bethau eraill yn torri ar draws y dyhead yma.<br>• Canfyddiad ymysg aelodau a staff yw nad ydym yn treulio digon o amser yn ystyried beth sydd yn bwysig i'r dinesydd (grwpiau ffocws gyda staff, rheolwyr ac aelodau, 2012).<br>• Diffyg defnydd o ddata cwsmeriaid wrth benderfynu ar flaenoriaethu a dylunio gwasanaeth.<br>• Yn ystod y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda staff, rheolwyr ac aelodau etholedig , amlygwyd nifer o faterion sydd angen sylw os yw'r Cyngor o ddifrif am roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor (a elwir yn "Ffordd Gwynedd") ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Gan sicrhau gwreiddio'r weledigaeth honno drwy'r Cyngor. Fel rhan o hyn bydd angen sicrhau:**<br>• Arweinyddiaeth sy'n amlygu bod "Ffordd Gwynedd" yn bwysig ac yn cynnal y weledigaeth.<br>• Rheolwyr sydd yn y gwaith yn grymuso staff i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ac edrych am ddulliau o wyro'r galw am ein gwasanaethau: yn deall anghenion cwsmeriaid a chael gwared â rhwystrau.<br>• Staff wedi eu grymuso i weithio'n hyblyg i gyflawni anghenion y cwsmer ac i fynd ar ôl cyfleoedd i ddileu galw am wasanaethau.<br>• Trefniadau llywodraethu cadarn sy'n selio penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn o'r effaith ar bobl Gwynedd<br>• Cyfundrefn perfformiad sydd yn mesur sut yr ydym yn effeithio bywydau pobl Gwynedd.<br>• Trefniadau darparu gwasanaeth sydd yn creu gwerth i'r cwsmer ac i bobl Gwynedd yn ehangach. |

| | |
|---|---|
| | • Cyfundrefnau cyflogaeth sy'n arfogi staff ac yn atgyfnerthu ymddygiadau er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog.<br>• Polisïau sy'n hyrwyddo cefnogi cyflawni anghenion ein pobl, yn hytrach na chreu rhwystrau. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:<br><br>**Prosiect Ffordd Gwynedd:**<br>• Mabwysiadu Strategaeth Ffordd Gwynedd ynghyd â'r Rhaglen Ddatblygu Ffordd Gwynedd, fydd yn sicrhau fod yr amcanion hir dymor a nodir uchod yn cael eu gwireddu, gan ddechrau ar y gwaith o'u gweithredu drwy gyflawni'r isod yn ystod y flwyddyn gyntaf:<br><br><u>Arweinyddiaeth sy'n amlygu bod "Ffordd Gwynedd" yn bwysig</u><br>• Sicrhau fod holl uwch arweinwyr y Cyngor yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd.<br>• Sefydlu Rhaglen Ddatblygu Arweinwyr a sicrhau ei fod yn barod i'w gweithredu.<br><br><u>Rheolwyr sydd yn y gwaith yn grymuso staff a staff wedi eu grymuso</u><br>• Llunio Rhaglen Ddatblygu Ffordd Gwynedd ynghyd â'r marc siartr fydd yn cael ei ddyfarnu o fod yn gweithredu Ffordd Gwynedd yn llawn.<br>• Cychwyn peilot ymarferol i brofi'r Rhaglen Ddatblygu mewn 3 Uned Gwaith.<br>• Darparu hyfforddiant i 30 o reolwyr ar ddull cymhelliant o reoli.<br>• Sicrhau fod holl reolwyr y Cyngor yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd a rôl rheolwyr yn y gyfundrefn newydd.<br><br><u>Trefniadau llywodraethu cadarn</u><br>• Sicrhau fod rôl craffu yn cael ei atgyfnerthu er mwyn canolbwyntio ar effaith gwasanaethau ar ein dinasyddion.<br><br><u>Cyfundrefn perfformiad addas</u><br>• Adolygu'r cyfundrefn mesur perfformiad i sicrhau ei fod yn mesur yr effaith yr ydym yn ei gael ar bobl Gwynedd.<br>• Darparu hyfforddiant i'r Coleg Uwch Reolwyr ar y gyfundrefn ddiwygiedig.<br>• Llunio cyfundrefn ar gyfer defnyddio cwynion i wella gwasanaethau a dechrau ei weithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Trefniadau darparu gwasanaeth addas</u><br>• Llunio Achos Busnes diwygiedig ar gyfer Siop Gwynedd a'r Ganolfan Alw er mwyn sicrhau uchafir eu buddion ac yn arbennig yng nghyswllt y gallu i ddatrys ar y pwynt cyswllt cyntaf.<br>• Adolygu oriau agor sefydliadau dros y Nadolig gan arbrofi gyda threfn newydd.<br>• Adolygu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth er mwyn adnabod cynlluniau allasai helpu gwasanaethau ei ddefnyddio'n well i gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd.<br>• Ymestyn y nifer o wasanaethau y gellir defnyddio hunan wasanaeth ar eu cyfer.<br>• Sicrhau fod prosiectau newid mwyaf yn cyflawni'n well drwy sicrhau cefnogaeth briodol.<br><br><u>Cyfundrefnau cyflogaeth addas</u><br>• Adolygu'r cyfundrefnau cyflogaeth ac yn benodol y drefn benodi a gwerthuso, i sicrhau eu bod yn atgyfnerthu egwyddorion "Ffordd Gwynedd".<br><br><u>Polisïau Priodol</u><br>• Cynnal adolygiad o raglen hyfforddiant y Cyngor gan gytuno unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol. | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | CYSCW12 | Nifer o unedau gwaith o fewn y Cyngor sydd wedi derbyn marc siartr lawn "Ffordd Gwynedd". |
| | CYSCW13 | Nifer o adolygiadau parhaus wedi eu cynnal er mwyn darparu gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd. |
| | CYF09 | % o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau. |
| | CYSCW15 | % o drigolion Gwynedd sydd yn rhoddi sgôr o 7 neu lai i'r gofal cwsmer a dderbyniwyd. |
| | D6.22 | % staff ac aelodau sydd yn credu bod arweinwyr Cyngor Gwynedd yn arddel egwyddorion "Ffordd Gwynedd". |
| | D6.23 | % o staff yn datgan eu bod yn teimlo eu bod wedi eu grymuso i weithio'n hyblyg i gyflawni anghenion y cwsmer. |
| | CYF11 | % o drigolion Gwynedd sydd yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian. |
| | ~~DT1.2~~ | ~~% mesuryddion gwerth am arian o fewn unedau sydd yn gwella.~~ **DILEU** |
| | CYSCW11 | Nifer gwasanaethau sydd ar gael drwy hunan wasanaeth. |
| | CYSCW05 | % ceisiadau am wasanaeth sydd yn cael eu cyfarch yn syth gan ~~Siop /~~ Galw Gwynedd. **ADDASIAD** |
| | CYSCW06 | % ceisiadau am wasanaeth sydd yn cael eu cyfarch yn syth gan Siop Gwynedd. **YCHWANEGIAD** |

| | |
|---|---|
| | ** D.S. Mae posibilrwydd gall y mesuryddion newid, yn arbennig os oes mesur mwy addas i'w gael o'r arolwg barn staff. Bwriedir cynnal arolwg yn ystod yr haf er mwyn canfod barn staff ac aelodau ac felly gosod gwaelodlin fel bod modd mesur llwyddiant yr ymyraethau cyn diwedd cyfnod y cynllun.* |

| **Blaenoriaeth** | **DT2 - YMGYSYLLTU'N EFFEITHIOL Â PHOBL GWYNEDD A SICRHAU EU CYFRANOGAETH A'U PERCHNOGAETH O'R DYFODOL** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Dim ond 37% o drigolion sydd yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal (arolwg Mori, 2009).<br>• 43% o drigolion Gwynedd yn nodi eu bod yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg pethau - o'i gymharu gyda 45% o fewn ein cymdogion ystadegol, (arolwg Mori, 2009).<br>• 63% o drigolion yn teimlo nad oedd yn bosib iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal - o'i gymharu gyda 73% yn ein cymdogion ystadegol (arolwg Mori, 2009).<br>• 29% o drigolion yn nodi byddent yn hoffi cael mwy o lais yn y penderfyniadau oedd yn effeithio eu hardal - gyda 59% pellach yn nodi byddai'n ddibynnol ar y mater dan sylw (arolwg Mori, 2009). |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Trefniadau ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sydd o bwys i bobl Gwynedd ac er mwyn medru blaenoriaethu ein hadnoddau'n briodol:**<br>• Mwy o drigolion Gwynedd yn teimlo ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol.<br>• Mwy o drigolion Gwynedd sydd wedi cymryd rhan er mwyn dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o fewn y Sir.<br>• Mwy o ymarferion ymgysylltu wedi arwain at ddylanwadu ar y cynllun terfynol.<br>• Aelodau etholedig yn fodlon gyda threfniadau ymgysylltu'r Cyngor. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn gweithredu'r prosiect canlynol:<br><br>**Prosiect Ymgysylltu:**<br>• Mabwysiadu'r Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer y cyfnod 2013-16 er mwyn gwella trefniadau ymgysylltu ar draws y Cyngor. Drwy weithredu'r Strategaeth, rhagwelir cwblhau'r isod yn ystod y flwyddyn:<br>• Sefydlu Bwrdd Rheoli Ymgysylltu i oruchwylio trefniadau ymgysylltu ar draws y Cyngor gan sicrhau bydd unrhyw wersi da neu ddrwg yn cael eu lledaenu ar draws y Cyngor.<br>• Creu Llawlyfr Ymgysylltu a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o'r llawlyfr.<br>• Adnabod yr unigolion sydd yn gyfrifol am ymgysylltu a chydweithio i wella eu sgiliau.<br>• Ceisio sicrhau adnodd i gefnogi a rhoi cymorth i reolwyr ynglŷn â'r maes ymgysylltu, yn ogystal â sicrhau ansawdd ar brosiectau allweddol. **ADDASIAD** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Rhoi trefniadau ar waith i asesu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu.<br>• Sefydlu Fforwm Ymgysylltu. | |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | CYF10 | % o drigolion Gwynedd yn teimlo ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. |
| | DT2.2 | Faint o drigolion Gwynedd sydd wedi cymryd rhan er mwyn dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o fewn y Sir. |
| | DT2.3 | Faint o'r ymarferion ymgysylltu sydd wedi arwain at ddylanwadu ar y cynllun terfynol. |
| | DT2.4 | Beth yw ymdeimlad aelodau etholedig yn eu cyfanrwydd o'r trefniadau ymgysylltu ar ddiwedd y cyfnod? |

| **Blaenoriaeth** | **DT3 - GWNEUD DEFNYDD MWY EFFEITHLON O ADNODDAU, GAN GEISIO LLEIHAU EFFAITH TORIADAU AR BOBL GWYNEDD** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Strategol hwn. Mae'r Strategaeth yn rhagweld y bydd bwlch o dros £32m rhwng anghenion gwariant y Cyngor a'r incwm ddaw o grant y Llywodraeth erbyn diwedd y cyfnod. Hyd yn oed o ragdybio cynnydd gweddol uchel yn y Dreth Gyngor (3.5% y flwyddyn) mae'r bwlch yn dal i fod bron yn £25m.<br>• Mae'n anorfod fod tafluniadau o'r math yma yn 'amcangyfrifon gorau' yn hytrach na ffigyrau pendant, yn enwedig po bellaf edrychir i'r dyfodol, ac fe allai'r gwir sefyllfa droi allan rywfaint yn waeth neu rywfaint yn well na'r uchod. Yr hyn sy'n sicr, fodd bynnag, yw y bydd angen i'r Cyngor wneud arbedion sylweddol er mwyn cau'r bwlch ariannol yma.<br>• Gan ein bod wedi rhagweld fod amser anodd o'n blaenau mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo cynlluniau i arbed tua £9m, ddylai fod yn ddigonol i gau'r bwlch ariannol yn 2013/14 a 2014/15. Mae hyn yn golygu y bydd angen darganfod oddeutu £16m arall (tybiaeth cynllunio) ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.<br>• Nod y Strategaeth yw canfod cymaint â phosibl o'r £16m drwy gyfuniad o effeithlonrwydd pellach a rheoli galw am wasanaethau, cyn disgyn yn ôl ar doriadau fel y cam olaf os bydd angen. Mae rhywfaint o amser gennym cyn 2015/16 i ddatblygu cyfundrefnau trylwyr, cynhwysol i gyflawni hyn. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau a cheisio lleihau effaith toriadau ar bobl Gwynedd, drwy:**<br>• Gyflawni arbedion ariannol parhaol o £24.8m dros y 4 blynedd.<br>• Gyflawni o leiaf £20.0m o'r swm yma tra'n parhau i gyflawni'r un deilliannau i drigolion Gwynedd (h.y. drwy arbedion effeithlonrwydd neu drwy leihau galw am wasanaethau'r Cyngor).<br>Bydd yr union symiau yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor. |

<table>
<tr><td rowspan="1">Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?<br>(Cynigion Cyflawni)</td><td colspan="2">Byddwn yn gweithredu’r prosiectau canlynol:<br><br>Prosiect Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor:<br>• Datblygu cynlluniau arbedion gwerth £1.5m, heb effeithio ar ddeilliannau i drigolion, yn barod ar gyfer eu gweithredu yn y flwyddyn hon. Paratoi i ddatblygu cynlluniau gwerth £2m gogyfer â 2014/15.<br><br>Prosiect Cytundeb Canlyniadau:<br>• Sicrhau fod y cynigion fydd yn cael eu cytuno o dan gyfundrefn newydd Cytundeb Canlyniadau yn galluogi’r Cyngor i hawlio’r swm llawn o £1.3m yn flynyddol, a sicrhau cyflawni’r addewidion a wneir ar gyfer 2013 / 14.<br><br>Prosiect Gwireddu Arbedion:<br>• Sicrhau fod yr arbedion a gymeradwywyd ar gyfer 2013/14 (cyfanswm £3.6m) yn cael eu cyflawni, a sicrhau paratoi ar gyfer yr arbedion sydd i’w cyflawni yn y blynyddoedd dilynol.<br><br>Prosiectau arbed penodol o natur neilltuol gymhleth / trawsffurfiol:<br>• Yn unol ag amserlen y prosiectau unigol, gaiff ei asesu a’i adrodd wrth i’r prosiectau gael eu cymeradwyo.<br><br>Byddwn hefyd yn datblygu cynigion er mwyn:<br><br>• Sicrhau a mesur arbedion o’r gyfundrefn Lleihau Galw ar Wasanaethau - sefydlu trefniadau i sicrhau y bydd arbedion yn dod allan o’r gyfundrefn yn y dyfodol, a’u bod yn cael eu mesur a’u hadrodd yn briodol (cynhwysir y gyfundrefn Lleihau Galw ei hun o fewn Blaenoriaeth DT5).<br>• Adnabod arbedion effeithlonrwydd pellach - datblygu cyfundrefnau er mwyn sicrhau y bydd cymaint â phosibl o’r bwlch ariannol gweddilliol yn cael ei gwrdd drwy gynlluniau effeithlonrwydd.<br>• Paratoi ar gyfer y posibilrwydd o doriadau gwasanaeth yn y dyfodol - datblygu trefniadau ar gyfer adnabod unrhyw doriadau gwasanaeth fydd eu hangen maes o law gan ymgynghori’n eang â’r cyhoedd ar y posibiliadau.</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Sut fyddwn ni yn mesur hyn?<br>(Mesuryddion)</td><td>DT3.1</td><td>Swm arbedion a gyflawnwyd.</td></tr>
<tr><td>DT3.2</td><td>Cyfran o’r arbedion a gyflawnwyd sy’n arbedion effeithlonrwydd.</td></tr>
<tr><td>DT3.3</td><td>Cyfran o’r arbedion a gyflawnwyd sy’n doriadau gwasanaeth.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | DT3.4 | Cyfran o fesurau perfformiad gwasanaeth allweddol yn y meysydd lle cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd, lle na wnaeth perfformiad ddirywio. |

| **Blaenoriaeth** | **DT4 - MANTEISIO AR 'FAINT' Y CYNGOR ER LLES POBL GWYNEDD** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Cyngor heb fynd i'r afael â sefydlu cynlluniau sydd yn manteisio ar ei faint er budd i bobl Gwynedd.<br>• Mae enghreifftiau cynyddol o gynghorau'n datblygu a gweithredu cynlluniau sydd yn rhoi budd i'r dinesydd. Enghreifftiau o gynlluniau a gynigir gan nifer o gynghorau yw; cyfle i brynu yswiriant tŷ, cynnig cyfloedd "energy switching" a defnyddio'r gronfa bensiwn er budd yr ardal - megis adeiladu tai newydd. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Mwy o bobl Gwynedd ar eu hennill yn sgil cyflwyno cynlluniau sydd yn manteisio ar faint y Cyngor:**<br>• 2 gynllun wedi ei weithredu yn ystod y flwyddyn gyntaf. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn:<br><br>• Ymchwilio ymhellach i ba gynlluniau gellir eu gweithredu, gan adnabod beth yw'r gost ynghyd â thystiolaethu beth fydd maint effaith y cynlluniau.<br>• Cyflwyno rhestr hir o gynlluniau posib i'r Cabinet cyn diwedd yr ail chwarter 2013 / 14. Fel bo'r Cabinet yn penderfynu a blaenoriaethu pa gynlluniau sydd i'w gweithredu a phryd.<br>• Gweithredu o leiaf 2 prosiect cyn diwedd 2013 / 14. |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | Byddwn yn datblygu mesuryddion wrth ddatblygu'r cynigion yn ystod 2013 / 14 |

| Blaenoriaeth | **DT5 - LLEIHAU'R GALW AR WASANAETHAU DRWY ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR** |
|---|---|
| **Pam fod hwn yn flaenoriaeth?**<br>*(Y Dystiolaeth)* | • Ni all y Cyngor ddygymod gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau heb doriadau gwasanaeth.<br>• Gwasanaethau ataliol annatblygedig ar y cyfan yn y Cyngor.<br>• Cynghorau eraill yn datblygu a gweithredu ymyraethau er mwyn rheoli'r galw ar wasanaethau, gyda thystiolaeth bod y gwaith yn cael effaith.<br>• Diffyg sgiliau a chyfundrefnau mewn rhai meysydd sy'n gritigol i leihau'r galw am wasanaethau. |
| **Pa wahaniaeth ydym ni eisiau ei wneud erbyn 2017?**<br>*(Canlyniad)* | **Gwasanaethau ataliol effeithiol wedi eu sefydlu:**<br>• Galluogwyr perthnasol yn eu lle.<br>• Osgoi cynnydd mewn cyllidebau. |
| **Beth fyddwn yn ei gyflawni yn ystod 2013 / 14?**<br>*(Cynigion Cyflawni)* | Byddwn yn:<br><br>• Comisiynu gwasanaethau ataliol effeithiol.<br>• Sicrhau bod y galluogwyr perthnasol yn eu lle, e.e. adnoddau, capasiti, dadansoddeg ac ymarfer ymchwil.<br>• Cynnal asesiad o'r gwasanaethau ble gellid trosglwyddo cyfrifoldeb i unigolion/cymunedau. |
| **Sut fyddwn ni yn mesur hyn?**<br>*(Mesuryddion)* | Byddwn yn datblygu mesuryddion wrth ddatblygu'r cynigion yn ystod 2013/14 |

## ATODIAD 1 - MESURYDDION ALLWEDDOL

| Maes | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Uchelgais 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | EDU/002i | Canran disgyblion 16 oed sydd yn gadael addysg llawn amser heb gymhwyster allanol cydnabyddedig | 0.00% | 0.40% | 0% - 0.21% |
| Plant a Phobl Ifanc | EDU/002ii | Canran disgyblion 16 oed mewn gofal sydd yn gadael addysg llawn amser heb gymhwyster allanol cydnabyddedig | 0.00% | 5.70% | 0% - 6.5% |
| Plant a Phobl Ifanc | GY25 | Canran gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim CA4 yn y dangosydd TL2+ | 36.04% | 33.22% | 32% - 34% |
| Plant a Phobl Ifanc | DANS11 | Nifer ysgolion cynradd yn un o gategorïau ESTYN [gwelliant sylweddol a mesurau arbennig] | 1 | - | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | DANS12 | Nifer ysgolion uwchradd yn un o gategorïau ESTYN [gwelliant sylweddol a mesurau arbennig] | 2 | - | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | GY01 | Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau wedi'i gapio ar sail 8 TGAU yn CA4 (14-16 oed) | 323.53 | Cyhoeddiad data Ionawr 2014 | 343 |
| Gofal, Iechyd a Lles | Diogelu4a | Nifer gyfarfodydd strategaeth a gynhaliwyd o dan ganllawiau amddiffyn plant. | - | - | Datblygol. Gosod gwaelodlin yn 2013-14 |
| Gofal, Iechyd a Lles | Diogelu4b | Canran o gyfarfodydd strategaeth (rhan 3) arweiniodd at ymchwiliad Adran 47. | - | - | Datblygol. Gosod gwaelodlin yn 2013-14 |
| Gofal, Iechyd a Lles | Diogelu3 | Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis (eithrio Gwasanaethau Arbenigol Plant) | 30.6% (SCC/010 29.95%) | (SCC/010 27%) | 25% - 29% |

| Maes | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Uchelgais 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal, Iechyd a Lles | LlesPMG1 | Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed | Heb Adrodd yn 2012/13 | - | Datblygol. Gosod gwaelodlin yn 2013-14 |
| Gofal, Iechyd a Lles | LlesPMG2 / SCC/041a | Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100% | 89.5% | 95% - 100% |
| Gofal, Iechyd a Lles | SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | 50.90% | 65.00% | 65% - 73% |
| Gofal, Iechyd a Lles | OED04 | Galluogi - Canran y rhai a dderbyniodd wasanaeth Galluogi a ddychwelodd o fewn 2 flynedd | 11.70% | - | 10% - 20% |
| Gofal, Iechyd a Lles | OED08 (SCA/002b Lleol) | Cyfradd pobl hyn (sy'n 65oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65oed neu drosodd ar 31 Mawrth - gan eithrio hunan arianwyr | 22.71 (SCA/002b 24.69) | (SCA/002b 20.63) | 22.5 - 23 |
| Gofal, Iechyd a Lles | OED12 | Nifer o gyfeiriadau amddiffyn oedolion bregus (POVA) a gwblhawyd yn y cyfnod | 167 | - | Sefydlu Gwaelodlin |
| Gofal, Iechyd a Lles | SCA/018c | Canran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu ailasesiad uniongyrchol yn ystod y flwyddyn a wnaeth dderbyn gwasanaeth | 82.27% | 62.80% | 65.13% - 82.27% |
| Gofal, Iechyd a Lles | LCS/002 (DADH.34) | Nifer yr ymweliadau gyda chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 12,408 | 8,864 | 12644 |
| Gofal, Iechyd a Lles | DATBL01 | Canran o boblogaeth Gwynedd sy'n aelodau o ganolfannau hamdden y Cyngor | - | - | 15.27% |

| Maes | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Uchelgais 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal, Iechyd a Lles | Ge02 | Canran plant yn mynychu 1 sesiwn 5x60 neu fwy | 70.31% | - | 72.50% |
| Gofal, Iechyd a Lles | DADH.42 | Canran o blant erbyn 11oed sydd wedi cyrraedd safon cwricwlwm cenedlaethol mewn nofio | 80% | - | 82.50% |
| Economi | H6 | Nifer o fusnesau yn datblygu gyda chefnogaeth yr Adran Economi | 92 | - | 65 |
| Economi | H7 | Nifer o fusnesau newydd yn cael eu sefydlu gyda chefnogaeth yr Adran Economi | 18 | - | 8 – 12 |
| Economi | H8 | Nifer o swyddi newydd wedi eu creu gyda chefnogaeth yr Adran Economi | 90 | - | 34 |
| Economi | H9 (CB9) | Nifer o swyddi newydd wedi eu diogelu gyda chymorth yr Adran Economi | 108 | - | 100 |
| Economi | Ieu3 | Canran y bobl ifanc a gefnogir gan weithwyr ieuenctid ysgolion sydd yn ymgysylltu | 100% | - | 85% |
| Economi | SaC01 | Canran yr unigolion oed gwaith a gefnogir sy'n symud ymlaen i waith (Taith i Waith) | 7% | - | 10% - 15% |
| Economi | SaC04 | Nifer prentisiaid wedi eu cyflogi | 18 | - | 10 |
| Economi | Twr4 | Budd i'r economi Lleol o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,994,155 | - | £3.15m - £3.5m |
| Economi | Caff06c | Canran o wariant gyda busnesau yng Nghymru | - | - | Er gwybodaeth |
| Economi | Caff06ch | Canran o wariant gyda busnesau yng Ngogledd Cymru | - | - | Er gwybodaeth |
| Economi | Caff06d | Canran o wariant gyda busnesau yng Ngwynedd | - | - | Er gwybodaeth |

| Maes | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Uchelgais 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amgylchedd | GyC10 PPN/008ii | Canran y busnesau newydd wedi eu canfod a oedd yn destun i ymweliad asesu risg neu a wnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer Hylendid Bwyd | 90.00% | 83.00% | 90% |
| Amgylchedd | PPN/009 | Canran o sefydliadau bwyd sydd yn 'cydymffurfio'n fras' a safonau hylendid bwyd | 95.44% | 86.03% | 90% |
| Amgylchedd | CT29 | Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | 73.13% | 72.79% | 75% |
| Amgylchedd | THS/011(a) | Cyflwr y prif ffyrdd (A) | 5.2 | 5.3 | 4.10% |
| Amgylchedd | THS/011(b) | Cyflwr ffyrdd heblaw'r prif ffyrdd (B) | 5.3 | 7.5 | 4.20% |
| Amgylchedd | THS/011(c) | Cyflwr ffyrdd dosbarth (C) | 10.3 | 18.8 | 7% |
| Amgylchedd | THS/009 | Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd | 3.7 | 4.3 | 3.2 |
| Amgylchedd | Y2 | Perfformiad Adran Ymgynghoriaeth yn erbyn eu targed ariannol | £571,414 | - | £1,074,250 |
| Cymunedau Cryf | CD12.03 | Yr amser a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 21.03 | 21 | 21 diwrnod |
| Cymunedau Cryf | CD12.04 | Yr amser a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | 5.68 | 7 | 7 diwrnod |
| Cymunedau Cryf | DAT02 | Niferoedd Digartref mewn Gwely a Brecwast | 13 | - | 12 – 15 achos |

| Maes | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Uchelgais 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymunedau Cryf | HHA/008 | Canran y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith | 77.40% | 88.70% | 77.4% - 88.7% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | PEN12 | Ymgysylltiad staff fel yr adroddwyd fel scor yn yr arolwg staff "Best Companies" | 565 | - | Cynnydd o 5% (593) |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | PEN13 | Canran o staff perthnasol sydd wedi derbyn gwiriad Disclosure and Barring (DBS) o fewn 2 fis i ddyddiad eu penodiad | Heb Adrodd | - | 95% - 100% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | PEN01 | Nifer o ddamweiniau difrifol fel a ddiffinnir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) | 4 | - | O dan 6 |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | D2.1 | Nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (lefel presenoldeb y Cyngor) | 8.52 | 10.6 | Lleihad o ffigwr y llynedd |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | PEN06 | Canran y staff perthnasol a gafodd eu gwerthuso | Heb Adrodd | - | 90% - 100% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | 0.4% | - | + / - 0.4% |

| Maes | Cyfeirnod | Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012/13 | Cyfartaledd Cymru 2012/13 | Uchelgais 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 94% | Gwybodaeth ddim ar gael tan mis Tachwedd | 92% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | CD11.01 | Cyfradd Casglu Blwyddyn Gyfredol Treth Cyngor | 97.15% | 96.70% | 96.80% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | CR2 | Canran Argymhellion ymchwiliadau craffu wedi'u derbyn gan yr Aelodau Cabinet | 100% | - | 70% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | RhPe1 | Canran adrannau sydd â'u cyfresi mesuryddion am 2013/14 yn rhoi ffocws ar ganlyniadau | 91% | - | 91% - 100% |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | RhPe9 | Asesiad SAC o drefniadau gwella a gwir berfformiad y Cyngor | Da | - | Da |
| Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor | Rhag8 | Canran canlyniadau y cynllun strategol wedi eu gwireddu | Heb Adrodd | - | 66% |

## ATODIAD 2 - CYD-DESTUN ARIANNOL AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL 2013/14 – 2016/17

1. Yn unol â'i drefniadau arferol mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth ariannol sy'n plethu gyda chyfnod y Cynllun Strategol gan sicrhau fod yr adnoddau priodol gennym i fedru gwireddu'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Strategol.

2. Nid oes unrhyw amheuaeth y byddwn yn wynebu sefyllfa anodd dros ben am gyfnod estynedig, ond mae'r Cyngor yn benderfynol o beidio â gadael i hynny weithredu fel esgus i beidio â cheisio gwella pethau i bobl Gwynedd yn ystod y cyfnod yma.

3. Dros y pedair blynedd dan sylw, dengys y rhagolygon y bydd y grant yr ydym yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cynyddu 1.1% yn 2013/14 ac y gallasai godi tua 0.25% yn 2014/15 gan ostwng yn sylweddol wedyn yn 2015/16 a 2016/17.

4. Gan fod tua 80% o wariant y Cyngor yn dod o'r ffynhonnell yma, a chan fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i wynebu effaith chwyddiant a chwrdd â'r pwysau cynyddol sy'n disgyn ar ein gwasanaethau, rhagwelir y byddwn yn wynebu diffyg cyllidebol sylweddol felly dros y pedair blynedd i ddod.

5. 'Rydym wedi ceisio darogan yr hyn y gallasem fod yn ei wynebu o ran diffyg posibl ac ystyried sut y byddwn yn dygymod a sefyllfa o'r fath.

6. Mae'r tabl isod yn nodi maint y diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni hynny –

*Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2013/14 – 2016/17*

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg cyllidol a ragwelir | 3.6 | 6.5 | 12.1 | 10.4 | 32.6 |
| Treth Gyngor | (1.7) | (1.8) | (2.3) | (2.0) | (7.8) |
| Arbedion eisoes yn cael eu gwireddu | (3.6) | (4.6) | (0.5) | - | (8.7) |
| Arbedion effeithlonrwydd pellach | - | - | | (6.4) | (6.4) |
| Rheoli Galw | - | - | | (5.0) | (5.0) |
| Gweddill | (1.7) | 0.1 | | 6.3 | 4.7 |

7. Daw’r ffigwr ar gyfer y diffyg cyllidol rhagweledig o £32.6m o dafluniadau a wnaed o sefyllfaoedd posibl o ran y grant yr ydym yn debygol o dderbyn gan Lywodraeth Cymru a’r chwyddiant a ragwelir ynghyd a’r pwysau sy’n debygol o ddisgyn ar wasanaethau. Yn naturiol, cyfrifiad ar gyfer cynllunio yw hwn a bydd y gwir sefyllfa yn sicr o newid fel yr aiff amser yn ei flaen.

8. Fe welir ein bod yn ystyried y gallwn godi tua £7.8m drwy gynyddu’r Dreth Gyngor ac eisoes mae gennym £8.7m y gallwn ei ddefnyddio o’r arbedion y mae’r Cyngor wedi bod yn eu cynllunio ers cryn amser bellach.

9. Fe welir fod gweddill y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarganfod may o arbedion effeithlonrwydd a cheisio lleihau ein gwariant drwy reoli’r galwadau sy’n disgyn arnom. Hyd yn oed wedyn mae yna bosibilrwydd y byddwn yn wynebu gorfod gweithredu rhai toriadau, ond y gobaith yw y byddwn yn medru osgoi hynny cymaint ag sy’n bosibl.

10. Hyd yma mae’r Cyngor wedi bod yn eithaf llwyddiannus yn osgoi gorfod torri gwasanaethau.

11. Nid yw hynny’n golygu wrth gwrs na fydd ein trigolion yn gweld gwahaniaethau i wasanaethau. Mae hyd yn oed ceisio bod yn fwy effeithlon weithiau yn golygu newid yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu a bydd yn rhaid wynebu hynny os ydym am fedru gobeithio osgoi torri gwasanaethau’n gyfangwbl.

12. Yn amlwg, mae’r gwaith o ddarganfod arbedion am fod yn dasg enfawr ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun Strategol, ond mae’r cynllun hefyd yn diffinio ein huchelgais ar gyfer trigolion Gwynedd ac er mwyn cyflawni hyn, bydd angen buddsoddi er mwyn cyflawni’r uchelgais hwnnw.

13. Eisoes mae’r Cyngor wedi gosod cronfa o’r neilltu yn ei reserfau penodol er mwyn ariannu’r Cynllun ac mae’r gyllideb refeniw hefyd n cynnwys rhai elfennau sydd yno i wireddu’r Cynllun. Ar ben hynny, mae’r tafluniadau gwariant a wnaed ar gyfer y dyfodol yn cynnwys rhagdybiaeth y bydd angen darparu cyllideb barhaol i ariannu rhai o’r cynlluniau ond hyd nes y byddant yn fwy aeddfed ni wyddom eto beth fydd maint yr angen hwnnw.

14. Gyda’i gilydd felly mae’r strategaeth ariannol a luniwyd ar gyfer y cyfnod i ddod yn gwneud dau beth - sef sicrhau fod gennym gyllideb gytbwys tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer ei drigolion drwy’r Cynllun Strategol hwn.

## ATODIAD 3 - DANGOSYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002a | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002b | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/019 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu'n fwy yn ystod y flwyddyn. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/011b | Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033a | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033b | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033c | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/041a | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen. |
| Tai | HHA/013 | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. |
| Tai | PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion |
|---|---|---|
| Tai | PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. |
| Tai | PLA/006(b) | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. |
| Addysg | EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol. |
| Addysg | EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol. |
| Addysg | EDU/003 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon. |
| Addysg | EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. |
| Addysg | EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. |
| Addysg | EDU/015a | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau. |
| Addysg | EDU/015b | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau. |
| Addysg | EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg. |
| Rheoli Gwastraff | WMT004(b) | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi. |
| Rheoli Gwastraff | WMT/009(b) | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall. |
| Rheoli Gwastraff | STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 diwrnod gwaith. |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth / Priffyrdd | THS/007 | Canran yr oedolion sy’n 60 oed neu drosodd sy’n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws. |
| Diwylliant a Chwaraeon | LCS/002(b) | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o’r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. |
| Diwylliant a Chwaraeon | LCL/001(b) | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul  1,000 o’r boblogaeth. |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **CYNGOR LLAWN** |
| DYDDIAD: | **5 RHAGFYR 2013** |
| TEITL: | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU** |
| PWRPAS: | **Cadarnhad ffurfiol am 2014/15 ac wedi hynny o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

1.1 Rhoddir disgresiwn i Gynghorau o dan Adran 12 o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel a ddiwygir gan Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004) i ganiatáu disgownt ai peidio i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthiadau A a B, isod) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.

1.2 Tra bod rheoliadau eisoes yn caniatáu i'r Cabinet gymryd penderfyniad ar sylfaen treth cyngor, **rhaid sicrhau penderfyniad parthed hawl disgownt o'r Cyngor llawn**. Am resymau technegol, gofynnir eto am gadarnhad blynyddol o'r penderfyniad i beidio caniatáu disgowntiau.

## 2. POLISI CYFREDOL A'R BWRIAD

2.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthiadau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgresiwn o dan reoliadau 1998, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2014/15.

2.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu PEIDIO a chaniatáu disgownt o 50% i ddosbarth C (eiddo gwag) ers 2009/10, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2014/15.

2.3 Er mwyn osgoi'r gofyn am benderfyniad blynyddol ar yr uchod, penderfynwyd yng nghyfarfod 21 Ionawr 2010 o'r Cyngor llawn i gadarnhau fod y polisi yma i barhau tu hwnt i 2010/11, ac ymhellach, hyd nes fydd eitem berthnasol yn cael ei daflennu ar raglen y Cyngor llawn. Fodd bynnag, ddaru ystyriaeth tribiwnlys prisio o achos parthed eiddo mewn sir arall godi amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd penderfyniad a pholisi parhaol ar hyn, a'r farn gyfreithiol yw y byddai'n osgoi elfen o risg i'r Cyngor pe bawn yn sicrhau penderfyniad blynyddol ar gyfer y mater.

2.4 Mae strategaeth ariannol 2014/15, a setliad grant y Cyngor gan Llywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2014/15.

## 3. “Y RHEOLIADAU” - RHEOLIADAU TRETH CYNGOR (DOSBARTH O EIDDO PENODEDIG) (CYMRU) 1998 / RHEOLIADAU’R DRETH GYNGOR (DOSBARTHAU RHAGNODEDIG AR ANHEDDAU) (CYMRU) (DIWYGIO) 2004

3.1 Yn y Rheoliadau uchod mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C nawr yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi’u dodrefnu lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf mewn cyfnod o 12 mis.
- **Dosbarth B** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi’u dodrefnu.
- **Dosbarth C** - Yn ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis.

3.2 Mae’r Rheoliadau yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth lawn, neu i ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthiadau A a B.

3.3 Yn yr un modd, mae’r Rheoliadau yn caniatáu i’r Cyngor barhau i ganiatáu disgownt 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl ar ddosbarth C.

## 4. AIL GARTREFI

4.1 Mae nifer o aelodau etholedig wedi awgrymu dylid codi mwy na 100% o’r Treth Cyngor sy’n daladwy’n arferol ar ail gartrefi, drwy ddefnyddio ‘premiwm’ yn hytrach na disgownt.

4.2 Er mwyn gweithredu ‘premiwm’, byddai angen newid yn y Rheoliadau cenedlaethol, a hefyd newid yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy’n greiddiol i’r Rheoliadau rheiny (gan Lywodraethau San Steffan a Llywodraeth Cymru).

4.3 Ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill, mae Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet a sawl swyddog yn parhau i ymgyrchu i annog datblygiad o’r fath, gydag awdurdodau lleol yn cadw’r incwm treth cyngor ychwanegol gellid cynhyrchu.

4.4 Mae Lywodraeth San Steffan wedi datganoli grym sy’n caniatau i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar godi ‘premiwm’ Treth Cyngor ar ail gartrefi, ac roedd hyn yn destun ymgynghoriad ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

4.5 Cyflwynwyd ymateb cadarnhaol ar ran Cyngor Gwynedd, yn cefnogi cyflwyno premiwm, ond hefyd yn pwyso am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a’r gyfundrefn treth busnes.

4.6 Gwelir ymateb diweddar y Cyngor yn cefnogi codi ‘premiwm’ Treth Cyngor ar ail gartrefi yn rhifyn Tachwedd o ‘Rhaeadr’ ar y wefan ganlynol, a mae gohebiaeth flaenorol ynglŷn â throsglwyddiad ail gartrefi i’r dreth busnes yn rhifyn Gorffennaf o ‘Rhaeadr’ ar yr un wefan –

Erthygl 25 Tachwedd:
http://aelodau.wordpress.com/2013/11/25/treth-ar-ail-gartrefi-y-diweddaraf/

Erthygl 31 Gorffennaf:
http://aelodau.wordpress.com/2013/07/31/osgoi-talu-trethi-pryderon-cynghorwyr/

4.7 Rydym yn parhau'n obeithiol y caniateir hawl dewisol i awdurdodau lleol i godi mwy na 100% yn y dyfodol, ond ni fydd yr hawl mewn lle ar gyfer 2014/15.

## 5. POLISI TRETH CYNGOR PARTHED EIDDO GWAG

5.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Gwag Cyngor Gwynedd yn Chwefror 2009. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd rhoddi sylw i dai gwag o fewn ei Gynllun Strategol (dwyn eiddo gwag yn ôl i ddefnydd). Datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag yw: *"Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".*

5.2 Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Byddai darparu unrhyw ddisgownt yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd. Argymhellir i'r Cyngor llawn barhau â'r penderfyniad o beidio caniatáu'r disgownt ar eiddo gwag yn 2014/15.

5.3 Yn Hydref 2012, bu ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt trethu eiddo gwag a'r grym i godi mwy na 100% o Dreth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor. Ar y 18fed o Dachwedd 2013, cyhoeddwyd Bil Tai (Cymru) 2013.

5.4 Gwelir oddi fewn i Bil Tai (Cymru) 2013 y ddarpariaeth ddewisol i awdurdodau lleol godi treth safonol o 150% ar dai fu'n wag am 12 mis neu fwy. Bydd y mesur yma nawr yn cychwyn ar ei daith ddeddfwriaethol trwy'r Cynulliad, ond ni ragwelir y bydd yn effeithiol yn 2014/15.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Doeth yw ceisio penderfyniad blynyddol gan y Cyngor llawn ar y materion hyn.

6.2 Felly, **gofynnir i'r Cyngor benderfynu** yn ffurfiol eto ar gyfer 2014/15 **fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt** o dan Adran 12 o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 **i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi** (dosbarthiadau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998.

6.3 Ymhellach, **gofynnir i'r Cyngor benderfynu yn ffurfiol** eto am 2014/15 **i ganiatáu DIM disgownt yng nghyswllt tai gwag** (dosbarth C).

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **5 Rhagfyr 2013** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Brian Jones** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2014/15** |
| **AMCAN:** | **Mabwysiadu Cynllun Lleol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor o Ebrill 2014 ymlaen.** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2014/15.

1.2 Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 24 Ionawr 2013 mabwysiadwyd Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor am 2013/14 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymal yn y Rheoliadau yma roedd yn golygu nad oeddynt yn ddilys heibio 31/03/2014.

1.3 Mae Cyfarfod Llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Tachwedd 2013 wedi cymeradwyo'r 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013' a'r 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013', fel y'i cyflwynwyd gan Lesley Griffiths (y Gweinidog Llywodraeth Leol) ar ran Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi derbyn barn fod sylwedd y rheoliadau yma yr un fath a rheoliadau'r flwyddyn flaenorol, gyda rhai mân welliannau gweinyddol. Dyma linc i gopi o'r Rheoliadau fel y'i cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=251458&ds=11/2013

Rheoliadau'r Cynllun Diofyn: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=251460&ds=11/2013

1.4 Byddai methu â mabwysiadu'r cynllun 'lleol' erbyn 31 Ionawr 2014 yn arwain at orfodi Cynllun Diofyn ar y Cyngor.

1.5 Nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd yn rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 o safbwynt yr hawlwyr. Gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau). Felly, argymhellir isod yn unol â phenderfyniad perthnasol Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2013, gydag eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

## 2. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cyngor llawn –**

**2.1 Nodi 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013' ar gyfer 2014/15.**

**2.2 Yn ddarostyngedig i ganlyniad yr ymgynghoriad cyfredol, i fabwysiadu'r darpariaethau o fewn y Rheoliadau uchod ynglŷn â'i Gynllun am y flwyddyn ariannol 2014/15 fel cynllun lleol y Cyngor wedi 01/04/2014, gyda'r amodau canlynol ynghylch yr elfennau disgresiwn yn gyson gyda threfn 2013/14.**

**2.3 Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**2.4 Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.5 Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.6 Lle'n briodol, fod y Cyngor yn dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Atal Tlodi, i wneud mân addasiadau i'r cynllun yn dilyn yr ymgynghoriad, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 3. Gwybodaeth Gefndirol

3.1 Adroddwyd i'r Cyngor llawn ar 24 Ionawr 2013 fod Deddf Diwygio Lles 2013 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2013. O'r 1 Ebrill 2013, bu i gyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor a'r cyllid sydd ynghlwm â hi gael ei drosglwyddo o'r "DWP" i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

3.2 Roedd y rheoliadau gwreiddiol ar gyfer cynllun 2013/14 yn cyfyngu'r cymorth i 90% o'r dreth, ond yn Ionawr 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau yn diwygio'r cynllun i allu darparu cymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan helaeth o'r gost berthnasol.

3.3 Cyfeiriwyd mewn adroddiad i'r Cyngor llawn ar 24 Ionawr 2013 at Reoliadau Cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor 2012 a rheoliadau diwygiedig 2013. Rheoliadau ar gyfer gweithrediad blwyddyn ariannol 2013/14 yn unig oedd y rheini a rhaid i'r Cyngor llawn benderfynu mabwysiadu'r cynllun o'r newydd ar gyfer 2014/15 yn unol â rheoliadau newydd gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 26 Tachwedd 2013.

3.4 Mae'r rheoliadau am 2014/15 eto yn cynnwys darparu cymorth hyd at 100% o'r dreth cyngor. Fel y nodwyd pan gyflwynwyd y mater yma yn Ionawr, mae'r rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

3.5 Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i lunio cynllun a rheoliadau gwahanol ar gyfer 2015/16 ymlaen. O Ebrill 2015, mae'n bosib na fydd modd darparu cymorth 100% tuag at dalu'r dreth, fel sy'n gyfredol. Darperir mwy o fanylion fel y bydd trafodaethau yn datblygu.

## 4. Cynllun Gostyngiadau 2014/15

4.1 Deallwn fod Cyfarfod Llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Tachwedd 2013 wedi cymeradwyo'r 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013' a'r 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013', fel y'i cyflwynwyd gan Lesley Griffiths (y Gweinidog Llywodraeth Leol) ar ran Llywodraeth Cymru. Deallwn fod y rhain fwy neu lai fel rheoliadau llynedd a'u bod yn dynodi prif agweddau'r cynllun i'w fabwysiadu gan holl gynghorau Cymru.

4.2 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Mae'r elfennau disgresiwn yma'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol.

4.3 Cynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2013/14, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio £30,000 i'r Awdurdod mewn gostyngiadau Treth Cyngor. Dyma yw sefyllfa 2013/14, felly mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn strategaeth ariannol 2014/15.

Mae argymhelliad 2.3 yn yr adroddiad hwn yn argymell bod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

4.4 Cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir fod cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn £20,000.

Mae argymhelliad 2.4 yn yr adroddiad hwn yn argymell peidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

4.5 Cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £28,000 yw cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis).

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Mae argymhelliad 2.5 yn yr adroddiad hwn yn argymell na ddylid cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

4.6 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2014/15 yn unol â threfniadau cyfredol 2013/14. Os fydd y Cyngor yn penderfynu caniatáu elfennau mwy hael i'r cynllun yn lleol (yn 4.4 a 4.5 uchod) yna bydd hynny yn cynyddu cost y cynllun.

## 5. Ymgynghori

5.1 Rwyf wedi derbyn barn, fel y llynedd, y dylai'r Cyngor ymgynghori gyda'r rhai sydd â diddordeb, gan gynnwys y cyhoedd ac awdurdodau sy'n praeseptu. Mae'r ymgynghoriad hwnnw eisoes yn fyw ar wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/gostyngiadtrethcyngor

5.2 Er bod y cynllun i bob pwrpas fel y llynedd ac oherwydd hynny na ragwelir llu o ymatebion, mae mabwysiadu'r cynllun wrth gwrs yn ddarostyngedig i ganlyniadau'r ymgynghoriad cyfredol, sy'n agored o 29/11/13 tan 10/01/14.

5.3 Bu ymarferiad ymgynghori hynod drylwyr a chynwysedig yn Rhagfyr 2012 / Ionawr 2013 ar gyfer cynllun 2013/14.

5.4 Yn wahanol i sefyllfa flwyddyn yn ôl, nid oes rheswm na bwriad rwan i ysgrifennu llythyrau at yr holl hawlwyr yn ymgynghori. Cyfyngir yr ymarferiad cyfredol i ddarparu gwybodaeth a holiadur ar wefan y Cyngor.

5.5 Gan nad oes newid o'r cynllun arfaethedig ar gyfer 2014/15 o safbwynt hawl a haeddiant yr hawlwyr, nid oes rheswm i feddwl y bydd ymateb gwahanol i'r ymgynghoriad mwy ysgafn sydd eisoes ar droed eleni.

## 6. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

6.1 Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2014/15 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ar hyn o bryd, felly ni gynhaliodd Cyngor Gwynedd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol eleni (ddaru ni wneud hynny llynedd pryd roedd newidiadau wedi'u cynllunio).

6.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith 'rheoleiddiol', sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, ond deallaf roedd y darganfyddiadau a adroddwyd yn unol â'u disgwyliadau.

## 7. Adnoddau

7.1 Mae 'setliad' grant 2014/15 i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru yn nodi fod y swm sy'n y setliad ar gyfer Gostyngiadau Treth Cyngor ar yr un lefel a llynedd.

7.2 Amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gost 100% o'r cynllun (adeg yma llynedd) oedd £244m. Bwriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd cyllido 90% o'r cynllun, felly mi roddwyd £222m yn 'setliad' 2013/14. Wedyn, talwyd £22m arall drwy grant penodol, ar ôl y newid meddwl hwyr i gyllido 100% yn 2013/14.

7.3 Ar gyfer 2014/15 mae'r Llywodraeth yn dweud fod y £244m llawn "yn y setliad", ond ymddengys fod hynny'n aneglur. Mae'r £222m yn dal yno, wrth gwrs, ond does dim trywydd fel tystiolaeth o ychwanegu'r £22m arall (dalwyd drwy grant penodol eleni).

7.4 Gan nad oedd 'setliad' 2013/14 yn cynnwys yr holl £244m (dim ond £222m), a gan fod 'setliad' 2014/15 yn cynnwys ymrwymiad i lywodraeth leol gwrdd â chost llawn Gostyngiadau Treth Cyngor (sy'n fwy na £244m), mae'r gwir ostyngiad mewn grant cynnal refeniw Cymreig rhwng y ddwy flynedd (yn genedlaethol) yn agosach at 4% na'r ffigwr 3.5% mae'r Llywodraeth yn cydnabod yn gyhoeddus.

7.5 Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2014/15 (yn ôl rhaniad tybiannol y cyfanswm SSA rhwng gwasanaethau yn tablau'r setliad amodol) yw £8.961m (swm sy'n cyfateb i'r £244m yn genedlaethol). Yn ogystal a chyfran Gwynedd o'r £22m (£896k), rhaid i'r Cyngor ddygymod efo cost y twf mewn baich achosion, ac oherwydd sefyllfa'r economi amcangyfrifir hynny i fod yn 350k ychwanegol sydd heb ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn 2013/14 ac yn 2014/15. Yn ogystal, nid yw Llywodraeth Cymru am ariannu chwyddiant (bydd cost y cymorth yn cynnyddu cymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor).

7.6 Fodd bynnag, gan fod yr holl ariannu perthnasol bellach yn y 'setliad', rhaid i'r Cyngor gyllidebu ar gyfer yr holl gost o'r Gostyngiadau Treth Cyngor yn 2014/15, gan gynnwys y 10%, y twf mewn baich achosion a'r chwyddiant. Mae hynny eisoes wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2014/15 (gweler yr eitem berthnasol ar raglen y Cyngor).

## 8. Casgliad

Er bod ymarferiad ymgynghori ar droed ac mae'r adroddiad yma wedi'i gyflwyno am gymeradwyaeth, rhaid i'r Cyngor ddilyn y rheoliadau, gyda'r opsiynau prin am newid wedi'i gyfyngu i'r elfennau disgresiwn a fanylwyd arnynt uchod.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **5 Rhagfyr 2013** |
| **TEITL** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Amserlen ddiwygiedig yn y Cytundeb Cyflawni** |
| **PWRPAS** | **Adrodd am yr amserlen adolygedig ar gyfer Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Cyngor yn cymeradwyo amserlen ddiwygiedig ar gyfer Cytundeb Cyflawni'r CDLl ar y Cyd** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. John Wyn Williams** |

## 1 Cefndir

1.1 Mae'r Cyngor hwn yn gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl at y Cyd) (ond heb gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri).

1.2 Mae Cytundeb Cyflawni'n dangos y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, ac yn cynnwys amserlen ar gyfer cwblhau a sut i gysylltu gyda'r gymuned yn ystod y broses o ddatblygu'r Cynllun. Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar 13 Medi 2011, a Chyngor Gwynedd ar 20 Hydref 2011. Wedyn fe gyflwynwyd hwnnw i Lywodraeth Cymru a chael eu cefnogaeth hwy. Yn Nhachwedd 2011 fe gyhoeddwyd y Cytundeb a gafodd ei gymeradwyo, ac mae i'w weld ar y we ar y dudalen yma:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1178/CytundebCyflawniCymeradwyo.pdf

1.3 Mae'r Cytundeb Cyflawni presennol yn rhagweld y byddai'r ddau Gyngor mewn sefyllfa i gymeradwyo'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus statudol rhwng mis Medi a mis Hydref 2013. Rhaid i'r Cynghorau fonitro sut maent yn cadw at y Cytundeb Cyflawni, a

gwneud newidiadau os bydd angen.

1.4 Mae llawer iawn o waith wedi digwydd ers i ni gychwyn ar y daith, ond yn gynharach eleni roedd yn amlwg bod angen rywfaint mwy o amser i baratoi'r fersiwn llawn o'r CDLl ar y Cyd, h.y. y Cynllun Adnau, sydd yn 'gadarn'.

1.5 Mae llawer o resymau pam fod angen mwy o amser i baratoi'r Cynllun Adnau. Fe gytunodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ei gyfarfod ym Mehefin 2013 bod angen pendant i adolygu'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol, er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi'r Cynllun yn cydymffurfio efo pob prawf cadernid. Mae'r adroddiad aeth i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 21 Mehefin 2013 yn trafod y risgiau hynny. Mae modd gweld copïau o'r adroddiad yn:

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_pwyllgorau.asp?cat=8038&doc=29824&Language=2

1.6 Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i Gynghorau gytuno ar amserlen ddiwygiedig, yn amodol ar ymgynghori cyhoeddus ar unrhyw newidiadau sy'n cael eu cynnig.

## 2 Ymgynghori cyhoeddus

2.1 Fe gyhoeddwyd rhybudd cyhoeddus am yr amserlen adolygedig yn y papurau newydd lleol a gyrru negeseuon e-bost a llythyrau i bawb ar ddata-bas y CDLl ar y Cyd, yn sôn am yr amserlen adolygedig oedd dan sylw. Mae'r data-bas yn cynnwys pob corff ymgynghori penodol a chyffredinol yn ogystal ag unigolion, busnesau a chyrff sydd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun. Roedd yr ymgynghori cyhoeddus yn gyfle i wneud sylwadau ar yr amserlen adolygedig arfaethedig.

2.2 Dim ond chwech o sylwadau ddaeth yn ystod y cyfnod chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus. Doedd gan bump o'r rheiny naill ai ddim sylw penodol i'w wneud neu roedden nhw'n cefnogi penderfyniad i sicrhau bod digon o amser ar gael i baratoi'r Cynllun Adnau.

2.3 Roedd y chweched yn credu bod yr amserlen wreiddiol yn llawer rhy hir, ac yn siomedig bod y rhaglen wedi llithro. Roedd yn awgrymu y dylid dyrannu mwy o adnoddau a gwneud pob ymdrech i 'ddal i fyny'.

## 3 Yr amserlen ddiwygiedig

3.1 Mae tabl 1 isod yn dod o ran 3.3.1 o Gytundeb Cyflawni 2011 ac yn dangos yr amserlen wreiddiol a'r amserlen ar ôl adolygu. Fe fuodd yr amserlen ddiwygiedig yn destun ymgynghori cyhoeddus hyd at 9 Medi 2013. Mae'r newidiadau i'r amserlen wedi'u dangos mewn print mwy amlwg yng ngholofn olaf y tabl.

**Tabl 1 Amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd gwreiddiol a'r un adolygedig**

| Cyfnod yn y broses baratoi | | Amserlen | Amserlen adolygedig |
|---|---|---|---|
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol *(Rheoliad 5 - 10)* | Ionawr i Dachwedd 2011 | Ionawr i Dachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu a datblygu'r sail o dystiolaeth | Gorffennaf 2010 - Gorffennaf 2012 | Gorffennaf 2010 - **Hydref 2012** |
| 3. | Cyfranogi Cyn-adnau – paratoi'r dogfennau cyn-adnau fydd yn rhoi amlinelliad o'r amcanion allweddol a'r hoff strategaeth *(Rheoliad 14).* Nid drafft llawn o'r CDLl ar y Cyd fydd hwn | Ionawr 2011- Gorffennaf 2012 | Ionawr 2011 - **Hydref 2012** |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adnau – cyfnod o 6 wythnos *(Rheoliad 15).* Ymgynghori ffurfiol ar y dogfennau cyn-adnau a'r adroddiad arfarniad o gynaliadwyedd | Medi 2012 - Hydref 2012 | **Mai - Mehefin 2013** |
| 5. | Cyfranogi - datblygu ymhellach y sail o dystiolaeth a pharatoi'r CDLl ar y Cyd Adnau (cynllun draft llawn) sydd wedi'i seilio ar y sail o dystiolaeth, yn cynnwys yr ymateb i'r dogfennau cyn-adnau | Tachwedd 2012 - Medi 2013 | **Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014** |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a'r dogfennau'n gysylltiedig gydag ef ar adnau – cyfnod ymgynghori o 6 wythnos *(Rheoliad 17)* | Hydref 2013 - Tachwedd 2013 | **Mai - Mehefin 2014** |
| | Amserlen i roi awgrym | | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl | Rhagfyr 2013 - | **Gorffennaf 2014 -** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar y Cyd Adnau *(Rheoliadau 18 ac 19)* | Mehefin 2014 | **Ionawr 2015** |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau ar safleoedd amgen, ymgynghori ar y rheiny – cyfnod o 6 wythnos *(Rheoliadau 20 a 21)* | Ionawr 2014 - Chwefror 2014 | **Medi - Hydref 2014** |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwilio *(Rheoliad 22)* | Tachwedd 2014 | **Chwefror 2015** |
| 10. | Archwilio Cyhoeddus Annibynnol *(Rheoliad 23)* | Ebrill 2015 | **Mehefin 2015** |
| 11. | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd *(Rheoliad 24)* | Ionawr 2016 | **Mawrth 2016** |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd *(Rheoliad 25)* | Ebrill 2016 | **Mai 2016** |
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad blynyddol | Adroddiad blynyddol |

3.2 Er y bydd yn cymryd tua 6 mis yn fwy nag y rhagwelwyd ar y dechrau i gynhyrchu'r Cynllun Adnau, credir erbyn hyn mai efallai dim ond mis o lithriad fydd yn yr amserlen gyffredinol i gyrraedd adeg mabwysiadu (gweler rhes 12 o Dabl 1 uchod).

**4 Penderfyniad Cyngor Sir Ynys Môn**

4.1 Cyflwynwyd adroddiad am yr amserlen ddiwygiedig i gyfarfod Cyngor Sir Ynys Môn ar y 10fed Hydref 2013. Fe gafodd yr amserlen ddiwygiedig ei gymeradwyo ganddo.

**5 Argymhelliad**

5.1 Bod Cyngor Gwynedd yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Cytundeb Cyflawni.

**Papurau Cefndirol:**

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005;

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (2006)

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 5/12/13 |
| Pwnc | Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd |
| Pwrpas yr Adroddiad | Cyflwyno'r adroddiad i sylw'r Cyngor am drafodaeth |
| Awdur | Siân Gwenllian, Dirprwy Arweinydd y Cyngor. |

**Cyflwyniad**
Mae cyfrifoldeb statudol clir ar y Cyngor fel "rhiant corfforaethol" i blant sydd mewn gofal ac mae disgwyliad clir ar bob Cyngor i ymarfer y rôl honno'n briodol fel "pe tai'n blentyn i mi".

Mae'n bwysig cofio bod y cyfrifoldeb rhiantu ar y Cyngor cyfan, ond mae rôl penodol i'r Panel Rhiant Corfforaethol i gymryd trosolwg o les a buddiannau'r plant hyn.

Mae'n ymarfer da i lunio adroddiad blynyddol sydd yn disgrifio'r gefnogaeth a roddir yn nhermau llais plant a phobl ifainc, y ddarpariaeth gwasanaeth, lleoliadau a nifer o faterion eraill a welir yn yr adroddiad sydd ynghlwm. Yn ogystal â'r adroddiad ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni, elfen allweddol o'r papurau yw'r rhaglen waith sydd yn nodi'r meysydd sydd i gael sylw dros y misoedd nesaf.

Mae'r adroddiad a'r atodiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 8 Hydref, 2013.

Dylwn nodi hefyd, er gwybodaeth y byddaf wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 28 Tachwedd, 2013 i gael fy nghraffu ar y gwaith yn y maes hwn. Os yw'r Cyngor yn dymuno, medraf adrodd ymhellach ar lafar ar ganlyniad y craffu hwnnw.

**Rhesymau dros yr Argymhelliad**
Mae cefnogaeth gorfforaethol y Cabinet yn ran bwysig o ymrwymiad y Cyngor tuag at y cyfrifoldeb statudol sydd arno. Nid mater un adran yw'r cyfrifoldeb hyn ac mae'r Cabinet yn awyddus i fod yn cefnogi hynny.

**Ystyriaethau Perthnasol**
Wrth bwyso a mesur yr hyn sydd yn y rhaglen waith, mae'n briodol ystyried y materion capasiti sydd yn codi ohonynt. Mae'r rhaglen waith wedi ei drafod a'i gytuno yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ac mae'r adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle.

**Argymhelliad**
Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith sydd ynghlwm iddo.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
**8 HYDREF, 2013**

**Aelod Cabinet: Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Sian Gwenllian**

**Pwnc: Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol**

**Swyddog Cyswllt: Rhoslyn Prys**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Waith.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol

---

**Cyflwyniad**

Mae cyfrifoldeb statudol clir ar y Cyngor fel "rhiant corfforaethol" i blant sydd mewn gofal ac mae disgwyliad clir ar bob Cyngor i ymarfer y rôl honno'n briodol fel "pe tai'n blentyn i mi".

Mae'n bwysig cofio bod y cyfrifoldeb rhianti ar y Cyngor cyfan, ond mae rôl penodol i'r Panel Rhiant Corfforaethol i gymryd trosolwg o les a buddiannau'r plant hyn.

Mae'n ofynnol llunio adroddiad blynyddol sydd yn disgrifio'r gefnogaeth a roddir yn nhermau llais plant a phobl ifainc, y ddarpariaeth gwasanaeth, lleoliadau a nifer o faterion eraill a welir yn yr adroddiad sydd ynghlwm.

Yn ogystal â'r adroddiad ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni, elfen allweddol o'r papurau yw'r rhaglen waith sydd yn nodi'r meysydd sydd i gael sylw dros y misoedd nesaf.

**Rhesymau dros yr Argymhelliad**

Mae cefnogaeth gorfforaethol y Cabinet yn ran bwysig o ymrwymiad y Cyngor tuag at y cyfrifoldeb statudol sydd arno. Nid mater un adran yw'r cyfrifoldeb hyn a gwahoddir y Cabinet i ddangos y gefnogaeth hynny.

**Ystyriaethau Perthnasol**

Wrth bwyso a mesur yr hyn sydd yn y rhaglen waith, mae'n briodol ystyried y materion capasiti sydd yn codi ohonnynt. Mae'r rhaglen waith wedi ei drafod a'i gytuno yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ac mae'r adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle.

**Argymhelliad**

Argymhellir bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith sydd ynghlwm iddo.

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr**

"Mae'n allweddol bod y Cyngor yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb rhianti corffraethol. Mae i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad yn elfen bwysig o hynny ond dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Mae cyfrifoldeb clir nawr i symud ymlaen i weithredu ar yr ymrwymiadau yn y Rhaglen Waith."

**Y Swyddog Monitro**

"Panel sy'n cefnogi'r Cabinet yn y dasg o gyflawni swyddogaethau'r Cyngor fel rhiant i blant mewn gofal ydi'r Panel Rhiant Corfforaethol ac mae'n gwbl briodol felly fod y Cabinet yn ystyried ac yn derbyn adroddiad ganddo yn flynyddol. Bydd y Cabinet angen bodloni ei hun fod y Panel yn cyfarch y materion cywir yn yr adroddiad a'r rhaglen waith."

**Y Pennaeth Cyllid**

"Gan fod y paragraph *"ystyriaethau"* cyn yr argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn nodi fod *"adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle",* does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol".

**Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd**

**2012-13**

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad wedi ei rhannu yn bedair rhan yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor, cyfraniad adrannau'r Cyngor, cyfraniad partneriaid a ac yna trafodaeth ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni a'r camau sydd angen eu cymryd i'r dyfodol.

## 1.0 Rôl a Chyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi ei sefydlu yng Ngwynedd fel ymhob sir arall yng Nghymru fel corff i gadw trosolwg o les a buddiannau plant mewn gofal. Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd aelodau a staff pob sir yn ymagweddu'r gadarnhaol i rôl rhiantu corfforaethol. Yn 2009 ryddhaodd Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth leol ddogfen o'r enw 'Petai'n blentyn i mi...' sy'n amlygu rôl a chyfrifoldeb aelodau fel rhieni corfforaethol.

Mae gan rôl y rhiant corfforaethol y disgwyliad y bydd y rhiant yn ymdrechu i sicrhau fod plant mewn gofal yn derbyn gofal priodol, fod y llety lle maent yn byw ynddo'n safonol eu bod yn cael gofal iechyd da a bod eu cynnydd addysgol yn un llwyddiannus. Mae hyn i ddigwydd heb fod yr rhiant byth yn cyfarfod gyda'r plentyn mewn gofal. O ran y plant eu hunain mae'n bwysig eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth y Cyngor a phartneriaid y Cyngor mewn cyfnod heriol iawn yn eu bywyd.

Er mwyn cynnal y rôl yma mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol sy'n cynnwys aelodau perthnasol o'r Cabinet, Pencampwr Pobl Ifanc ac aelod wedi ei dewis gan Bwyllgorau Craffu. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys y prif swyddogion perthnasol y maes (gw. isod) Drwy'r Panel mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo eu cyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy'n achosi pryder iddynt gael eu craffu ar ei ran.

## 1.2 Llythyr y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, A.C.

Derbyniodd y Panel lythyr gan y Gweinidog sy'n gosod allan y disgwyliadau heriol ar awdurdodau lleol ac aelodau i 'sicrhau bod plant sydd mewn gofal cyhoeddus yn cael yr un canlyniadau ag y byddai pob rhiant da'n eu dymuno ar gyfer ei blant ei hun'. Mae'n nodi'n glir mai 'Sicrhau bod y plant sydd o dan eu gofal yn gallu ffynnu' yw un o brif gyfrifoldebau Aelod Etholedig ac yn nodi ystod eang o bwyntiau gwybodaeth y mae angen i aelodau gael eu bodloni arnynt. Mae hyn yn cynnig negeseuon cryf i'r Panel wrth iddo ddatblygu strategaeth newydd i'r dyfodol.

## 1.3 Hyfforddiant Aelodau

Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar Dachwedd 28, 2012 ar gyfer aelodau'r Cyngor. Roedd yn gyfle i aelodau ddysgu am eu rôl ac ystyried senarios gwahanol ynghylch anghenion plant mewn gofal o fewn y sir. Roedd 24 aelod yn bresennol. Mae'n fwriad cynnal sesiwn hyfforddiant arall yn y flwyddyn newydd

**1.4 Sefydlu'r Cabinet**

Yn sgil newidiadau i drefniadau rheolaethol y cyngor a mabwysiadau'r model Cabinet addaswyd trefniadau'r Panel fel ei fod yn banel sy'n adrodd i'r Cabinet ac yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc.

Pennwyd aelodaeth sefydlog ar gyfer y Panel, gyda'r Aelodau Cabinet canlynol yn aelodau:

- Arweinydd y Cyngor
- Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc ac Arweinydd Portffolio Addysg
- Aelod Cabinet – Amddifadedd
- Aelod Cabinet – Gofal
- Aelod enwebwyd gan y Pwyllgor Craffu
- Pencampwr Llais Plant a Phobl Ifanc

a'r swyddogion canlynol:

- Y Prif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc/Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Cyfarwyddwr Statudol/Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden
- Y Pennaeth Addysg
- Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant
- Rheolwr Gwasanaeth – Adnoddau Gofal
- Cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd

**1.5 Strategaeth y Panel ar gyfer 2013-17**

Mae'r Panel wedi adnabod yr angen i weithredu'n fwy strategol i'r dyfodol. Oherwydd hynny mae rhaglen ddatblygiadol wedi ei lunio i gynorthwyo'r Panel i sicrhau ei gyfeiriad i'r dyfodol, sicrhau ei fod yn clywed llais plant mewn gofal ac yn ymateb i her diogelu safonau darparu gwasanaeth gan adrannau'r Cyngor a phartneriaid allanol. Bydd y rhaglen yn cynnwys mewnbwn clir gan blant a phobl ifanc sydd ac a fu yn cael cynnig adborth ac awgrymiadau ar sail eu profiadau. Mae'n fwriad cael ei strategaeth i'w le erbyn diwedd Ebrill 2014.

**2. 0 Llais Plant mewn Gofal**

**2.1 Sesiynau 'Dweud eich dweud'**

Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cynnal cyfarfodydd 'Dweud eich dweud' rheolaidd gyda grŵp o blant mewn gofal. Mae gwahoddiad i gadeirydd y Panel a'r Pencampwr Plant ymuno a'r cyfarfod. Yn ddiweddar mae'r grŵp wedi bod yn gweithio ar gynhyrchu dogfennau gwybodaeth ar gyfer plant mewn gofal a'r materion sydd wedi codi drwy'r gwaith hwnnw yn cynnwys trafodaeth ar

Fy nheulu a ffrindiau – pobl pwysig iawn, cadw cysylltiad yn bwysig ond i rai yn gallu bod yn anodd.

Pobl yn fy mywyd - mae nifer sylweddol yn cymryd rhan ym mywyd person ifanc mewn gofal o'r gweithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth neu staff uned preswyl, athrawon, nyrsys ac eiriolwyr. Mae'r rhain i gyd yn bwysig ac yn cynnig cefnogaeth o fathau gwahanol.

Lleoliad – byddai'n dda cael mwy o wybodaeth am eu lleoliadau a'r gofalwyr cyn cychwyn lleoliad, lle mae'r lleoliad, sut fath o beth yw'r tŷ ac ati.

Addysg - addysg yn gallu bod yn her gan fod rhai wedi gorfod newid ysgol ac wedi colli allan ar eu haddysg.

Gweithiwr Cymdeithasol – yn ddelfrydol yn un sy'n gwrando ac yn gallu ateb cwestiynau dyrys am berthnasau gyda teulu, anghenion gofal o fewn y llety ac addysg ac yn sicrhau fod pethau yn digwydd.

Mae'r grŵp wrthi'n gweithio'n ddygn ar hyn o bryd ar y pecyn gwybodaeth ac yn gobeithio gallu ryddhau'r pecyn yn y flwyddyn newydd.

**2.2 Profiadau Personol**

Mewn un cyfarfod derbyniodd y Panel gyflwyniad onest a heriol gan berson ifanc sy'n ddefnyddiwr gwasanaeth o'i phrofiad hi mewn gofal h hefyd adborth gan y Swyddog Gofal Cwsmer Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o waith casglu barn pobl ifanc mewn gofal. Y materion pennaf oedd yn ymwneud â natur y gefnogaeth roedd pobl ifanc mewn gofal yn teimlo eu bod yn ei dderbyn gan adrannau'r Cyngor a'r partneriaid. Roedd pobl ifanc mewn gofal ar y cyfan yn gwerthfawrogi cefnogaeth eu gweithiwr cymdeithasol personol ond yn teimlo fod y gefnogaeth gan unigolion mewn adrannau eraill yn llai cefnogol tuag atynt. Teimlwyd hefyd y byddai gallu derbyn mwy o wybodaeth am eu sefyllfa cyfredol yn ddefnyddiol iawn iddynt ddeall beth oedd yn digwydd iddyn nhw.

**2.3 Pobl Ifanc sydd wedi gadael gofal**

Cafwyd cyflwyniad gan ddau berson ifanc oedd wedi derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth yn y gorffennol. Roedd eu sylwadau fel a ganlyn:

- Fod ansawdd lleoliadau maeth yn holl bwysig a bod angen sicrhau'r gofal gorau, yn arbennig yn ystod y cyfnod rhwng 14 ac 16 oed.
- Ei bod yn anodd cysylltu â'r Gwasanaeth ar ôl oriau swyddfa.


- Roedd eu profiad addysgol wedi bod yn un anodd am nad oeddent yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gefnogaeth yn yr ysgol, fel plant mewn gofal, i gyrraedd eu potensial.
- Roeddent wedi derbyn cefnogaeth dda iawn gan Dîm Ôl Ofal y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## 2.0 Cefnogaeth gan y Cyngor

### 2.1 Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyma ddata diweddar ar niferoedd y plant mewn gofal yng Ngwynedd

| Plant mewn gofal | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn | 203 | 195 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 56 (B.33/ M.23) | 54 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 49 | 36 |
| Nifer o blant wedi eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn | 9 | 3 |




Ar ddiwedd Mawrth 2013 roedd 203 o blant yng ngofal y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o 4% ar y nifer oedd mewn gofal ar ddiwedd Mawrth 2012 (195). Cafodd 9 o blant eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, gan gymryd 24 mis ar gyfartaledd rhwng y gorchymyn lleoliad a'r dyddiad mabwysiadu ac felly allan o ofal y Cyngor.

**Rhesymau am dderbyn gwasanaeth**

Bu trosiant o 249 o blant yng ngofal y Cyngor rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013. Mae'r 'Codau Categori o Angen' mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio isod yn cyfeirio at y rheswm bod y plentyn mewn angen ac yn derbyn gwasanaeth.


| Categori o Angen | | Nifer o blant |
|---|---|---|
| N1 | Camdriniaeth neu esgeulustod | 150 |
| N2 | Anabledd neu salwch plentyn | 5 |
| N3 | Anabledd neu salwch rhieni | 15 |
| N4 | Teulu o dan straen difrifol | 13 |
| N5 | Camweithrediad teuluol | 49 |
| N6 | Ymddygiad cymdeithasol annerbyniol | 10 |
| N8 | Rhiantu absennol | 6 |
| N9 | Aflonyddwch mabwysiadu | 1 |


Gwelir mai camdriniaeth neu esgeulustod yw'r prif reswm o bell dros dderbyn plant a phobl ifanc i ofal.

**Leoliadau Plant mewn gofal**

Ar ddiwedd 2012/13 roedd 85% o blant mewn gofal mewn lleoliadau maethu. Roedd 172 o blant wedi eu lleoli gyda gofalwyr maeth gyda 26% o'r gofalwyr yn deulu neu'n ffrindiau. Roedd 5 o blant mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Drafft






**Sefydlogrwydd lleoliadau**

O'r 203 o blant oedd mewn gofal ar 31 o Fawrth 2013, cafodd 9 ohonynt dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrechion y Gwasanaeth i sicrhau lleoliadau sefydlog ar gyfer plant mewn gofal gan dderbyn ar adegau fod rhaid symud plant i leoliadau e.e. ar gyfer eu mabwysiadu sy'n dwyn gwell canlyniadau ar eu cyfer. Mae Gwynedd ymhlith y siroedd sydd â'r canlyniadau gorau yn y maes hwn.

**Lleoliadau Daearyddol**

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 72% o blant mewn gofal wedi eu lleoli yng Ngwynedd a'r gweddill tu allan i'r sir. O'r 28% roedd 8% o'r plant tu allan i'r sir wedi eu lleoli yn Ynys Môn.

**Ymateb i'r cynnydd mewn nifer o blant sy'n dod i ofal**

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i ymateb i'r cynnydd diweddar yn y niferoedd o blant mewn gofal. Ym mis Rhagfyr 2012 roedd 211 o blant mewn gofal ond erbyn Panel mis Ebrill 2013 roedd y niferoedd wedi disgyn i 202. Derbyniwyd 57 lleoliad newydd yn ystod y flwyddyn gyda 13 wedi eu derbyn i ofal ym mis Tachwedd. Mae'r gweithgaredd yma wedi achosi cryn bwysau ar y Gwasanaeth yn arbennig y Gwasanaeth Maethu sy'n trefnu lleoliadau o fewn y Gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth yn rhan o bartneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd a siroedd eraill y gogledd yn ceisio datblygu atebion i'r galw am leoliadau i blant ag ymddygiad rhywiol anaddas. Mae cynnydd yn y math yma o achosion ac mae'n anodd canfod lleoliadau addas ar eu cyfer. Mae'r gwaith yma i ddod i ben diwedd Medi 2013.

Draft

Mae’r Gwasanaeth Plant wedi bod yn cydweithio gydag arolwg ‘Dechrau i’r Diwedd’ o dan arweiniad Pennaeth Economi a Chymuned i asesu’r dulliau gorau i leihau’r gwariant o fewn y gwasanaeth, yn arbennig ar leoliadau allsirol. Mae’r cynlluniau cyfredol yn edrych ar ddulliau o gryfhau’r ddarpariaeth ataliol fyddai’n arwain at leihad yn y galw am leoliadau costus.

Mae’r Gwasanaeth hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Gogledd Cymru gyda’r bwriad o agor llety ar gyfer dau berson ôl 16 ym Mangor. Mae’r ddarpariaeth sy’n cynnig cefnogaeth ar gyfer y lletywyr wedi agor ers mis Medi 2013.

**Cynllun Gwaith a Hyfforddiant i Bobl Ifanc**
Mae cynllun wedi ei sefydlu rhwng Coleg Menai, Cyngor Gwynedd a Gyrfa Cymru i gynorthwyo pobl ifanc mewn gofal neu ar fin gadael gofal. Mae 11 o bobl ifanc yn rhan o’r grŵp cychwynnol ac mae swyddog o Gyrfa Cymru yn eu cefnogi yn y fenter.

Mae’r Gwasanaeth wedi trefnu lleoliad gwaith ar gyfer 4 unigolyn mewn adrannau ar draws y Cyngor gan gynnwys uno fewn y Gwasanaeth Plant ei hun. Y gobaith yw ehangu’r profiad o fewn y Cyngor o ddarparu lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal ac o ganlyniad derbyn mwy o gynigion o leoliadau.

## 2.2 Yr Adran Addysg

Roedd yr 17 (76% o’r plant) oedd yn eistedd cymwysterau yn mynychu ysgolion o fewn y Sir, gyda’r gweddill yn mynychu ysgolion yn Ninbych, Môn, Conwy a Cheredigion.


**Canlyniadau - sgôr bwyntiau addysgol**

Mae cymwysterau’r plant yma’n cynnwys TGAU, BTEC, ESKW, ONAT, NVQ ac eraill. Mae pob cymhwyster gyda sgôr cywerth sy’n cael eu cyfrifo gan Cynnal. Roedd 17 o blant mewn gofal yn gymwys ar gyfer y mesurydd hwn yn 2012/13 (wedi bod mewn gofal dros 12 mis ar 31/8/2012 ac yn eistedd arholiadau TGAU yn yr Haf 2012).

Mae’r canlyniadau’n adlewyrchu ystod eang o allu a chymwysterau amrywiol nifer cyfyngedig o blant mewn gofal sydd yn yr ystod oed yma – 17 rhwng 15 ac 16 oed ar y pryd.

Cyfartaledd sgôr bwynt plant mewn gofal yw 289. Mae hyn i’w gymharu â 525 sef cyfartaledd sgôr bwynt cyffredinol ar gyfer holl blant Gwynedd. Gwynedd sydd a’r y sgôr bwynt cyffredinol uchaf (EDU/011) o holl siroedd Cymru yn 2013. Mae sgôr bwynt plant mewn gofal (SCC/0 ) yn bumed ymhlith siroedd Cymru. Mae hwn yn fwlch sylweddol er ei bod yn anodd cymharu gan fod y niferoedd sydd mewn gofal yn fychan. Bydd hwn yn faes y bydd y Panel yn edrych arno i’r dyfodol.


Draft




| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 122.88 | 145.95 | 151.65 | 183.24 | 193.00 | 221.00 |
| Gwynedd | 274.75 | 51.54 | 128.50 | 188.40 | 314.00 | 289.00 |

Bydd arian grant plant mewn gofal ychwanegol yn cael ei dargedu at unigolion eleni (£450 y pen) ar gael i wella deilliannau plant mewn gofal. Mae hyn yn ogystal â'r bwrsari a gynigir gan yr adran i blant mewn gofal yng nghyfnod allweddol 4 o £400. Mae'r arian wedi ei ddefnyddio i ddarparu gliniaduron ac iPads i hyrwyddo cyflawniad plant mewn gofal.

## Adroddiad Perfformiad Cynlluniau Addysg Personol




| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 30.43 | 61.25 | 100.00 | 89.47 | 86.10 | 50.90 |

Er bod yr adroddiadau ar berfformiad ysgolion wedi bod yn galonogol iawn yn ystod cyfnod cyntaf y flwyddyn gwelwyd gostyngiad sylweddol erbyn y trydydd chwarter (O 100% i 62%). Mae gofyn i ysgolion baratoi Cynllun Addysg Bersonol ar gyfer pob plentyn mewn gofal pan fydd yn dod i'w hysgol a hynny o fewn 20 diwrnod (4 wythnos) i'w ddyfodiad. Mae'r Adran Addysg wedi bod yn gweithio gydag ysgolion yr Awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth a bydd hynny yn parhau i'r dyfodol.

Mae'r system i amlygu ysgolion sydd heb gydymffurfio â'r gofyn ynghynt o fewn y 15 diwrnod cyntaf o'r cyfnod o 20 diwrnod. Bydd ymyrraeth uniongyrchol yn dilyn gan y Swyddog Plant mewn Gofal.

**Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig**
Croesawodd y panel y cynlluniau i sefydlu'r ganolfan ragoriaeth. Derbyniwyd amlinelliad gan y Pennaeth Addysg o'r camau a gymerwyd i wireddu'r amcan o sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer y sir. Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaeth Plant yn cydweithio ar y fenter yma. Bydd darpariaethau'r ganolfan newydd yn cynnig gofal ysbaid ar gyfer rhwng 5 a 10 o blant ag anableddau a gofal tymor hir ar eu cyfer, yn ôl y galw. Bydd hyn yn fodd i gefnogi teuluoedd sydd â phlant ag anableddau er mwyn ysgafnhau eu baich a lleihau'r galw i ddod â phlant ag anableddau i ofal. Ar hyn o bryd (Medi 2013) dim ond un lleoliad plant ag anableddau sydd gan y Gwasanaeth.

Mae safle wedi cael ei adnabod a chynllun busnes cynhwysfawr ar gyfer y ddarpariaeth wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Y gobaith yw bydd y Ganolfan yn agor ym mis Ebrill 2016.

**3.0 Gofal Iechyd Plant mewn Gofal**
Mae'r mater o ddiffygion darpariaeth gofal iechyd plant mewn gofal yn parhau'n bryder i'r Panel. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Plant am y camau gafwyd eu cymryd i geisio darbwyllo swyddogion y gwasanaeth iechyd fod y ddarpariaeth n annigonol. Yn ôl y Gwasanaeth roedd y Bwrdd Iechyd yn darparu trydedd rhan o'r gwasanaeth i Wynedd ag oedd i siroedd eraill gan olygu gostyngiad sylweddol yn y gofal iechyd i blant mewn gofal ag a fu cynt. Mae hyn hefyd wedi golygu gostyngiad ym mherfformiad dangosyddion iechyd y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd y mater ei godi mewn fforymau gwahanol gan aelodau a swyddogion ond bu'r diffyg am gyfnod helaeth o'r flwyddyn.

Yn sgil mewnbwn gan y Gwasanaeth bu i swyddogion y Bwrdd Iechyd adolygu eu cynlluniau gyda'r bwriad o gynnal gwasanaeth mwy cynhwysfawr o ddechrau Gorffennaf 2013. Mae hwn yn faes y bydd angen ei arolygu'n fanwl i'r dyfodol.

**Crynhoi**

Fel nodwyd eisoes mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi adnabod yr angen i fod yn fwy strategol i'r dyfodol. Mae amlinelliad o'r broses a'r pwyntiau hanfodol i'w gweld yn y ddogfen atodol. Er mwyn symud yn nes at yr ymarfer gorau bydd angen i'r Panel, adrannau'r Cyngor a'r partneriaid sicrhau fod plant mewn gofal yn cael gofal iechyd priodol sy'n cymharu'n dda gyda'u cyfoedion ar draws Cymru. Bydd hefyd angen gweld sut mae modd cynyddu'r gefnogaeth i blant mewn gofal fel bod y sgôr bwyntiau addysgol yn symud yn nes at gyfartaledd sgôr bwynt cyffredinol y sir. Bydd angen cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc mewn gofal gael profiad gwaith o fewn adrannau'r Cyngor a'r partneriaid ac efallai swyddi dros dro sydd ar gael ar brydiau dros yr haf..

Mae siroedd yn Lloegr wedi mabwysiadu datganiad cyhoeddus o addewid o gefnogaeth i'w plant mewn gofal ac yn gweithio gyda chynrychiolwyr plant mewn gofal sydd ar eu 'cyngor' plant mewn gofal lleol.  Mae ganddynt hefyd

rhaglen o hyfforddiant ar gyfer eu holl staff i'w hysbysu o'u cyfrifoldebau tuag at blant mewn gofal.

Drwy ddatblygu strategaeth gynhwysfawr bydd y Panel mewn sefyllfa i ddylanwadu'n effeithiol er lles plant mewn gofal.

Drafft

# RHAGLEN WAITH Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2013-2014

| Maes | Mater | Gweithred | Cyfrifoldebau Arweiniol | Pryd | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|

**1.0 Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol ac Adrannol**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Polisi a Chanllawiau Rhiantu Corfforaethol – Cyngor Gwynedd | Cymeradwyo, dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o, a chydymffurfiaeth gyda, 'Polisi a Chanllawiau Rhiantu Corfforaethol' Cyngor Gwynedd | ITJ/AME.<br>Penaethiaid Gwasanaeth | | Dealltwriaeth glir ymysg staff, cynghorwyr a'r rhai sy'n gweithio ar ran y Cyngor o'r polisïau a chanllawiau rhiantu corfforaethol.<br><br>Tystiolaeth o effaith yn cael ei fonitro gan bob gwasanaeth gyda adrodd rheolaidd i'r Panel Rhiant Corfforaethol[chwarterol].<br><br>Panel Rhiant Corfforaethol yn cymeradwyo Polisi a Chanllawiau pob Gwasanaeth o fewn y Cyngor.<br><br>Mesuryddion Perfformiad Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. Eitem safadwy – Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| 1.2 | Argyhoeddi Aelodau Arweiniol perthnasol [Aelod Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, | Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol/trawsadrannol y Cyngor parthed materion | ITJ/AME/SG/RHWW | | Trefniadau cyfathrebu clir a hwylus yn ei le ar draws y sefydliad/Cyngor a gyda BLIDP Gwynedd a Môn. |

# RHAGLEN WAITH Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2013-2014

| Maes | Mater | Gweithred | Cyfrifoldebau Arweiniol | Pryd | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Iechyd] bod gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn. | diogelu plant ac oedolion. Sicrhau cyfathrebu corfforaethol effeithiol. Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd a Môn. ITJ/AME/SG/RHWW | | | Adroddiadau Cabinet, Cyngor Llawn, Tîm Rheoli Corfforaethol , Panel Strategol a BLIDP Gwynedd a Môn.<br>Mesuryddion Perfformiad. |
| 1.3 | Rôl y Cyfarwyddwr Statudol – Gwasanaethau Cymdeithasol. | Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau 'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor. | Aelodau'r Panel, Penaethiaid Gwasanaeth. | | Y Cyfarwyddwr Statudol yn cyflawni'r cyfrifoldeb ar faterion rhiantu corfforaethol Yn sicrhau bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant ac oedolion ac am adrodd ar lefel gorfforaethol i gynghorwyr am eu heffeithiolrwydd. |
| 1.4 | Cynllun Strategol –Cyngor Gwynedd | Cynigion Diogelu Plant ac Oedolion yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Strategol. | SG/RHWW/ITJ/AME/DPh | | Cynllun Strategol yn amlygu'r modd y bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei rwymedigaethau corfforaethol a chyfreithiol yn y maes rhiantu corfforaethol |

## 2.0 Hyfforddiant Corfforaethol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol i aelodau etholedig. | Rhaglen Hyfforddiant wedi ei sefydlu. | SG/RHWW/AS/ITJ/AME /DPh | | Aelodau yn gyfarwydd â pholisi a chanllawiau rhiantu corfforaethol y Cyngor. |

# RHAGLEN WAITH Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2013-2014

| Maes | Mater | Gweithred | Cyfrifoldebau Arweiniol | Pryd | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 2.2 | Hyfforddiant Corfforaethol i staff y Cyngor. | Rhaglen Hyfforddiant rhiantu corfforaethol wedi ei gytuno, sefydlu a'i ariannu o fewn matrics hyfforddiant corfforaethol y Cyngor. | ITJ/AME/AS | | Holl weithlu'r Cyngor wedi derbyn hyfforddiant rhiantu corfforaethol i'r lefel priodol. |

**3. Ffrydiau Gwaith Penodol**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | | | | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **5 Rhagfyr 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSYLLTIOL** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Derbyniwyd rhybudd

1.1.1 Nad yw'r Cynghorydd John Brynmor Hughes bellach yn aelod unigol a'i fod yn dymuno symud i'r Grŵp Annibynnol.

1.2 O ganlyniad mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 37 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 14 |
| Llafur | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 0 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn

ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod y Grŵp Annibynnol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Archwilio, a bod Aelod Unigol yn colli sedd ar y Pwyllgor Archwilio.

3.2 Golyga hefyd fod y Grŵp Annibynnol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a bod Aelod Unigol yn colli sedd ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

(Gweler **Atodiad A** – lle nodir y newidiadau i'r dyraniad blaenorol ar gefndir llwyd)

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor Llawn:

- drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.2 uchod yn unol â chytundeb y Grŵp Busnes

**ATODIAD A**

## PWYLLGORAU CRAFFU

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 4 | 1 | | |
| Archwilio | 9 | 5 | 3 | 1 | | 0 |

## PWYLLGORAU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | 0 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **76** | **37** | **28** | **8** | **4** | **0** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **96** | **47** | **36** | **10** | **5** | **0** | **194** |

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Department for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref TO/MD/02614/13

Eirian Roberts
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD
STRATEGOL A GWELLA
30 / 10 / 13
RHIF TRACIO ..............

22 October 2013

Annwyl Eirian Roberts

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Hydref at Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn nodi cefnogaeth Cyngor Gwynedd am y syniad o gael Prifysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru. Gofynnwyd i mi ymateb.

Mae yna eisoes gysylltiadau cryf rhwng y Prifysgolion a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru.

Mae Ysgol Glinigol Gogledd Cymru yn cynnwys staff academaidd o Brifysgolion Bangor a Glyndŵr. Mae sefydlu'r ysgol wedi cynyddu'r nifer o leoedd clinigol ar gyfer myfyrwyr yng Ngogledd Cymru. A'r gobaith yw y bydd hynny'n gwella'r gallu i recriwtio meddygon iau ar hyd a lled y rhanbarth.

Gwyddom fod nifer o fyfyrwyr meddygol yn parhau â'u gyrfaoedd yn yr ardal lle cawsant eu hyfforddi. Trwy'r ymgyrch Gweithio i Gymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo manteision byw a gweithio yng Nghymru. Mae'n amlwg bod angen gwneud newidiadau radical ac ar frys i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Un o fanteision niferus yr ad-drefnu yw y bydd arbenigwyr mewn meysydd penodol yn dod at ei gilydd mewn canolfannau rhagoriaeth. Bydd hynny'n cynnig y cyfle i gael hyfforddiant gwell, yn ogystal â chael gofal o ansawdd well.

Rydym wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Academaidd Meddygol a Deintyddol Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan y Farwnes Ilora Finlay o Landaf. Nod y Bwrdd yw edrych ar ddyfodol addysg feddygol a deintyddol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod darparwyr yn cydweithredu i ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel, gan gynnwys gweithlu cynaliadwy ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'r Bwrdd wedi bod yn ystyried yn ddiweddar y mater o gael

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Department for Health and Social Services
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
E-bost • E-mail:
health.enquiries@wales.gsi.gov.uk
Ffôn • Tel: 029 2037 0011
Ffacs• Fax: 029 2082 3403

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

addysg feddygol yng Ngogledd Cymru. Bydd canlyniad y trafodaethau hynny'n cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

**Clive Nurton**

**Tîm Busnes y Llywodraeth**